# RHYBUDD O GYFARFOD


***Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri***

***Jonathan Cawley***
***Prif Weithredwr***
***Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri***
***Penrhyndeudraeth***
***Gwynedd LL48 6LF***
***Ffôn: (01766) 770274***
***E.bost: parc@eryri.llyw.cymru***


| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau |
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 15 Gorffennaf 2026 |
| **Amser:** | 10:00 y.b. |
| **Man Cyfarfod:** | Swyddfa'r Parc Cenedlaethol, Penrhyndeudraeth a thrwy Zoom |

***Gofynnir i'r Aelodau ymuno â'r cyfarfod 15 munud cyn yr amser cychwyn dynodedig***

***Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd***
*Y Cynghorwyr: Elwyn Edwards, Delyth Lloyd Griffiths, Annwen Hughes, Louise Hughes, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts, Einir Wyn Williams;*

***Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy***
*Y Cynghorwyr: Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, Nia Owen;*

***Aelodau wedi'u penodi gan Lywodraeth Cymru***
*Rhys Evans, Salamatu Fada, Tim Jones, Naomi Luhde-Thompson, Delyth Lloyd, Wyn Thomas.*

# R H A G L E N


| | | Rhif Tudalen |
|---|---|---|
| 1.* | **Cadeirydd**<br>Ethol Cadeirydd y Pwyllgor | |
| 2.* | **Is-gadeirydd**<br>Ethol Is-gadeirydd y Pwyllgor | |
| 3. | **Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd**<br>Derbyn ymddiheuriadau gan yr Aelodau | |
| 4. | **Datgan Diddordeb**<br>Derbyn datganiad o ddiddordeb mewn unrhyw eitem gan aelod neu swyddog. | |
| 5. | **Cofnodion**<br>Bydd y Cadeirydd yn cynnig fod cofnodion y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 11 Mawrth 2026 yn cael eu harwyddo fel cofnod cywir a derbyn y materion sy'n codi, er gwybodaeth. (Copi yma). | 4 - 8 |
| 6. | **Taflen Weithredu**<br>Cyflwyno'r Daflen Weithredu er gwybodaeth a phenderfyniad. (Copi yma) | 9 |
| 7. | **Adroddiad Blynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol**<br>Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Archwilio Mewnol. (Copi yma) | 10 - 19 |
| 8. | **Adroddiad Blynyddol Gwirfoddolwyr a Llesiant 2026**<br>Cyflwyno adroddiad gan y Swyddog Gwirfoddoli a Lles (Copi yma) | 20 - 33 |
| 9. | **Rhaglen Waith Gorfforaethol 2025-26**<br>Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol. (Copi yma) | 34 - 88 |
| 10. | **Cofrestr Risg yr Awdurdod**<br>Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol. (Copi yma) | 89 - 104 |
| 11. | **Adroddiad Monitro Cwynion**<br>Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer. (Copi yma) | 105 - 107 |
| 12. | **Adroddiad Blynyddol ar y Gwir Weithgarwch Rheolaeth Trysorlys yn 2025/26**<br>Cyflwyno adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid. (Copi yma) | 108 - 111 |

13. **Adroddiad Blynyddol Enwau Tirweddol Eryri** 112 - 116

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Rheoli Tir. (Copi yma)

* Tynnir eich sylw at orchymyn sefydlog 5.8 sy'n datgan "Ni fydd unrhyw Aelod yn gwasanaethu fel Cadeirydd neu Is-gadeirydd mwy nag un Pwyllgor".

**COFNODION**
**PWYLLGOR PERFFORMIAD AC ADNODDAU**
DYDD MERCHER 11 MAWRTH 2026
Swyddfa’r Parc Cenedlaethol

***YN BRESENNOL:***

**Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd**
Cynghorwyr Elfed Powell Roberts (Cadeirydd), Elwyn Edwards, Delyth Lloyd Griffiths, John Pughe Roberts, Annwen Hughes, Edgar Wyn Owen, Meryl Roberts, Einir Wyn Williams;

**Aelodau a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
Cynghorwyr Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, Nia Owen;

**Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru**
Rhys Evans, Tim Jones, Delyth Lloyd, Naomi Luhde-Thompson, Wyn Thomas;

**Swyddogion**
Jonathan Cawley, Iwan Jones, Keira Sweenie, Dewi Aeron Morgan, Sian Owen, Bethan Hughes, Ioan Gwilym, Eifion Jones.

Cynghorodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y byddai’r cyfarfod yn cael ei recordio i gynorthwyo gwirio'r cofnodion ac y byddai’r recordiad ar gael ar-lein yn ddiweddarach.

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau’r Cadeirydd**
Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Louise Hughes a Dr Salamatu Fada.

2. **Datgan Diddordeb**
Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.

3. **Cofnodion**
*Mabwysiadwyd* cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd 2025, a llofnododd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.

4. **Taflen Weithredu**
*Cyflwynwyd* y Daflen Weithredu gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.

*Argymhellwyd*: –

- bod *Eitem 7. Adroddiad Incwm – Archwilio Cymru* (PacA 12.07.23) yn cael ei thynnu o’r daflen weithredu, am fod y Prif Weithredwr yn bwriadu cyflwyno adroddiad ar y mater yng nghyfarfod nesaf y Gweithgor Aelodau;
- bod *Eitem 8. Arallgyfeirio Incwm* (PacA 29.11.23) yn cael ei thynnu o’r daflen

weithredu, am fod y Prif Weithredwr yn bwriadu cyflwyno adroddiad ar y mater yng nghyfarfod nesaf y Gweithgor Aelodau;

- bod *Eitem 12. Adroddiad Alldro Refeniw a Chyfalaf 2024/25* (PacA 09.07.25) yn parhau ar y Daflen am y tro; roedd y Pennaeth Eiddo'n bwriadu cyflwyno adroddiad ar y mater ond nid oedd dyddiad wedi ei gadarnhau hyd yma.

*Penderfynwyd:* — **derbyn** yr Argymhelliad.

5. **Deddf Rhyddid Gwybodaeth**

*Cyflwynwyd* adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer.

*Adroddwyd*:

- bod 50 o geisiadau wedi dod i law yn ystod y flwyddyn 2025: 28 o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a 22 o dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol;
- bod, o'r ceisiadau hyn:
  - 17 cais yn ymwneud ag amrywiol fathau o wybodaeth oedd yn berthnasol i reolaeth datblygu a/neu bolisi cynllunio a materion cysylltiedig â hynny;
  - 11 cais yn ymwneud â gwybodaeth ynghylch contractau amrywiol yr Awdurdod ar gyfer offer a meddalwedd yn bennaf,
  - 4 cais yn ymwneud â gwybodaeth Adnoddau Dynol ynghylch niferoedd a chostau staff a hyfforddiant,
  - 2 wedi gofyn am gopi o ymatebion i'r ymgynghoriad, a
  - 2 gais yn ymwneud â gwybodaeth am daliadau cyflenwyr

*Argymhellwyd*: – bod y Pwyllgor yn nodi cynnwys yr adroddiad.

*Penderfynwyd*: — **derbyn** yr Argymhelliad.

6. **Cofrestr Risg yr Awdurdod**

*Cyflwynwyd* adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.

*Adroddwyd*:

- bod 19 o risgiau wedi'u nodi ar y Gofrestr: 1 wedi'i dosbarthu fel risg Uchel, 14 wedi'u dosbarthu fel risgiau Canolig a 4 wedi'u dosbarthu fel risg Isel;
- bod dau risg newydd ar y Gofrestr yn dilyn trafodaeth ac ystyriaeth yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Rhagfyr 2025, sef Etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2026 a Sefydlu pedwerydd Parc Cenedlaethol yng Nghymru.;
- bod y Tim Arweinyddiaeth wedi ail-edrych ar y risgiau yn dilyn sylwadau a wnaed yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Rhagfyr 2025, a bod hyn wedi arwain at ostyngiad yn lefelau llawer o'r risgiau;
- bod camgymeriad yn y gofrestr Gymraeg: roedd canlyniad gweddill risg rhif 3 (*Plas Tan y Bwlch - pwysau ariannol tymor byr ar yr Awdurdod a sicrhau ei ddyfodol hirdymor*) wedi ei gofnodi fel "Coch" ond â chylch ambr, ac mai "Ambr" a chylch ambr ddylai fod.

*Argymhellwyd*: – bod y Pwyllgor yn nodi cynnwys yr adroddiad.

*Penderfynwyd*: — **derbyn** yr Argymhelliad.

7. **Diweddariad ar Gyllideb 2025/26**

*Cyflwynwyd* adroddiad gan y Pennaeth Cyllid.

*Adroddwyd*:

- bod yr adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno dair gwaith y flwyddyn ac mai hwn oedd y cyflwyniad terfynol cyn cau'r gyllideb a chyflwyno adroddiad Alldro yn yr haf;
- bod y gyllideb wedi ei gosod yn Chwefror 2025;
- bod:
  - Llywodraeth Cymru, yn Chwefror 2026, wedi dyrannu £1,003,300 ychwanegol mewn cyllid cyfalaf ar draws 29 o brosiectau,
  - £30,600 ychwanegol wedi'i dderbyn mewn cyllid refeniw i gefnogi pwysau capasiti,
  - cyllid ychwanegol o £635k hefyd wedi ei ddyrannu ddechrau Mawrth er mwyn cwrdd â'r diffyg o fewn y flwyddyn;
- nad oedd y ffigyrau yma wedi eu hadlewyrchu yn y tablau oherwydd i'r arian gael ei dderbyn ar ôl y cyfnod adroddir arno (sef hyd at 31 Ionawr 2026);
- bod camgymeriad yn 2.3 yn yr adroddiad: caed **tan**wariannau "bach mewn sawl gwasanaeth" oedd yn gywir, ac nid **gor**wariannau.

*Argymhellwyd*: – bod y Pwyllgor yn:

1. Cymeradwyo'r adroddiad a nodi'r sefyllfa ariannol bresennol ar gyfer 2025/26
2. Cymeradwyo'r symudiad o £103,000 ar gyfer Terfynau Traddodiadol

*Penderfynwyd*: — **derbyn** yr Argymhelliad.

8. **Rhaglen Waith Gorfforaethol 2025-26**

*Cyflwynwyd* adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.

*Adroddwyd*:

- bod yr adroddiad yn cynnwys manylion y cynnydd a wnaed yn y trydydd (a'r pedwerydd) chwarter i gyflawni'r wahanol brosiectau a'r mentrau y cytunwyd arnynt ar gyfer cyflawni Amcanion Gwelliant yr Awdurdod;
- bod llithriant wedi bod mewn tair eitem, a thynnwyd sylw'r Aelodau atynt:
  - AC1.5 ac AC 1.6: Cynhyrchu Strategaeth Ymgysylltu ar gyfer gwaith llwybrau yn Eryri
  - AC1.10: Adolygu, mabwysiadu a gweithredu Strategaeth Gyfathrebu'r Awdurdod fydd yn weithredol ar gyfer 2026-2030
  - CW 1.4 Datblygu a mabwysiadu Strategaeth Systemau Gwybodaeth a Strategaeth Ddigidol i arwain yr Awdurdod i'r dyfodol gyda canllawiau a gweledigaeth o ran ein systemau technegol
- bod y mwyafrif llethol o'r amcanion yn wyrdd (yn mynd rhagddynt ac o fewn yr amserlen) a bod hyn yn adlewyrchu'n dda ar y swyddogion.

*Nodwyd*:

- bod y Fforwm Staff yn fodd i aelodau drafod polisïau, mynegi eu barn a chyflwyno syniadau er mwyn sicrhau nad oedd yr holl amcanion yn cael eu harosod oddi uchod.

*Argymhellwyd*: – bod y Pwyllgor yn trafod a nodi'r cynnydd ar y Rhaglen Waith Gorfforaethol

*Penderfynwyd*: — **derbyn** yr Argymhelliad.

9. **Adroddiad Diweddaru ar Grantiau Arian Allanol**

*Cyflwynwyd* adroddiad gan y Prif Weithredwr.

*Adroddwyd*:

- nad oedd y blaenoriaethau ar gyfer y prosiectau wedi newid;
- bod Atodiad 2 yn dangos y dull cymeradwyo prosiectau oedd wedi ei fabwysiadu fel Awdurdod, ond ei fod yn cael ei adolygu'n fewnol ar y pryd, a byddai adroddiad pellach ar hynny'n cael ei gyflwyno i'r Aelodau petai'n cael ei newid mewn unrhyw ffordd;
- bod y prosiect Carneddau wedi dod i ben ond dylid cydnabod pwysigrwydd gwaddol y prosiect, bod partneriaethau bellach yn cyd-weithio'n naturiol lle nad oedd y partneriaethau'n bodoli cyn cychwyn y prosiect;
- bod prosiect datblygu Plas Tan y Bwlch yn llyncu adnoddau ac yn hawlio llawer o waith, a byddai sesiwn ar y Plas yn cael ei gynnal ddiwedd yr wythnos yn Niwrnod Hyfforddi'r Aelodau i ddiweddaru'r Aelodau;
- na fyddai'r Awdurdod yn symud ymlaen gyda phrosiect Dŵr Gwyllt Eryri a byddai'r arian, gwerth £200K, yn cael ei golli; roedd hyn am fod yr amser a roddwyd i'r prosiect yn rhy gyfyng, ac roedd sylwadau'n amlygu hyn wedi mynd yn ôl at Lywodraeth Cymru.

*Nodwyd*:

- dylid ceisio ariannu meithrinfa goed i gael tyfu coed a phlanhigion brodorol i adnewyddu gwrychoedd, gan ddechrau gyda'r Plas.

*Argymhellwyd*: – bod y Pwyllgor yn:

1 Nodi'r diweddariad ar y prosiectau arian cyfalaf.

2 Adolygu a chytuno blaenoriaethau ar gyfer cynigion grant (Atodiad 1)

3 Nodi'r Siart Llif Datblygu a Chymeradwyo Prosiectau (Atodiad 2

*Penderfynwyd*: — **derbyn** yr Argymhelliad.

10. **Adroddiad blynyddol ar gyfer blwyddyn 2025: Dangosyddion Perfformiad Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu**

*Cyflwynwyd* adroddiad gan y Pennaeth Cyfathrebu.

*Adroddwyd*:

- bod nifer Materion y Wasg yn llai yn 2025 nag yn 2024 am fod 2024 yn brysur gyda materion Plas Tan y Bwlch, penodi Prif Weithredwr newydd, a'r newid i ddefnyddio'r enwau Eryri a'r Wyddfa'n unig;
- bod ystadegau defnydd y wefan wedi codi;
- bu mwy o arbrofi ar y cyfryngau cymdeithasol yn 2025 gan ffocysu mwy ar ansawdd y cynnwys yn hytrach nag ar nifer yr eitemau a gyhoeddwyd;
- bod patrwm wedi datblygu, sef cynhyrchu ar themâu ymwelwyr rhwng Ebrill a Hydref, a rhinweddau eraill y Parc Cenedlaethol yn ystod misoedd y Gaeaf;
- bod cydweithio da wedi bod gyda phob tîm achub mynydd oedd yn gweithredu yn Eryri;
- bod y rhan fwyaf o'r gwaith ffilmio'n cael ei wneud yn fewnol ond, pan gaed arian grant, bod yr Awdurdod yn defnyddio 3 neu 4 cwmni proffesiynol arbenigol, yn dibynnu ar natur y prosiect;

- bod codi ystadegau sianel Youtube wedi bod yn nod yn 2025;
- ei fod yn fwriad gwneud 3 ffilm 10 munud o hyd yn ystod eleni: ar Gadair Idris, Llyn Tegid a Thaith Fer trwy'r Parc Cenedlaethol;
- bod 5 darn o waith oedd yn rhan o Strategaeth Ddigidol APCE 2026 yn cael eu cynhyrchu ar y cyd rhwng yr adran gyfathrebu ac adran Technoleg Gwybodaeth yr Awdurdod:
    - Strategaeth Gyfathrebu
    - Strategaeth TG
    - Cyfathrebu Mewnol
    - Polisi Deallusrwydd Artiffisial
    - Strategaeth Cyfryngau Digidol

*Argymhellwyd*: – bod y Pwyllgor yn nodi cynnwys yr adroddiad

*Penderfynwyd*: — **derbyn** yr Argymhelliad.

**Daeth y cyfarfod i ben am 11:07**

# TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

## PWYLLGOR PERFFORMIAD AC ADNODDAU – 09.07.2025

| EITEM: RHIF A THEITL | PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU | GWEITHREDIADAU | SWYDDOG CYFRIFOL | DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU | DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU |
|---|---|---|---|---|---|
| 12. Adroddiad Alldro Refeniw a Chyfalaf 2024/25 | **Gor-wario sylweddol oherwydd sbwriel wedi ei adael gan ymwelwyr.**<br>**PENDERFYNWYD gwahodd cyflwyno adroddiad i weld a ellid gwneud rhywbeth tebyg a wnaed ar Yr Wyddfa yn fwy cyffredinol.** | Paratoi adroddiad i'r Pwyllgor | PW | Mae swyddgion wedi arbrofi drwy dynnu biniau o safloedd a chodi arwyddion yn annog pobl i fynd â'u sbwriel gartref. Yn sgil ymateb anfoddhaol rhoddwyd peiriannau cywasgu sbwriel ar safleoedd, hyn eto yn anfoddhaol. Roedd y peiriannau'n torri lawr oherwydd gor-ddefnydd.<br>Bellach mae biniau mawr wedi cael eu gosod ar safloedd.<br>Mae angen ystyried fod yr Awdurdod wedi codi ffioedd meysydd parcio ac y bydd disgwyliad gan y cyhoedd i gael cyfleusterau biniau ar safloedd.<br>**Bydd adroddiad ar y mater yn cael ei gyflwyno i Weithgor mis Medi** | |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau |
| **DYDDIAD** | 15 Gorffennaf 2026 |
| **TEITL** | **ADRODDIAD BLYNYDDOL PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL** |
| **ADRODDIAD GAN:** | Pennaeth Archwilio Mewnol |
| **PWRPAS** | Adroddiad Blynyddol |

## 1. CYFLWYNIAD A CHYD-DESTUN

**Safonau Archwilio Mewnol Byd-Eang a'r Nodyn Gweithredu: Safonau Archwilio Mewnol Byd-Eang yn Sector Gyhoeddus y DU**

1.1 Mae Nodyn Gweithredu, adran 10B, Casgliadau cyffredinol ac adrodd blynyddol yn nodi ***"Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS[1]) 11.3 (Cyfathrebu Canlyniadau) yn cyfeirio at y posibilrwydd y gallai fod yn ofynnol i'r prif weithredwr archwilio ddod i gasgliad ar lefel y sefydliad ynghylch effeithiolrwydd llywodraethu, rheoli risg a neu/reolaeth. Yn y sector gyhoedd yn y DU, rhaid i brif weithredwr archwilio baratoi casgliad cyffredinol o'r fath o leiaf yn flynyddol i gefnogi adroddiadau llywodraethu ehangach, gan ystyried unrhyw rwymedigaethau neu brosesu o fewn y sector benodol. Rhaid i'r casgliad cyffredinol hwn gynnwys materion llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol."***

1.2 Mae angen statudol am wasanaeth Archwilio Mewnol mewn Awdurdodau Parc Cenedlaethol. Caiff yr angen ei ymhlygu yn Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972, sydd yn gofyn fod awdurdodau yn "gwneud trefniadau ar gyfer gweinyddiaeth briodol o'u materion ariannol ac yn sicrhau fod un o'u swyddogion yn gyfrifol am weinyddiaeth y materion hyn". Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn gosod cyfrifoldeb ar yr Awdurdod i gynnal gwasanaeth archwilio mewnol.

1.3 Darperir y gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri gan Archwilio Mewnol Cyngor Gwynedd. Er bod y gwasanaeth wedi ei leoli yn allanol i'r Awdurdod, mae'n darparu gwasanaeth i'r holl awdurdod fel arf i reolwyr i ymwybyddu a chryfhau rheolaeth fewnol, ac yn cynnig i "Swyddog Adran 151" yr Awdurdod (y Prif Swyddog Cyllid) y sicrwydd angenrheidiol fel sy'n ofynnol dan ddeddf gwlad.

1.4 Mae defnydd priodol o'r adnoddau sydd ar gael i Awdurdod y Parc yn hanfodol er mwyn sicrhau fod ansawdd y gwasanaethau a gynigir o safon uchel. Nod y gwasanaeth Archwilio Mewnol yw cynnig hyder i'r Prif Swyddog Cyllid, ac fel canlyniad i'r holl Awdurdod, fod yr adnoddau hynny sydd ar gael wedi eu rheoli a'u defnyddio'n briodol, gyda thryloywder.

1.5 Mae'r adroddiad blynyddol yma yn cynnwys:

- Disgrifiad o'r cyd-destun ar gyfer paratoi'r adroddiad blynyddol
- Crynodeb o waith a gyflawnwyd gan Archwilio Mewnol yn ystod 2025/26
- Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2026/27.

[1] Global Internal Audit Standards

## 2. GWAITH ARCHWILIO MEWNOL

2.1 Mae'r rhan yma o'r adroddiad yn crynhoi casgliad blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar dair agwedd o drefniadau Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, sef llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol.

2.2 Wrth roi fy nghasgliad blynyddol, dylid nodi na all sicrwydd fyth fod yn llwyr. Y mwyaf y gall Archwilio Mewnol ei ddarparu yw cyngor rhesymol nad oes gwendidau mawr yn y system gyfan o reolaeth fewnol.

**2.3 Ar sail gwaith Archwilio Mewnol a gwblhawyd yn ystod 2025/26, yn fy marn i mae gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri fframwaith gadarn o reolaeth fewnol. Mae hyn yn cynorthwyo i roi hyder yn y trefniadau i sicrhau cyflawniad effeithiol ac effeithlon o amcanion yr Awdurdod, gan fod y camau a gymerwyd ganddo yn ystod y flwyddyn ariannol i sefydlu a chryfhau rheolaethau mewnol ac i sicrhau fod camau gweithredu i gywiro gwendidau a adnabuwyd gan Archwilio Mewnol wedi bod yn dda ar y cyfan.**

2.4 Roedd 2 darn o waith yng nghynllun Archwilio Mewnol gwreiddiol 2025/26, sef:

- Plas Tan y Bwlch
- Rheoli Prosiectau

2.5 Cymeradwywyd yr uchod fel cynllun Archwilio Mewnol 2025/26 gan y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau yn ei gyfarfod ar 26 Tachwedd 2025.

2.6 Mae lefelau sicrwydd cyffredinol archwiliadau yn syrthio i un o bedwar categori fel y dengys y tabl isod.

| | | |
|---|---|---|
| **LEFEL SICRWYDD** | **UCHEL** | Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion. |
| | **DIGONOL** | Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach. |
| | **CYFYNGEDIG** | Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt. |
| | **DIM SICRWYDD** | Ystyrir bod y rheolaethau mewn lle yn annigonol gyda methiant i gyflawni amcanion. |

2.7 Mae adroddiadau archwiliadau mewnol llawn wedi eu cynnwys yn Atodiadau 1 i 2.

### 2.8 Plas Tan y Bwlch (Atodiad 1)

2.8.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle i liniaru risgiau ariannol ac i enw da yr Awdurdod wrth ymdrin â dyfodol Plas Tan y Bwlch. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio bod opsiynau amrywiol wedi eu hystyried mewn modd tryloyw a chyfiawn.

2.8.2 **Rhoddwyd lefel sicrwydd "Uchel" i'r adroddiad yma, i adlewyrchu barn yr archwiliwr y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.**

**2.9 Rheoli Prosiectau (Atodiad 2)**

2.9.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau rheoli prosiectau'r Awdurdod yn gyson a phriodol er mwyn cyflawni eu hamcanion. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu dethol sampl o brosiectau'r Awdurdod a gwirio dogfennau a phapurau gwaith perthnasol.

2.9.2 **Rhoddwyd lefel sicrwydd "Digonol" i'r adroddiad yma, i adlewyrchu barn yr archwiliwr bod rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.**

**2.10 Gwaith Dilyniant**

2.10.1 Bwriad y gwaith dilyniant oedd sicrhau bod yr Awdurdod wedi gweithredu ar y gweithrediadau cytunwyd er mwyn lliniaru y risgiau adnabuwyd fel rhan o waith archwilio mewnol 2024/25. O'r dystiolaeth dderbyniwyd, gwelwyd bod gweithrediad ar y camau gweithredu.

## 3. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2026/27

3.1 Mae cynllun Archwilio Mewnol 2026/27 wedi ei ddatblygu ar sail y Siarter Archwilio Mewnol a fabwysiadwyd gan y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar ran yr Awdurdod.

3.2 Mae'r dogfennau ac adroddiadau canlynol wedi derbyn sylw penodol gennyf wrth lunio'r cynllun drafft yn unol â'r Siarter Archwilio Mewnol:

- Cynllun Busnes a Gwelliant yr Awdurdod
- Proffil Risg yr Awdurdod
- Cyllideb yr Awdurdod a Lefi ar Awdurdodau Cyfansoddol

3.3 Yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r risgiau, awgrymir y canlynol fel cynllun archwilio mewnol ar gyfer 2026/27:

| **Archwiliad** | **Cynllun (Dyddiau)** | **Rheswm** |
|---|---|---|
| Yr Ysgwrn | **13** | Cynnal adolygiad o'r Ysgwrn, yn benodol trefniadau cynhyrchu incwm oherwydd bod risg yn sgil argyfwng costau byw sy'n amharu ar wariant ymwelwyr a chostau rhedeg cynyddol. |
| Canolfannau Gwybodaeth | **13** | Mae Canolfannau Gwybodaeth yn darparu amryw o wasanaethau ar ran yr Awdurdod ac mae risg na all y Canolfannau Gwybodaeth gynhyrchu incwm digonol i gyflawni'r gyllideb. |
| Gwaith Dilyniant | **2** | Dilyniant i archwiliadau 2025/26. |
| *Eraill:* | | |
| Rheolaeth a Phwyllgorau | **2** | Amser wedi ei neilltuo i swyddogion Archwilio Mewnol fynychu pwyllgorau'r Awdurdod ac i reoli gwaith. |
| ***Cyfanswm*** | **30** | |

3.4 Mae'r cynllun yma yn ddarostyngedig i addasiadau a'i wneud yn derfynol ar sail cyfarfodydd rhwng y Pennaeth Archwilio Mewnol a'r Prif Weithredwr, Prif Swyddog Cyllid, y Cyfarwyddwr Corfforaethol a/neu'r Pennaeth Cyllid.

## 4. GOBLYGIADAU ADNODDAU

4.1 Ni fydd oblygiadau adnoddau ychwanegol fel canlyniad i argymhellion yr adroddiad yma.

## 5. ARGYMHELLION

5.1 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad hwn fel "Adroddiad Blynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol" yn unol â gofyn y Safonau Archwilio Mewnol Byd-Eang.

5.2 Gofynnir i'r pwyllgor hefyd ystyried y Cynllun Archwilio Gweithredol ar gyfer cyfnod cyfrifo 2026/27, ac unai ddarparu argymhellion penodol perthnasol a/neu dderbyn y cynllun.

Atodiad 1

# PLAS TAN Y BWLCH

## 1. Cefndir

1.1 Adeiladwyd Plas Tan y Bwlch, ger Maentwrog, yn y 19eg ganrif gan deulu'r Oakeley, a oedd yn berchen ar chwareli llechi mawr yn yr ardal. Yn ddiweddarach, daeth yn Ganolfan Astudiaethau Amgylcheddol yr Awdurdod, gan gynnig cyrsiau dydd a phreswyl ar ecoleg, hanes lleol a diwylliant Cymreig i ymwelwyr, ysgolion a chymunedau. Ar dir y Plas mae coetiroedd cyhoeddus cyfagos yn ogystal â Llyn Mair.

1.2 Penderfynodd yr Awdurdod bod costau cynnal y Plas yn anghynaladwy, a rhoddwyd ar y farchnad ym mis Awst 2024. Yn dilyn pryderon y gymuned leol am golli mynediad i'r adeilad, y gerddi, coetir a'r llyn, penderfynwyd ym mis Tachwedd 2024 i'w dynnu oddi ar y farchnad, ac ym mis Ebrill 2025 cytunwyd i ddilyn opsiwn newydd, sef ceisio cadw Plas Tan y Bwlch yn ddarostyngedig y sicrheir grant Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, gyda golwg ar ddarparu cymysgedd ehangach o ddefnyddiau cymunedol, addysgol, hamddenol, caffi a phreswyl ar gyfer yr eiddo, ynghyd â adleoli swyddfeydd yr Awdurdod o'r Pencadlys presennol ym Mhenrhyndeudraeth i'r Plas.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau addas mewn lle i liniaru risgiau ariannol ac i enw da yr Awdurdod wrth ymdrin â dyfodol Plas Tan y Bwlch. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu gwirio bod opsiynau amrywiol wedi eu hystyried mewn modd tryloyw a chyfiawn.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| UCHEL | **Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.** |

## 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| UCHEL IAWN | 0 |
| UCHEL | 0 |
| CANOLIG | 0 |
| ISEL | 1 |

## 5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Yn anffodus, mae'r Plas a'r Awdurdod yn gyffredinol wedi wynebu sefyllfa ariannol heriol dros y blynyddoedd diweddar, gyda chostau cynyddol cynnal a chadw hen adeilad yn rhagori'r incwm o'i weithgareddau. Yng nghanol yr hinsawdd economaidd argyfyngus bresennol, gwnaethpwyd y penderfyniad anodd i chwilio am opsiynau amgen i ddyfodol y Plas, gan gynnwys cydweithio gyda phartneriaethau cymunedol, neu fel y gwnaethpwyd yn y pen draw, ei roi ar y farchnad.

5.2 Fodd bynnag, ar amser yr archwiliad, mae’r Awdurdod wedi ymrwymo i ddilyn opsiwn newydd, sef ceisio am grant sylweddol Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, gyda’r bwriad o gadw a datblygu’r Plas. Mae’r Awdurdod yn cydnabod bod y penderfyniad gwreiddiol i waredu â’r Plas wedi bod yn un cynhennus a buasai mwy o dryloywder a chyfathrebu wedi bod o fudd i gyfiawnhau'r penderfyniad. I’r perwyl hynny gwelwyd bod yr Awdurdod yn ymgysylltu gyda’r gymuned leol wrth fwrw ymlaen gyda’r cais grant, gyda diweddariadau cyson yng nghyfarfodydd yr Awdurdod, mynychu cyfarfodydd Cynghorau Cymuned lleol, a chynnal sesiynau galw heibio ayb. Mae’r penderfyniad i geisio am y grant wedi derbyn adborth calonogol gan y gymuned, sydd gyda cysylltiadau emosiynol cryf gyda’r Plas.

5.3 Mae ceisio am grant y loteri yn broses hir aml-ran, a gan fod y cais yn parhau yn y dyddiau cymharol gynnar, mae ansicrwydd a risg yn anochel ar hyn o bryd, oherwydd petai’r cais yn cael ei wrthod yna bydd rhaid ail edrych ar yr opsiynau cyfyngedig gwreiddiol, oni bai bod modd canfod ffynhonnell arall o gymorth ariannol, ond prin yw’r cyfleoedd yma. Gwelwyd bod yr Awdurdod yn rhybuddio bod cais aflwyddiannus yn bosibilrwydd go iawn.

5.4 Rhoddwyd y Plas ar werth yn wreiddiol oherwydd y pwysau ariannol a osodwyd ar yr Awdurdod. Gan fod y penderfyniad i’w werthu wedi ei wrthdroi, roedd angen i’r Awdurdod ystyried y goblygiadau ariannol, drwy baratoi cyllideb i adlewyrchu’r costau a thargedau incwm, gan gofio gall yr ansicrwydd dros y dyfodol amharu ar ymrwymiad cwsmeriaid i archebu gwasanaethau. Hyd nes i’r gwaith datblygu gael ei gymeradwyo gan y Loteri, mae risg gall costau rhedeg y Plas yn y tymor byr roi pwysau ar gronfeydd wrth gefn, ond yn sgil setliad ariannol cadarnhaol, adferwyd cyllideb sylfaenol ar gyfer y Plas yn ystod y cyfnod pontio tra bo ceisiadau grant yn cael eu cyflwyno i’r Loteri. Mae’r Awdurdod yn cydnabod bod cyfrifo cyllideb ar gyfer y Plas yn heriol, gyda ffrydiau incwm ansefydlog yn creu ansicrwydd. Mynegir cyllideb 2026/27 bod costau net y Plas dros £400k, gyda incwm rhagweledig o bron i £125k, ond ni welwyd papurau gwaith i gefnogi’r ffigyrau yma.

5.5 Fel rhan o’r proses ceisio am grant, mae’r Awdurdod wedi comisiynu tîm dylunio profiadol i gefnogi’r cais am £325k ar gyfer 'cyfnod datblygu’ y cynllun. Disgwylir canlyniad tua mis Mehefin 2026 os bydd y cais yn llwyddiannus. Os yw’r gwaith yn ystod y cyfnod datblygu yn tybio bydd datblygu’r Plas a’i ddefnyddio fel canolfan diwylliannol, addysgol a phencadlys newydd yn ymarferol, a hyfyw yn y tymor hir, yna bwriedir cyflwyno’r cais ‘cyfnod cyflawni’ am £9m ddiwedd 2027. Fodd bynnag, mae risg gall y prosiect beidio bod yn hyfyw, gall y gwaith orwario, neu methu darganfod arian cyfatebol. Gwelwyd bod y trefniadau tendro tîm dylunio yn briodol, a bod y gwaith paratoi’r cynllun yn mynd rhagddo, gyda’r gobaith o dderbyn cymeradwyaeth buan i symud i ran nesaf y cais.

5.6 Petai’r cais am grant yn llwyddiannus, yna bydd y Plas yn cael ei ddatblygu, ac elfen ganolog i sefydlogi ei ddyfodol ac angori ymrwymiad yr Awdurdod bydd symud y Pencadlys cyfredol yno, gan gadw a datblygu’r gwasanaethau presennol mae’r Plas yn eu cynnig. Yn sgil hyn mae’n debyg bydd angen gwaredu, neu rentu allan swyddfeydd presennol yr Awdurdod er mwyn rhyddhau costau. Er buasai hyn rhai blynyddoedd i ffwrdd, a bod diddordeb cynnar gan ddarpar brynwyr yn yr adeilad, ni ellir osgoi'r risg o fethu ei waredu hyd nes i’r cynlluniau ddatblygu, ond ymddengys gall costau cynnal y Pencadlys cyfredol tra’n wag fod yn gymharol isel. Cydnabyddir bod trafod ei ddyfodol gyda phobl leol yn flaenoriaeth.

5.7 Petai’r cais am grant yn methu, neu fod y cynlluniau yn ymddangos yn anhyfyw, ble fydd costau cynnal hir dymor yn ormod i ysgwyddo, gall fod angen ail-ystyried gwahodd sefydliadau eraill i gymryd perchnogaeth dros y Plas. Bydd colli’r Plas i’r sector breifat yn creu risg o’r gymuned yn colli mynediad at yr eiddo a’r tir, a risg bellach o ddirywiad yn yr eiddo petai perchnogion newydd yn wynebu yr un trafferthion ariannol. Mae’r Awdurdod eisoes wedi trafod gyda darpar brynwyr cyn ymgeisio am y grant, ac yn wybodus bydd unrhyw darpar brynwyr angen eu bodloni bod

ganddynt fwriad diffuant i ddiogelu’r Plas, a gore fyth gall yr Awdurdod gadw perchnogaeth ar y tir o’i gwmpas.

5.8 Yn wir felly, mae’r archwiliad o’r farn bod pob opsiwn yn creu risgiau ariannol ac i enw da’r Awdurdod, yn enwedig ansicrwydd costau ac incwm y Plas yn y tymor byr a thymor hir, a bydd tryloywder yn allweddol i dderbyn cefnogaeth y gymuned, yn arbennig petai angen gwneud penderfyniadau anodd ac amhoblogaidd yn ei rôl o stiwardio treftadaeth, a cheidwad arian cyhoeddus. Er yn ddyddiau cynnar, credir bod camau rhesymol wedi eu cymryd i gwrdd â dymuniadau'r gymuned, a bod trefniadau mewn lle i geisio eu diwallu, gyda fframwaith priodol ar gyfer rheoli’r prosiect mewn lle.

**6. <u>Camau Gweithredu</u>**

**Ar ôl trafodaethau gyda'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol cytunwyd i weithredu’r camau canlynol i liniaru’r risgiau a amlygwyd:**

- **Sefydlu grŵp o swyddogion er mwyn cynnal cyfarfodydd rheolaidd i adolygu cynnydd a risgiau**

# RHEOLI PROSIECTAU

## 1. Cefndir

1.1 Mae trefniadau rheoli prosiect cadarn yn sicrhau bod gwaith yn cael ei gynllunio, ei drefnu a'i reoli'n effeithiol, a hynny er mwyn cyflawni canlyniadau clir, sy'n gyson â blaenoriaethau strategol yr Awdurdod, a hynny mewn modd amserol, ac o fewn cyfyngiadau cost ac adnoddau penodol. Trwy osod amcanion pendant, diffinio rolau a chyfrifoldebau, monitro cynnydd a risgiau, mae rheoli prosiectau yn helpu sefydliadau i leihau gwastraff, gwella ansawdd, a gwneud defnydd gwell o adnoddau, gan gynyddu'r tebygolrwydd o lwyddo.

## 2. Bwriad a Chwmpas yr Archwiliad

2.1 Bwriad yr archwiliad oedd sicrhau fod trefniadau rheoli prosiectau'r Awdurdod yn gyson a phriodol er mwyn cyflawni eu hamcanion. Er mwyn cyflawni hyn, roedd yr archwiliad yn cwmpasu dethol sampl o brosiectau'r Awdurdod a gwirio dogfennau a phapurau gwaith perthnasol.

## 3. Lefel Sicrwydd yr Archwiliad

3.1 Gwiriwyd y rheolaethau ar gyfer lliniaru risgiau. Mae asesiad yr archwiliwr yn dod i'r casgliad fod lefel sicrwydd yr archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| DIGONOL | **Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach.** |

## 4. Sgôr Risg Cyfredol

4.1 Mae risgiau'r archwiliad fel a ganlyn:

| Lefel Risg | Nifer |
|---|---|
| UCHEL IAWN | 0 |
| UCHEL | 0 |
| CANOLIG | 1 |
| ISEL | 0 |

## 5. Prif Ddarganfyddiadau

5.1 Ym mis Mai 2019, cymeradwywyd Gweithgor Aelodau 'Pecyn Cymorth Rheoli Prosiect' sy'n amlinellu'r fframwaith ar gyfer adnabod, asesu, cynllunio ac adrodd ar brosiectau o fewn yr Awdurdod. Mae'r fframwaith yn rhannu'r trefniadau i 4 cam; Adnabod yr angen am brosiect, Cynllunio, Cyflawni a Cau'r Prosiect. Ni fwriedir i'r pecyn yma fod yn ganllaw cynhwysfawr ar gyfer rheoli prosiectau, ond mae'r fframwaith yn cynnwys templedi dogfennau i gynorthwyo'r Rheolwr Prosiect i gyflawni pob un o'r camau, a drwy hynny sicrhau ansawdd a cysondeb ar draws yr Awdurdod. Yn ogystal, mae cyfleon hyfforddiant ar gael i reolwyr prosiect yr Awdurdod er mwyn cryfhau eu trefniadau, ond credir y dylai cymhwyster fel PRINCE2 ('Projects in Controlled Environments'; sef methodoleg rheoli prosiectau strwythuredig a ddefnyddir yn eang yn y DU ac yn rhyngwladol) fod yn ofynnol i reolwyr prosiectau.

5.2 Ym mis Mawrth 2022, mabwysiadwyd trefn datblygu a chymeradwyo prosiectau. Mae’r Tîm Rheoli yn gwerthuso’r prosiect â’r fframwaith uchod, ac mae’r Aelodau wedyn yn eu cymeradwyo, os yn fodlon bod y gwaith yn cyd-fynd a blaenoriaethau a gweledigaeth yr Awdurdod.

5.3 Diffiniad PRINCE2 o brosiect yw “Menter dros dro wedi ei chreu er mwyn cyflawni un neu ragor o ganlyniadau penodol yn unol ag achos busnes cytûn.” Detholwyd sampl o brosiectau yn unol a’r diffiniad hyn, yn bennaf drwy wirio eitemau ‘Trosolwg o Brif Brosiectau Cyfredol APCE’ caiff eu cyflwyno pob 6 mis i’r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau, ynghyd â gwirio cynnwys gwefan yr Awdurdod. Gwiriwyd os oedd trefniadau rheoli prosiect priodol mewn lle oedd yn dilyn fframwaith a thempledi y ‘Pecyn Cymorth Rheoli Prosiect’, neu bod trefn amgen digonol mewn lle. Y prosiectau oedd ‘Partneriaeth natur Eryri’, ‘Gwaith adfer mawndiroedd’, ‘Strategaeth coed a choetiroedd Eryri 2025-2125’, ‘Plas Tan y Bwlch’, ‘Cynllun adnoddau naturiol integredig’ a ‘Coedwigoedd glaw Celtaidd’.

5.4 Nid oedd y Strategaeth Coed yn rhan o’r eitem Pwyllgor ‘prosiectau’, ond roedd yn y sampl oherwydd credir ei fod yn cwrdd â diffiniad PRINCE2, a bod angen trefniadau rheoli prosiect i sicrhau y bydd y strategaeth yn dwyn ffrwyth. Cafwyd wybod na chafodd y Strategaeth coed ei drin fel prosiect, fel y cyfryw, gan mai proses o dynnu strategaeth at ei gilydd oedd, a felly nad oedd dogfennau rheoli prosiect ar gael.

5.5 Mae prosiectau ‘Partneriaeth natur Eryri’ a ‘Gwaith adfer mawndiroedd’ wedi esblygu o waith unwaith ac am byth yn wreiddiol, wedi’i ariannu a’i reoli gan gyrff allanol (Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru), ac felly ddim yn cael eu hystyried fel prosiectau, er cyfeirir atynt fel prosiectau yn yr eitem Pwyllgor. Gwiriwyd cynlluniau, adroddiadau cynnydd, a hawliadau ariannol prosiect mawndiroedd a gwelwyd eu bod yn briodol, yn dilyn templedi a gofynion a osodwyd gan y corff cyllido, a bod yr arian grant wedi ei dderbyn.

5.6 Mae prosiect aml-gam datblygu Plas Tan y Bwlch ar y gweill, ac yn y broses o gyflwyno cais i Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol i gymeradwyo y cam nesaf, sef ‘cyfnod datblygu’ y cynlluniau. Er mynegwyd bod cyfnod presennol y gwaith cyn dechrau ffurfiol y prosiect, derbyniwyd Fframwaith Prosiect, sy’n cynnwys yr achos busnes, ynghyd â cofrestr risg ac adroddiadau cynnydd i Aelodau.

5.7 Mae’r Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig yn cwmpasu dau prosiect newydd, ‘Y goeden iawn yn y lle iawn’ a ‘Ffermio adfywiol’, ariennir drwy grant Llywodraeth Cymru. Mae cais llwyddiannus wedi’i gyflwyno a grant wedi ei gynnig. Gwelwyd bod y prosiectau wedi eu cymeradwyo gan y Tîm Rheoli ac yna yr Aelodau yn unol â’r drefn yn 5.2. Megis cychwyn mae’r prosiectau, a nid oes staff wedi eu penodi i wireddu'r gwaith hyd yn hyn, a bydd dogfennau rheoli’r prosiect yn datblygu gyda amser.

5.8 Mae prosiect ‘Coedwigoedd glaw Celtaidd’ yn brosiect sylweddol aml-flwyddyn wedi’i ariannu gan y Comisiwn Ewropeaidd. Gwelwyd fod trefniadau rheoli’r prosiect yn briodol, eto yn unol â gofynion caeth y corff cyllido, a bod arian grant wedi ei dderbyn yn sgil cynnydd y prosiect.

5.9 O’r sampl ddetholwyd, gwelwyd felly bod trefn Rheoli Prosiectau wedi ei sefydlu o fewn yr Awdurdod, gan gynnwys creu Pecyn Cymorth Rheoli Prosiect a mabwysiadu trefn ffurfiol o gymeradwyo prosiectau er mwyn sicrhau bod y gwaith yn cyd-fynd a blaenoriaethau a gweledigaeth yr Awdurdod. Fodd bynnag, ymddengys bod y rhan fwyaf o brosiectau yn cael ei ariannu yn allanol, a felly gwelwyd bod anghysondebau yn y trefniadau yn deillio o ofynion unigol y cyrff cyllido, ynghyd â natur y ‘prosiect’.

**Camau Gweithredu**

**Ar ôl trafodaethau gyda'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol cytunwyd i weithredu'r camau canlynol i liniaru'r risgiau a amlygwyd:**

- **Ystyried ei wneud yn ofynnol i reolwyr prosiect fynychu hyfforddiant perthnasol, fel PRINCE2**

**Eitem Rhif 8**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau |
| **DYDDIAD** | 15 Gorffennaf 2026 |
| **TEITL** | **Adroddiad Blynyddol Gwirfoddolwyr a Llesiant 2026** |
| **ADRODDIAD GAN** | Swyddog Gwirfoddolwyr a Llesiant |
| **PWRPAS** | Cyflwyno Adroddiad Blynyddol Gwirfoddoli a Llesiant 2026, sy'n rhoi trosolwg o weithgarwch gwirfoddoli a llesiant a ddarparwyd gan yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn.<br>Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y cyfraniad y mae gwirfoddolwyr yn ei wneud i gadwraeth, rheoli ymwelwyr, ac ymgysylltu â'r gymuned ar draws y Rhaglen Genedlaethol Datblygu Gwirfoddolwyr. Mae hefyd yn myfyrio ar yr hyn a ddysgwyd o'r flwyddyn gyflawn olaf o gyflawni o dan y Strategaeth ar gyfer Datblygu Gwirfoddolwyr (2021-2026), a fydd yn llywio'r adolygiad sydd ar ddod. |

## 1. CEFNDIR / CYFLWYNIAD

Mae gweithgareddau gwirfoddoli a lles yn chwarae rhan bwysig wrth gefnogi pwrpasau'r Awdurdod. Cyfrannodd gwirfoddolwyr 6,501.5 awr o amser i gefnogi cadwraeth, rheoli ymwelwyr ac ymgysylltu cymunedol ledled Eryri yn 2025. Mae ein rhaglenni lles yn cefnogi pobl i gysylltu â natur mewn ffyrdd sy'n fuddiol i'w hiechyd corfforol a meddyliol.

## 2. Y CYNNIG

Bod Aelodau'r Awdurdod yn cymeradwyo cynnwys Adroddiad Blynyddol 2025 a rhoi gwybod am unrhyw nodau ac amcanion newydd ar gyfer adolygu'r Strategaeth ar gyfer Datblygu Gwirfoddolwyr.

## 3. GOBLYGIADAU (Ariannol, Staffio, Gofynion, Manteision/Anfanteision ac ati)

**Ariannol:**

Cyfrannodd gwirfoddolwyr gyfanswm o 6,501.5 awr i'r Awdurdod yn ystod 2025, cyfraniad economaidd amcangyfrifedig o tua £82,600 ar ffurf amser gwirfoddolwyr. Mae gwirfoddoli corfforaethol yn cynhyrchu incwm trwy Bolisi Gwirfoddoli Corfforaethol yr Awdurdod (£500 y sesiwn). Cynigir gweithgareddau lles am £5 y cyfranogwr, gan gynhyrchu incwm cymedrol sy'n helpu i gyfrannu at gostau cyflwyno, gan gynnwys ffioedd ar gyfer darparwyr allanol fel ymarferwyr Ysgol Goedwig.

**Staffio:**

Cefnogir y gwaith o gyflawni'r gweithgareddau Gwirfoddoli a Llesiant yn bennaf trwy gapasiti staff presennol a phartneriaethau allanol.

**Manteision:**

Mae gweithgaredd gwirfoddoli yn cefnogi gwaith cadwraeth, rheoli ymwelwyr ac ymgysylltu cymunedol tra'n darparu manteision lles i gyfranogwyr a chryfhau partneriaethau.

**Heriau:**

Mae capasiti staff ac argaeledd cronfeydd craidd yn dylanwadu ar y ddarpariaeth, a fydd yn ystyriaethau allweddol wrth ddatblygu darpariaeth gwirfoddoli a lles yn y dyfodol.

## 4. GWYBODAETH BERTHNASOL BELLACH

Themâu allweddol a amlygwyd yn yr adroddiad:

- Galw am gyfleoedd gwirfoddoli cynhwysol
- Pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth
- Y manteision lles sy'n gysylltiedig â gweithgaredd sy'n seiliedig ar natur

Bydd y canfyddiadau hyn yn llywio'r adolygiad arfaethedig o'r Strategaeth ar gyfer Datblygu Gwirfoddolwyr, a'r Strategaeth Llesiant newydd.

## 5. ARGYMHELLIAD

Bod Aelodau'r Awdurdod yn nodi cynnwys yr Adroddiad Blynyddol.

# ADRODDIAD BLYNYDDOL GWIRFODDOLI A LLES 2025



# Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o weithgarwch gwirfoddoli a lles a ddarparwyd gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn ystod 2025. Mae'n rhan o ymrwymiad parhaus yr Awdurdod i gefnogi mynediad cynhwysol i'r Parc Cenedlaethol, diogelu ei Rinweddau Arbennig, a chyfrannu'n gadarnhaol at iechyd a lles cymunedau, ymwelwyr a gwirfoddolwyr.

Mae'r flwyddyn hon yn cynrychioli'r flwyddyn lawn olaf o gyflawni o dan y Strategaeth ar gyfer Datblygu Gwirfoddolwyr 2021–2026. Felly, mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar grynhoi gweithgaredd, effeithiau a dysgu i lywio'r adolygiad sydd ar ddod o'r Strategaeth.

Mae gwirfoddoli a lles yn parhau i fod yn llinynnau gwaith cysylltiedig agos, gan ddarparu manteision amgylcheddol, cymdeithasol ac iechyd tra'n cefnogi pwrpasau a dyletswydd statudol yr Awdurdod.



# Gwirfoddoli ym Mharc Cenedlaethol Eryri

Mae gwirfoddolwyr yn parhau i chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi gwaith yr Awdurdod ar draws meysydd cadwraeth, rheoli ymwelwyr, ymgysylltu a mynediad. Yn ystod y flwyddyn, mae cyfleoedd gwirfoddoli wedi'u darparu trwy gymysgedd o gynlluniau hirsefydledig a phartneriaethau datblygu, gan alluogi pobl ag ystod eang o sgiliau, cefndiroedd ac argaeledd i gyfrannu'n ystyrlon.

## Caru Eryri

Mae Caru Eryri yn parhau i fod yn brif raglen wirfoddoli yr Awdurdod, sy'n canolbwyntio ar reoli pwysau ymwelwyr a gofalu am y Parc Cenedlaethol trwy weithgareddau cadwraeth ymarferol. Mae gwirfoddolwyr wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau casglu sbwriel, cynnal a chadw llwybrau troed, glanhau traethau ac ymgysylltu ag ymwelwyr ar draws Eryri.

Mae adborth gan wirfoddolwyr Caru Eryri yn dangos effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol a lles sylweddol y cynllun. Mae gwirfoddolwyr yn tynnu sylw at y gwahaniaeth gweladwy y mae eu hymdrechion yn ei wneud, yn enwedig mewn perthynas â gwaredu sbwriel a chynnal a chadw llwybrau troed, ac yn mynegi balchder mewn cyfrannu tuag at ddiogelu Eryri. Mae llawer o wirfoddolwyr Caru Eryri yn disgrifio rhai manteision i'w hymdeimlad o les, gan gynnwys gwell iechyd corfforol, gwell cadernid meddyliol, a chyfleoedd i gysylltu â phobl o'r un anian.

Mynegodd un gwirfoddolwr, wrth adlewyrchu ar y profiad rwy gyfrwng ffurflen adborth diwedd y tymor bod gwirfoddoli *"yn un o'r pethau gorau y gallwch chi ei wneud ar gyfer eich iechyd meddwl a chorfforol, tra'n cadw ein hamgylchedd gwych ar gyfer cenedlaethau i ddod."* Rhannodd gwirfoddolwr arall eu bod yn *"teimlo'n dda ar ôl cyfrannu at fy ardal leol a'r amgylchedd,"* a'u bod yn gwerthfawrogi'r ymarfer corff a'r cysylltiad cymdeithasol y mae'r cynllun yn ei ddarparu.

Mae dysgu a datblygiad personol hefyd yn ymddangos yn gryf yn yr adborth. Mae gwirfoddolwyr yn cyfeirio at y cyfleoedd i ennill sgiliau newydd, dysgu am dirwedd, bywyd gwyllt a threftadaeth Eryri, a magu hyder. Myfyriodd un gwirfoddolwr ar sut agorodd cyfranogiad gyfleoedd annisgwyl, gan rannu bod eu profiad trwy Caru Eryri wedi eu harwain i wneud cais i fod yn Warden Gwirfoddol, gan ddisgrifio'r daith "gan ddechrau o Caru Eryri... Rwy'n wirioneddol ddiolchgar i bawb sydd wedi gwneud fy mywyd yn well."

Mae natur gynhwysol a chroesawgar y cynllun yn cael ei amlygu dro ar ôl tro, gyda gwirfoddolwyr yn gwerthfawrogi arweinyddiaeth gefnogol ac amrywiaeth y cyfranogwyr. Disgrifiodd un gwirfoddolwr Caru Eryri fel "tîm gwych o wirfoddolwyr sy'n barod i helpu'r amgylchedd, ei gilydd, a'r cyhoedd yn gyffredinol," tra bod un arall yn pwysleisio'r hapusrwydd o gwrdd â phobl â gwahanol alluoedd a chefndiroedd.

Ar y cyfan, mae adborth Caru Eryri yn tanlinellu llwyddiant y cynllun tra'n cyflawni canlyniadau cadwraeth ymarferol ochr yn ochr â chysylltiad cymdeithasol pwerus, datblygu sgiliau a buddion lles.

Yn ystod 2025, parhaodd y cynllun i esblygu, gyda:

- Shifftiau penwythnos rheolaidd
- Targedu'r llwybrau mwyaf poblogaidd yn Eryri, yn enwedig Llwybr Llanberis, Llwybr Watkin ac Ogwen.
- Mwy o bwyslais ar ddatblygiad gwirfoddolwyr, gyda gwirfoddolwyr profiadol yn arwain y mwyafrif o shifftiau
- Ymgysylltu'n rheolaidd â grwpiau cymunedol, (e.e. Pobl i Bobl) yn helpu pobl i ddatblygu ymdeimlad o berthyn a chysylltiad â lle



## Data Allweddol

Cymerodd **76** o wirfoddolwyr ran yn y prosiect

Cafodd **3825m** o lwybrau eu cynnal

Casglwyd **172** bag o sbwriel (cyfanswm o 485.23kg)

**71.69kg** wedi'i ailgylchu

Cyfranwyd **802.50** o oriau gwirfoddoli

Hyfforddwyd **11** o arweinwyr gwirfoddol

Cyflawnwyd **39** shifft dan arweiniad annibynnol gan arweinwyr gwirfoddol

Casglwyd **413.54kg** o sbwriel

## Wardeiniaid Gwirfoddol

Mae Wardeiniaid Gwirfoddol yn parhau i fod yn rhan annatod o reoli ymwelwyr yn Eryri, yn enwedig yn ystod cyfnodau brig. Gan weithio ochr yn ochr â Wardeniaid Ardal, mae gwirfoddolwyr yn darparu gwybodaeth a chyngor i ymwelwyr, yn hyrwyddo ymddygiad cyfrifol, ac yn helpu i gynnal presenoldeb gweladwy a chroesawgar ar lwybrau poblogaidd ar Yr Wyddfa, Cader Idris ac Ogwen.


Mae Wardeiniaid Gwirfoddol yn cyfrannu amser sylweddol a gwybodaeth leol, gan gefnogi mynediad mwy diogel i'r Parc Cenedlaethol a helpu i ddiogelu ei rinweddau arbennig. Mae adborth Warden Gwirfoddol yn parhau i fod yn hynod gadarnhaol, gan dynnu sylw at werth y rôl a'r manteision personol y mae gwirfoddolwyr yn eu cael o'u cyfranogiad. Mae gwirfoddolwyr yn adrodd yn gyson eu bod yn teimlo'n cael eu cefnogi'n dda, wedi'u hyfforddi'n ddigonol, ac yn falch o chwarae rhan weithredol wrth ddiogelu Eryri yn ystod cyfnodau prysur.

Myfyriodd un Warden Gwirfoddol fod y rôl "yn rhoi ymdeimlad o gyfrifoldeb a gofal i mi ac yn fy helpu i deimlo ymdeimlad o le – cynefin – ac rwy'n hoffi rhannu hyn." Tynnodd un arall sylw at ddeinameg y tîm, gan ddisgrifio'r cynllun fel "cynllun da gyda thîm gwych" a nodi sut mae cyfleoedd hyblyg ar draws gwahanol lwybrau yn ei gwneud hi'n hawdd i gymryd rhan. Gwnaeth sawl gwirfoddolwr sylwadau ar werth shifftiau amrywiol, gyda phatrolau hwyr ac estynedig yn cael eu derbyn yn arbennig o dda. Mae adborth hefyd yn awgrymu diddordeb mewn ehangu cyfleoedd ymhellach, gan gynnwys mwy o wirfoddoli canol wythnos lle bo'n bosibl.

Yn gyffredinol, mae adborth y Wardeniaid Gwirfoddol yn atgyfnerthu pwysigrwydd y cynllun nid yn unig wrth gefnogi rheoli ymwelwyr a diogelwch, ond hefyd wrth ddarparu buddion lles a chymdeithasol ystyrlon i'r rhai sy'n gwirfoddoli.

| Categori | Categori | Oriau | Gwirfoddolwyr |
|---|---|---|---|
| Wardeiniaid Gwirfoddol Yr Wyddfa | Diwrnod croesawu | 92 | 23 |
| | Goruchwyliwr patrôl estynedig | 900 | 1 |
| | Llwybr Cwellyn | 679 | 26 |
| | Llwybr Llanberis | 910 | 26 |
| | Llwybr Llanberis - Patrôl estynedig | 132 | 10 |
| | Trac y Mwynwyr a PyG | 1132 | 25 |
| | Trac y Mwynwyr a PyG - Patrolau Estynedig | 140 | 10 |
| | Llwybr Rhyd Ddu | 820 | 22 |
| | Llwybr Watkin | 260 | 14 |
| | Fan wybodaeth | 247 | 6 |
| | Cwm Idwal | 119 | 9 |
| | **Cyfanswm** | **5431.5** | |
| Wardeiniaid Gwirfoddol De Eryri | Diwrnod Croesawu | 15 | 5 |
| | Taith Gerdded Llwybr Cynwch | 3 | 1 |
| | Llwybr Mawddach | 72 | 6 |
| | Llwybr Minffordd | 41.50 | 1 |
| | Llwybr Tŷ Nant | 78 | 4 |
| | Llyn Tegid | 8 | 2 |
| | **Cyfanswm** | **217.50** | |

## Data Allweddol



**Cyfanswm y sbwriel a gasglwyd:**

**1,157 kg**



**Cyfanswm bagiau a gasglwyd:**

**836 bag**



### Yr Wyddfa

**5312.50** o oriau gwirfoddoli

**44** o wirfoddolwyr



### Ogwen

**119** o oriau gwirfoddoli

**9** o wirfoddolwyr



### De Eryri

**217.50** o oriau gwirfoddoli

**11** o wirfoddolwyr

## **Ail-lansio Cynllun Ceidwaid Ifanc Eryri -** Cyfle i bobl ifanc warchod a gofalu am dirweddau Eryri

Fe ail lansiwyd cynllun Ceidwaid Ifanc yn ystod haf 2025, ac ers hynny, mae'r cynllun wedi tyfu'n o nerth i nerth gyda 45 o bobl ifanc wedi cofrestru a dros 50 awr o waith gwirfoddol wedi'i gwblhau ar brosiectau cadwraethol ac awyr agored ar draws Eryri.

**Mae'r gweithgareddau'n cynnwys:**

- Gwaith o dynnu rhywogaethau ymledol megis Jac y Neidr
- Plannu coed brodorol a mesur dyfnder mawndir
- Profiadau Dringo a canŵio a archwilio mwynglawdd llechi
- Taith gerdded gyda'r nos i brofi rhyfeddodau Coedwigoedd Glaw Celtiaid.

Ein nod yw cynnig cyfleoedd cadwraethol ymarferol a phrofiadau awyr agored i bobl ifanc, gan eu galluogi i chwarae rhan bwysig i ofalu a mwynhau amgylchedd naturiol Eryri.


Dros y flwyddyn nesaf, bydd y cynllun yn cynnig gweithgareddau cadwraethol a sesiynau awyr agored wedi'u cynllunio ar gyfer pobl ifanc sy'n byw yn Eryri a'r ardaloedd cyfagos. Bydd y gweithgareddau'n cynnwys cynnal a chadw llwybrau, archwilio'r dirwedd fynyddig, adnabod rhywogaethau prin, a dysgu am reoli a gwarchod cynefinoedd naturiol.

Mae'r rhaglen wedi'i gyd-gynhyrchu gyda Arweinyddion Ifanc ac mae'n cynnig manteision addysgol a phersonol sylweddol. Gellir defnyddio'r oriau gwirfoddoli fel rhan o'r Bagloriaeth Cymru, Gwobr Dug Caeredin, CV, neu gymwysterau tebyg. Ar ôl cwblhau 10 awr o wirfoddoli, gellir defnyddio'r oriau hyn fel credydau tuag at gyrsiau penodol ym maes awyr agored neu gadwraeth.









## Gwirfoddoli Corfforaethol

Mae gwirfoddoli corfforaethol yn parhau i fod yn faes twf a chyfleoedd. Yn ystod y flwyddyn, mae'r Awdurdod wedi cyflwyno nifer o ddiwrnodau gwirfoddoli corfforaethol llwyddiannus, gan gefnogi gwaith cadwraeth tra'n cryfhau perthynas â sefydliadau partner.

Mae partneriaeth nodedig wedi'i datblygu gyda Hochtief (Prosiect Grid Cenedlaethol Aber Afon Dwyryd), lle gwirfoddolodd staff eu hamser i gefnogi gwaith cadwraeth ymarferol yn Ardal Ddeheuol y Parc Cenedlaethol. Mae'r bartneriaeth hon yn dangos gwerth gwirfoddoli corfforaethol wedi'i strwythuro'n dda wrth gyflawni buddion amgylcheddol diriaethol, cefnogi amcanion cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol, a chynhyrchu incwm i helpu i gynnal gweithgarwch gwirfoddoli.

Gwirfoddolwyr yn rhoi help llaw ym Mharc Cenedlaethol Eryri | Grid Cenedlaethol



## Cynllun Talu'n Ôl i'r Gymuned

Mae'r bartneriaeth gyda'r Cynllun Talu'n Ôl i'r Gymuned yn parhau i ddatblygu'n gadarnhaol. Mae'r cynllun yn cynnwys unigolion yn cwblhau gwaith di-dâl fel rhan o orchymyn llys, gyda chyfleuoedd wedi'u cynllunio i ddarparu gweithgaredd adeiladol sy'n fuddiol i'r gymuned.

Drwy'r bartneriaeth hon, mae cyfranogwyr wedi cefnogi gwaith cynnal a chadw ac chadwraethol ar draws y Parc Cenedlaethol, gan ddarparu cymorth rheolaidd a dibynadwy wrth ddatblygu sgiliau, profiad a hyder, a chyfrannu'n gadarnhaol at eu hamgylchedd lleol.

Yn ystod 2025, cyflwynwyd gweithgareddau'r Cynllun Talu'n Ôl i'r Gymuned mewn sawl lleoliad o fewn Eryri. Cwblhawyd cyfanswm o chwe diwrnod gwaith mewn partneriaeth â'r cynllun, gan gynnwys:

- **Llyn Tegid – 1 diwrnod gwaith gyda 1 cyfranogwr yn bresennol**
- **Afon Mawddach – 1 diwrnod gwaith gyda 2 gyfranogwr yn bresennol**
- **Ysgwrn – 4 diwrnod gwaith gyda rhwng 1 a 5 cyfranogwr ym mhob sesiwn**

Roedd diwrnodau gwaith fel arfer yn para tua phum awr, gan ddarparu cyfraniadau ystyrlon at dasgau cynnal a chadw a chadwraeth ar y safleoedd.

Mae'r bartneriaeth hon yn cynnig buddion clir i'r ddwy ochr: cefnogi anghenion gweithredol yr Awdurdod tra'n rhoi cyfleoedd i gyfranogwyr gwblhau eu horiau talu'n ôl mewn lleoliad awyr agored strwythuredig a chefnogol. Mae llwyddiant y cynllun yn lleol yn adlewyrchu diddordeb cynyddol yn y model hwn ledled Cymru fel ffordd o sicrhau budd amgylcheddol ochr yn ochr â chanlyniadau adsefydlu cadarnhaol.

## Gweithgaredd Lles

Mae gweithgarwch lles yn Eryri yn parhau i ganolbwyntio ar alluogi pobl i gysylltu â natur mewn ffyrdd sy'n cefnogi iechyd corfforol a meddyliol, lleihau ynysu a chynyddu hyder mewn mannau awyr agored. Mae gweithgaredd wedi'i gynllunio i fod yn gynhwysol, croesawgar a hygyrch, ac mae'n cyd-fynd fwyfwy ag agendâu rhagnodi iechyd a chymdeithasol ehangach.

Mae Swyddog Gwirfoddoli a Llesiant yr Awdurdod wedi sicrhau bod y ddarpariaeth wedi'i chryfhau drwy gwblhau datblygiad proffesiynol, gan gynnwys y cymhwyster Ymarferydd Llesiant mewn Natur Lefel 3 drwy Agored Cymru. Un o'r carfanau cyntaf i gwblhau'r cwrs, mae'r cymhwyster hwn wedi'i seilio ar ddulliau Ysgol Goedwig wedi'u haddasu ar gyfer ystod oedran ehangach ac wedi'i ategu gan dystiolaeth wyddonol sy'n cysylltu canlyniadau iechyd meddwl gwell â chysylltiad â natur. Mae'r hyfforddiant hwn yn cefnogi ansawdd, diogelwch ac effaith y ddarpariaeth lles a ddarperir gan yr Awdurdod.





## Partneriaeth gyda Lle Chi Lle Ni

Mae Lle Chi Lle Ni yn fenter sy'n seiliedig ar leoedd a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n canolbwyntio ar gefnogi lles, cysylltiad a gwytnwch cymunedol drwy brosiectau lleol sydd wedi'u gwreiddio mewn diwylliant, tirwedd a threftadaeth. Mae'r prosiect yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau ledled Cymru i ariannu a chefnogi gweithgareddau sy'n helpu pobl i gysylltu'n ddyfnach â lle ac â'i gilydd.

Mae'r adborth a gasglwyd gan gyfranogwyr sy'n mynychu sesiynau lles a gyflwynwyd mewn partneriaeth â phrosiect Lle Chi Lle Ni yn dangos effaith gadarnhaol gyson ar les a chysylltiad natur. Adroddodd yr holl gyfranogwyr brofiad cadarnhaol, gan ddisgrifio ymdeimlad o dawelwch a'u bod wedi ymlacio yn ystod y sesiwn. Dywedodd y cyfranogwyr hefyd yn unfrydol fod y sesiwn wedi eu helpu i deimlo'n fwy cysylltiedig â natur a'u bod wedi sylwi ar welliant yn eu lles, gan adrodd eu bod yn teimlo'n well ar ddiwedd y sesiwn na phan gyrhaeddon nhw.

Mae adborth yn tynnu sylw at bwysigrwydd amgylchedd croesawgar a chefnogol, gydag un cyfranogwr yn nodi: *"Roeddwn i'n nerfus yn dod - ond roedd Etta mor groesawgar ac yn gosod y naws ar gyfer grŵp hyfryd o bobl."* Myfyriodd eraill ar ansawdd hwyluso a lleoliad, gan ei ddisgrifio fel "gweithdy ardderchog mewn lleoliad hardd" a gwerthfawrogi'r deunyddiau ategol, gydag un cyfranogwr yn dweud bod "y cynnwys yn dda iawn, roedd y llenyddiaeth i edrych arno yn ddefnyddiol."

Roedd cyfranogwyr yn gwerthfawrogi'n arbennig y cyfle i arafu, sylwi ar eu hamgylchedd ac ymgysylltu'n greadigol â natur. Roedd sylwadau yn cynnwys mwynhau *"y gwahoddiad i gysylltu â natur a gwneud celf"* a *"treulio amser yn sylwi ar fanylion, harddwch, a rhannu gydag eraill."* Mae'r ymatebion hyn yn atgyfnerthu rôl gweithgarwch ysgafn, sy'n seiliedig ar natur tra'n cefnogi lles meddyliol, hyder a chysylltiad cymdeithasol.

# Teithiau Cerdded Tywys Ymwybyddiaeth Ofalgar

Mae teithiau cerdded tywys ymwybodol wedi parhau trwy gydol y flwyddyn, gan gynnig cyfleoedd i gyfranogwyr arafu ac ymgysylltu'n fwy ymwybodol â'r amgylchedd naturiol. Mae adborth a gasglwyd gan gyfranogwyr yn tynnu sylw at werth cymryd amser allan, bod yn bresennol ym myd natur a rhannu'r profiad gydag eraill mewn lleoliad grŵp cefnogol.

Yn ystod 2025, cyflwynwyd y teithiau cerdded ar ddydd Sadwrn cyntaf pob mis, bob yn ail rhwng Gogledd a De Eryri ar draws ardaloedd tawelach y Parc Cenedlaethol, megis Cwm Pennant, Ceunant Cynfal a Choed Dolfriog. Dewiswyd y lleoliadau hyn yn fwriadol i ddarparu lleoliadau heddychlon. Mae adborth hefyd yn dangos bod cyfranogwyr yn gwerthfawrogi cael eu tywys trwy rannau tawelach o'r Parc Cenedlaethol, a oedd yn cefnogi ymdeimlad o hwylustod, ac yn annog myfyrio.

Roedd presenoldeb rheolaidd a chyfranogiad ailadroddus yn amlwg, gydag adborth yn awgrymu bod rhai unigolion wedi ymgorffori'r teithiau cerdded yn eu trefn lles personol. Fe wnaeth y cyfranogwyr hefyd wneud sylwadau cadarnhaol ar gyflymder a strwythur y teithiau cerdded, gan eu disgrifio fel hygyrch a chroesawgar, ac yn gwerthfawrogi gosodiad cefnogol.





# Ysgol Goedwig

Mae sesiynau Ysgol Goedwig wedi profi'n boblogaidd unwaith eto, yn enwedig gyda theuluoedd a phlant yn ystod cyfnodau gwyliau'r ysgol. Mae'r sesiynau hyn yn cefnogi cysylltiad cynnar â natur trwy chwarae, archwilio a dysgu, gan helpu i fagu hyder, chwilfrydedd ac ymwybyddiaeth amgylcheddol o oedran ifanc. Eleni ariannwyd y sesiynau gan y Bartneriaeth Awyr Agored, a mynychodd 60 o blant.



# Ioga Awyr Agored

Mae sesiynau ioga awyr agored wedi parhau i ddenu nifer dda, gan gynnig ffordd wahanol i gyfranogwyr brofi'r Parc Cenedlaethol tra'n cefnogi lles corfforol a meddyliol. Mae adborth yn adlewyrchu gwerth cyfuno symudiad ysgafn ag amgylchedd naturiol, gan gyfrannu at deimladau o ymlacio ac adfywio.

Ar draws yr holl weithgareddau lles a gyflwynwyd yn ystod 2025, cymerodd cyfanswm o 166 o gyfranogwyr ran. Cyfanswm yr incwm a gynhyrchwyd o weithgareddau lles yn ystod y flwyddyn oedd £830.

## Llogi Tramper

Mae'r gwasanaeth llogi Tramper yn parhau i fod yn elfen bwysig o ymrwymiad yr Awdurdod i fynediad cynhwysol. Yn ystod 2025, cofnododd y gwasanaeth 63 o logi, gan adlewyrchu'r galw parhaus a gwerth y gwasanaeth i ddefnyddwyr.

Mae adborth llogi Tramper 2025 yn paentio darlun clir o wasanaeth hynod werthfawr, emosiynol ystyrlon, ac fe'i gwerthfawrogir yn eang. Mae'r rhaglen yn parhau i ddarparu mynediad sy'n gwella bywyd i Eryri i bobl ag anghenion symudedd, gyda chefnogaeth staff rhagorol sy'n mynd y tu hwnt i'r hyn y tu hwnt yn gyson. Er y gallai gwelliannau archebu ac eglurder llwybr wella'r profiad ymhellach, mae boddhad cyffredinol yn parhau i fod yn eithriadol o uchel gyda nifer o ddefnyddwyr ailadroddus a thystebau calonogol.

**Dyfyniadau:**

*"Rwyf am ddweud eto pa mor ddiolchgar ydw i am yr hygyrchedd hwn."*

*"Yr unig ffordd y gall fy mam ymweld â Llyn Llydaw lle mae lludw fy mrawd wedi'i wasgaru."*

*"Dydw i ddim wedi gallu cael diwrnod llawn allan yng nghefn gwlad ers cyhyd... roedd yn fythgofiadwy."*

*"Mae gan y tramper ei hun allu anhygoel; Cefais fy synnu ar yr ochr orau."*

*"Gwasanaeth o'r radd flaenaf – eithriadol ac mae'n cael ei werthfawrogi'n fawr."*

*"Wrth fy modd yn gallu profi pethau fel hyn fel person anabl."*



# Dysgu ac Edrych Ymlaen

Wrth i'r **Strategaeth ar gyfer Datblygu Gwirfoddolwyr** agosáu at ddiwedd ei chylch cyfredol (2021–2026), mae nifer o themâu allweddol wedi dod i'r amlwg yn ystod y flwyddyn ddiwethaf:

- Mae galw parhaus am gyfleoedd cynhwysol ac amrywiol sy'n galluogi pobl i gysylltu â natur mewn ffyrdd sy'n cefnogi canlyniadau amgylcheddol a lles personol. Mae adborth gan wirfoddolwyr a chyfranogwyr wedi tynnu sylw'n gyson at werth cymdeithasol gweithgareddau sy'n caniatáu i bobl o ystod eang o gefndiroedd gymryd rhan mewn gofalu am yr amgylchedd lleol.
- Atgyfnerthodd y dystiolaeth yn yr adroddiad hwn bwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth i ymestyn cyrhaeddiad ac effaith darpariaeth gwirfoddoli a lles. Mae cydweithio â grwpiau cymunedol, partneriaid corfforaethol ac allanol wedi galluogi'r Awdurdod i gyflawni gweithgareddau na fyddent, efallai, wedi bod yn bosibl fel arall, gan gryfhau perthnasau â sefydliadau sy'n rhannu amcanion tebyg.
- Ar yr un pryd, mae cyflawni'r rhaglenni hyn wedi amlygu heriau parhaus o ran capasiti staff, cyllid a chynaliadwyedd hirdymor. Wrth i'r diddordeb mewn gweithgareddau gwirfoddoli a lles barhau i dyfu, bydd cynnal cydbwysedd rhwng ehangu cyfleoedd a sicrhau cyflawniad o ansawdd uchel, gyda chefnogaeth briodol, yn parhau'n ystyriaeth bwysig i'r Awdurdod.

Wrth i gyfnod presennol y strategaeth ddod i ben, bydd adolygiad o'r S**trategaeth ar gyfer Datblygu Gwirfoddolwyr** yn cael ei gynnal yn ystod 2026. Bydd y broses hon yn rhoi cyfle i fyfyrio ar y gwaith a gyflawnwyd hyd yma, casglu mewnbwn gan wirfoddolwyr, partneriaid a staff APCE, a nodi blaenoriaethau ar gyfer y cam nesaf o ddatblygu gwirfoddoli o fewn y Parc Cenedlaethol.




# Casgliad

Mae gweithgareddau gwirfoddoli a lles yn ystod 2025 wedi parhau i wneud cyfraniad ystyrlon i ofal Parc Cenedlaethol Eryri ac i les y rhai sy'n ymgysylltu ag ef.

Ar draws ein holl raglenni, o gadwraeth ymarferol ac ymgysylltu ag ymwelwyr i weithgareddau lles a mentrau mynediad cynhwysol, mae gwirfoddolwyr a chyfranogwyr wedi cefnogi gwaith yr Awdurdod gan elwa o fuddion personol, cymdeithasol ac iechyd ar yr un pryd.

Wrth i'r adroddiad hwn ddod â chyfnod presennol y strategaeth i ben, mae'n darparu cyfle gwerthfawr i fyfyrio ar y cynnydd a wnaed a'r hyn a ddysgwyd. Bydd hwn yn llywio datblygiad cam nesaf y ddarpariaeth gwirfoddoli a lles y byddwn yn ei hwyluso, gan sicrhau bod y rhaglenni hyn yn parhau i gefnogi dibenion yr Awdurdod tra'n cryfhau cysylltiadau rhwng pobl, lle a natur yn Eryri.

**Eitem Rhif 9**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau |
| **DYDDIAD** | 15 Gorffennaf 2026 |
| **TEITL** | **Rhaglen Waith Gorfforaethol 2025-26** |
| **ADRODDIAD GAN** | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol |
| **PWRPAS** | Adrodd ar gynnydd y chwarter olaf, Ionawr – Mawrth 2026 |

## 1. CEFNDIR

1.1 Ynghlwm adroddiad ar y Rhaglen Waith Gorfforaethol sy'n cynnwys manylion y cynnydd a wnaed yn y chwarter olaf a gydol 2025-26 i gyflawni'r wahanol brosiectau a'r mentrau y cytunwyd arnynt ar gyfer cyflawni Amcanion Gwelliant yr Awdurdod.

## 2. DIWEDDARIADAU:

2.1 Mae diweddariad byr yn erbyn pob amcan llesiant yn Atodiad 1. Mae cynnydd ar y nifer fechan wedi llithro ac wedi eu nodi fel rhai coch ac fe'u tynnir at sylw'r Aelodau:

**AC1.5 a AC 1.6: Cynhyrchu Strategaeth Ymgysylltu ar gyfer gwaith llwybrau yn Eryri:**
Yn anffodus mae'r amserlen wedi gorfod ei ymestyn ac er bod gwaith sylweddol eisoes wedi ei gyflawni mae angen gwaith pellach cyn bydd Strategaeth drafft lawn yn cael ei gyflwyno i'r Tîm Arweinyddiaeth yn yr Hydref. Bydd cyflwyniad i'r Aelodau yn dilyn yn ystod Gweithgor Rhagfyr, cyfnod o ymgynghori cyn cyflwyno Strategaeth derfynol i'r Awdurdod, Ebrill 2027.

**AC1.10: Adolygu, mabwysiadu a gweithredu Strategaeth Gyfathrebu'r Awdurdod fydd yn weithredol ar gyfer 2026-2030:**
Bydd y Strategaeth Gyfathrebu yn cael ei chyflwyno i'r Aelodau yn ystod cyfarfod Awdurdod mis Medi, 2026.

**AC2.2: Adolygiad o Bortffolio Asedau'r Awdurdod:**
Er bod llithriant yn y gwaith, mae'r Polisi Rheoli Asedau, Strategaeth a Chynllun ar gyfer 2026-31 wedi ei gyflwyno a'i fabwysiadu gan yr Aelodau yn ystod cyfarfod mis Mehefin o'r Awdurdod.

**CW 1.4 Datblygu a mabwysiadu Strategaeth Systemau Gwybodaeth:**
Er na chwblhawyd y gwaith o fewn y flwyddyn, 2025-26, mae'r Strategaeth bellach wedi ei chyflwyno a'i mabwysiadu yn ystod cyfarfod Awdurdod mis Mehefin.

**CW 1.5 Llawlyfr Cyfathrebu ar gyfer staff APCE:**
Bydd y Llawlyfr Cyfathrebu yn cael ei gyflwyno fel rhan o becyn y Strategaeth Gyfathrebu. Anelir i gyflwyno'r pecyn llawn i'r Aelodau yn ystod cyfarfod Awdurdod mis Medi, 2026.

**3. ARGYMHELLIAD:**

Trafod a nodi'r cynnydd ar y Rhaglen Waith Gorfforaethol, Atodiad 1.

**4. PAPURAU CEFNDIROL:**

Atodiad 1. Rhaglen Waith Gorfforaethol 2025-26.

# AMCANION LLESIANT 2025-26 : RHAGLEN WAITH GORFFORAETHOL

**Yr Amcanion Llesiant, Prosiectau a Mentrau Cyfatebol a Chanlyniadau Llwyddiant**

**Diweddariad Pedwar : Ionawr – Mawrth 2026**

**Mae'r Amcanion Llesiant wedi'u croesgyfeirio â thargedau a osodwyd ar gyfer APCE yn Llythyr Cylch Gwaith cyfredol Llywodraeth Cymru - wedi'u dynodi**

## 1. AMGYLCHEDDAU CYDNERTH

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | AC 1 | GWELLA RHEOLAETH HAMDDEN AC UNRHYW EFFEITHIAU NEGYDDOL HAMDDEN |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 1.1** | (gwyrdd) | **Gweithredu Ymgyrch Cyfathrebu Economi Ymweld Gynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2025** | Parhaus | Cyf. Gwas. Corff. Pen. Cyfathrebu |
| | Ch. 1-2<br>Ch. 3 | Yr Awdurdod wedi arwain ar ymgyrch tymor ymwelwyr lwyddiannus gyda chymorth gan swyddogion tim Eryri Mynyddoedd a Mor, Cyngor Gwynedd. Trefniadau mewn lle i gomisiynu fideos a lluniau allanol ar gyfer y gaeaf. Gwaith ar y cyd wedi cymryd lle gyda ffocws pendant ar ymweliadau diogel ar y mynyddoedd ac arfordir yn ogystal a hybu'r economi leol yn ystod cyfnodau tawel o'r flwyddyn. | | |
| | **Ch. 4** | **Mae gwaith wedi parhau gyda thim Eryri Mynyddoedd a Môr i hyrwyddo diogelwch yn yr awyr agored yn ystod tymor y gaeaf tra hefyd yn hyrwyddo cyfrannu at ymweld â'n trefi a'n pentrefi. Mae'r paratoadau ar gyfer y prif dymor ymwelwyr wedi dechrau ac mae prif adrannau cyfathrebu Cyngor Gwynedd a Chyngor Conwy wedi cytuno i gymryd rhan mewn cyfarfodydd rheolaidd ar gyfer Haf 2026 i gydweithio'n effeithlon a chryfhau ein negeseuon ar gyfer y rhanbarth.** | | |

(gwyrdd) Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen. Gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2025/26

(melyn) Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

(coch) Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| AC 1.2 | Ch. 1-2 | **Gwell darpariaeth ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd yn Pen y Pass trwy uwchraddio'r cyfleusterau a dehongli i ymwelwyr:**<br>➢ Cwblhau a gosod gwelliannau i gyfleusterau dehongli Pen y Pass<br>**Dyluniad wedi ei gynllunio a'i osod ar y safle.** | Ebrill 2025 | Cyf. Gwas. Corff.<br>Pen. Cyfathrebu Pen. Gwas. Wardeinio a Mynediad (WaM)<br>Swyddog Cyfathrebu |
| AC 1.3 | Ch. 1-2 | **Monitro nifer yr ymwelwyr trwy gyfrifwyr pobl i sefydlu effaith defnyddwyr ar draws y Parc Cenedlaethol. Cynhyrchu adroddiad yn seiliedig ar ddata 2024**<br>**Adroddiad wedi ei chyhoeddi ac ar gael ar safle We'r Awdurdod** | Parhaus. Adroddiad nesaf erbyn Meh./Gorff. 2025 | Cyf. PaP<br>Pen. Partneriaethau |
| AC 1.4 | Ch. 1-2<br><br>**Ch. 3 - 4** | **Nodi a meintioli gwaith mynediad i liniaru effeithiau pwysau pobl ac adolygu'n flynyddol**<br>Uwchwardeiniaid yn y broses o flaenoriaethu gwaith mynediad ar draws Eryri<br>**Trefnir cyfarfodydd rheolaidd i flaenoriaethau gwaith a phrosiectau mynediad canolig i mawr ar draws y Parc. Yn bresennol fydd Pennaeth Gwasanaeth Wardeinio, Rheolwr Mynediad a Llesiant, Uwch Wardeiniaid a Swyddog Prosiectau Mynediad. Yn ogystal mae prosiectau a gwaith llai yn cael eu harwain yn lleol gan Wardeiniaid Ardal yn eu Cynlluniau Ardal** | Parhaus | Cyf. Rheoli Tir<br>Pen. Gwas. WaM |
| AC 1.5 | Ch. 1-2<br>**Ch. 3 - 4** | **Cynhyrchu Strategaeth Ymgysylltu ar gyfer gwaith llwybrau yn Eryri**<br>Gwaith wedi'i ohirio i Chwarter 4.<br>**Mae gwaith sylweddol eisoes wedi'i wneud ond nid i Strategaeth lawn. Rhagwelir y bydd Strategaeth Llwybrau Troed drafft yn cael ei chfylwyno i'r Tim Arweinyddiaeth yn yr Hydref ac i't Grŵp Gwaith aelodau ym mis Rhagfyr. Cynhelir cyfnod ymgynghori cyn ei gyflwyno'n derbynol i'r Aelodau ym mis Ebrill 2027.** | Hydref 2025 | Cyf. Rheoli Tir<br>Pen. Gwas. WaM |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen. Gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2025/26

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 1.6** | **Ch. 1- 2** | **Cynhyrchu canllawiau ar gyfer cyflawni gwaith mynediad yn Eryri**<br><br>**Bydd y gwaith yma'n cael ei gynllunio fel rhan o'r Strategaeth yn 1.5 uchod.** | Hydref. 2025 | Cyf. Rheoli Tir<br>Pen. Gwas.<br>WaM |
| **AC 1.7** | Ch. 1 – 2<br>Ch. 3<br>Ch. 4 | **Sicrhau fod llwybrau a hyrwyddir yn cael eu harolygu, eu cynnal a'u gwella'n rheolaidd pan fo angen a darparu adroddiad blynyddol i'r Tim Rheoli ar hyn**<br>Mae'r gwaith hwn yn digwydd yn rheolaidd drwy raglenni gwaith y Wardeiniaid Ardal a'r Swyddog Cefnogi Wardeiniaid. Bydd y gwasanaeth yn cyflwyno eitem i'r Tim Arweinyddiaeth yn Chwarter 4.<br>**-**<br>**Mae llwybrau a hyrwyddir yn cael eu hystyried o fewn y Strategaeth Llwybrau Troed ac mae'r gwaith yn parhau. Cyflwynir adroddiadau i'r Tîm Aweinyddiaeth ac Aelodau yn ddiweddarach yn 2026.** | Parhaus<br>Rhagfyr<br>2025 | Cyf. Rheoli Tir<br>Pen. Gwas.<br>WaM |
| **AC 1.8** | **Ch. 1 - 4** | **Wardeiniaid Ardal i weithio gyda'r Cymunedau a phartneriaid i nodi a manteisio ar gyfleoedd i ddarparu ystod o lwybrau a hyrwyddir ar gyfer galluoedd amrywiol**<br><br>**Gwaith yma'n parhau ac yn cael ei gynllunio yng nghynlluniau ardal Wardeniaid** | Parhaus | Cyf. Rheoli Tir<br>Pen. WaM |
| **AC 1.9** | **Ch. 1- 4** | **Gweithio ar draws yr Awdurdod i integreiddio rhaglenni gwaith a datblygu Cynlluniau Ardal Wardeiniaid**<br><br>**Mae pob warden gyda cynllun ardal sy'n cael ei arolygu gyda'r Uwch Wardeniaid yn rheolaidd. Mae'r Wardeniaid yn cael eu hannog i gydweithio gydag adrannau eraill ar brosiectau. Mae'r gwaith hyn yn barhaus.** | Parhaus | Cyf. Rheoli Tir<br>Pen. WaM |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen. Gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2025/26

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 1.10** | | **Adolygu, mabwysiadu a gweithredu Strategaeth Gyfathrebu'r Awdurdod fydd yn weithredol ar gyfer 2026-2030** | Rhagfyr 2025 | Cyf. Gwas. Corff. Pen. Cyfathrebu |
| | Ch. 1 – 2 | Dim cynnydd hyd yn hyn, disgwylir i'r gwaith gychwyn yn Chwarter 4. | | |
| | Ch. 3 | Amserlen wedi ei bennu ar gyfer cyflawni, gwaith i gychwyn yn Chwarter 4 er mwyn cyflawni erbyn Mehefin 2026. | | |
| | **Ch. 4** | **Mae'r gwaith wedi mynd rhagddo a bydd Strategaeth ddrafft yn cael ei chyflwyno i'r Tîm Arweinyddiaeth ddiwedd yr haf, a bydd Strategaeth derfynol yn cael ei chyflwyno i'r Awdurdod yn ystod cyfarfod mis Medi.** | | |

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | AC 2 | YMATEB I HERIAU NEWID YN YR HINSAWDD |
|---|---|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **AC 2.1** | | **Sicrhau gweithrediad y polisïau CDLI cyfredol sy'n cyfrannu at liniaru newid yn yr hinsawdd. Sicrhau bod newyd yn yr hinsawdd yn cael ystyriaeth lawn wrth fynd ati i ddiwygio CDLI Eryri** | **Adroddiad blynyddol** | Cyf. Rheoli Tir *Pen. RhDaCh Pen. Polisi Cynllunio |
| Adroddiad Blynyddol | | **Roedd lliniaru newid yn yr hinsawdd yn ystyriaeth wrth baratoi llawer o'r CDLI presennol, gan gynnwys strategaeth aneddiadau (lle mae tai'n cael eu datblygu), lliniaru llifogydd, a chynhyrchu ynni drwy adnewyddadwy. Cyflwynir Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) o gynnydd holl bolisiau'r CDLI i'r Aelodau ac yna i Lywodraeth Cymru bob Hydref, ac mae hyn wedi dod i'r casgliad y cydymffurfiwyd yn fras â'r polisiau hyn. Mae'r maes polisi hwn wedi esblygu'n sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf, a bydd hyn yn codi nifer o faterion pwysig yn yr adolygiad o'r CDLI yn 2025.** | | |

* Pennaeth Rheolaeth Datblygu a Chydymffurfiaeth (Pen. RhDaC)

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen. Gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2025/26

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 2.2** | | Effeithlonrwydd ynni a lleihau ôl-troed carbon adeiladau APCE i fod yn rhan annatod o'r Cynllun Rheoli Asedau newydd (i'w fabwysiadu o Rhagfyr 2024) ymochrol gyda Ffyniant i Bawb – Targedau Ystâd Gyhoeddus Carbon Isel<br>➢ Cynnal adolygiad o'r Portffolio Asedau gyda'r Is-Grŵp Asedau gydag argymhellion i'w hystyried gan yr Awdurdod llawn ac unrhyw asedau dros ben i'w hystyried ar gyfer eu gwaredu/trosglwyddo perchnogaeth | Mabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau newydd o Rhagfyr 2024+ ymlaen | Cyf. Gwas. Corff.<br>Pen. Eiddo |
| | Ch. 1- 2 | Is-Grwp Asedau i gwrdd yn ystod Chwarter 3 i drafod y drafft ac adolygu portffolio. Dyddiadau wedi eu cylchu, angen argaeledd llawn y grwp gan bod nifer o aelodau newydd | | |
| | Ch. 3 | Yn anffodus bu angen gohirio cyfarfod o'r Is-Grwp Asedau oherwydd salwch Pennaeth Eiddo. Bydd y cyfarfod yn cael ei ail drefnu cyn gynted. | | |
| | Ch. 4 | **Mae gwaith wedi mynd rhagddo ar Bolisi, Strategaeth a Chynllun Rheoli Asedau, 2026 – 2031, ar gyfer APCE. Rhagwelir y bydd y ddogfen yn barod i'w chyflwyno i'r Aelodau yn ystod cyfarfod yr Awdurdod ym mis Mehefin.** | | |
| **AC 2.3** | | **Adolygu'r Strategaeth Carbon ac ail gyflwyno i'r Aelodau yn diweddaru ar unrhyw gynnydd/newid** | 2025 | Pen. Cynllunio a Phartner.<br>Pen. Partn.<br>Swyddog Carbon |
| | Ch. 1- 2 | Mae Strategaeth Carbon yn cael ei gynhyrchu ar ran yr Awdurdod – bydd papur yn mynd gerbron y Tim Arweinyddiaeth i gytuno cyfeiriad gwaith y Swyddog Carbon. | | |
| | Ch. 3 | Is grŵp o swyddogion wedi'i sefydlu – am gyfarfod mis Mawrth 2026 am y tro cyntaf i roi gwell arweiniad i raglen gwaith y Swyddog Carbon ar ran lleihau defnydd Carbon yr Awdurdod. | | |
| | **Ch. 4** | **Yn dilyn yr is-grŵp swyddogion, cytunwyd ar restr o gamau gweithredu ar gyfer y Swyddog Carbon gan gynnwys olrhain y defnydd o fflyd lwyd a threialu ffurflenni allyriadau cadwyn gyflenwi Llywdoraeth Cymru** | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen. Gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2025/26

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol<br>(Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 2.4** | | **Datblygu Cynllun Gweithredu Carbon Isel ar gyfer Eryri, gan sicrhau bod hwn yn cynnwys ymrwymiad i**<br>➢ Amcanion carbon isel yn y CDLl a Chynllun Eryri<br>➢ Cynhyrchu Strategaeth Coed a Choetiroedd<br>➢ Diweddaru Strategaeth Mawndiroedd | Parhaus | Cyfarwyddwr Cynllunio a Phartneriaethau (CaP); Pennaeth Partneriaethau; Swyddog Carbon |
| | Ch. 1 - 2 | Bydd yn cael ei ddatblygu fel rhan o adolygiad Cynllun Eryri, adolygiad CDLl ac yn waith parhaus Swyddog Carbon. | | |
| | Ch. 3 | Asesiad Risg wedi'i paratoi ar y cyd gyda rhanddeiliad a chymunedau am y tro cyntaf. Gwaith ar y Strategaeth Addasu yn dechrau ar y cyd gyda'r adolygiad o'r Cynllun Rheoli. Mae hyn yn torri tir newydd i'r Awdurdod. | | |
| | **Ch. 4** | **Bydd ymchwil academaidd bellach yn mynd i mewn i'r Asesiad Risg, gan gydweithio â myfyriwr PhD o Brifysgol Bangor. Bydd y Swyddog Carbon yn parhau i roi mewnbwn a hwyluso sgyrsiau ar gyfer adrannau newid hinsawdd y CDLl a Chynllun Eryri.** | | |
| **AC 2.5** | | **Sicrhau bod yr Awdurdod yn parhau i fod yn ymrwymedig i egwyddorion y "Ras i Sero" drwy fabwysiadu rôl arweinyddiaeth ac eiriolath gref yn y frwydr yn erbyn newid hinsawdd – gan gynnwys ymrwymo i'r 5 prif addewid sydd yn y "Ras i Sero". Gweithio gyda PC yDU/PyPC ar negeseuon strategol newid hinsawdd** | Parhaus | Cyf. CaP<br>Swyddog Carbon Isel |
| | **Ch. 1- 4** | **Mae hyn yn waith parhaus gan y Swyddog Carbon** | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen. Gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2025/26

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 2.6** | | **Cefnogi partneriaeth strategol gyda Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Arfordir Penfro ar Adfer Natur ac Atafaeliad Carbon yn Nhirweddau Dynodedig Cymru** | Parhaus | PW |
| | **Ch. 1- 4** | **Dim diweddariad penodol - mae'r swydd bellach yn cael ei rheoli gan BC Penfro ac yn gweithredu ar draws yr 8 tirwedd.** | | |

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | AC 3 | GWELLA RHEOLAETH A DEALLTWRIAETH O'N TREFTADAETH DDIWYLLIANNOL |
|---|---|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **AC 3.1** | | **Datblygu a mabwysiadu Strategaeth Treftadaeth Ddiwylliannol APCE** | Hydref 2025 | Cyf. Rheoli Tir. Pen. Treftadaeth Ddiwylliannol |
| | Ch. 1-2 | Cwblhawyd gwaith ymgysylltu o fewn yr Awdurdod a llunio blaenoriaethau ar gyfer y Strategaeth. Gohiriwyd cyflwyno'r adroddiad i Weithgor Aelodau Hydref 2025, er mwyn ymblethu'r strategaeth gydag adolygiad Cynllun Eryri. Bydd diweddariad pellach yn Chwarter 4.<br>- | | |
| | **Ch. 3 - 4** | **Bydd y gwaith yn parhau wrth adolygu Cynllun Eryri. Disgwylir dychwelyd i'r Gweithgor Aelodau gyda drafft yn ystod 2026/27.** | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen. Gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2025/26

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| AC 3.2 | | **Sicrhau fod Rhaglen Waith Cynllun Partneriaeth Tirwedd y Carneddau ar gyfer 2024/25 wedi'i chwblhau mewn pryd i sicrhau bod y Prosiect yn parhau i fod ar y trywydd iawn i'w gwblhau erbyn 2026.**<br>➢ **Paratoi adroddiad yn diweddaru i'r Aelodau**<br>➢ **Mabwysiadu cynllun gwaddol ar gyfer ardal y Carneddau** | Gwannwyn 2025 Mawrth. 2026 | Cyf. Rheoli Tir Pen. TDd |
| | Ch. 1+2 | Mae swyddogion yn blaenoriaethu cynllun gwaddol y Carneddau ac yn cydweithion agos gyda phartneriaid i'w ddatblygu. | | |
| | **Ch. 3- 4** | **Cwblhawyd y prosiect yn llwyddiannus, bydd swyddogion yn cyflwyno adroddiad cwblhau cynllun i Weithgor Aelodau mis Mawrth gan gynnwys y cynllun gwaddol llawn.** | | |
| AC 3.3 | | **Symud ymlaen a chyflawni prosiect Treftadaeth Ddiwylliannol Harlech ac Ardudwy gyda arian grant y Loteri** | Parhaus hyd at Hydref 2025 | Cyf. Rheoli Tir Pen TDd Swyddog Prosiect TDd |
| | **Ch. 1-2** | **Cwblhawyd y prosiect yn llwyddiannus, gyda chyllid Llywodraeth Cymru.** | | |
| AC 3.4 | | **Cyfrannu'n weithredol at raglen waith Cynllun Gweithredu Safle Treftadaeth y Byd (STB) Tirweddau Llechi Gogledd Orllewin Cymru** | Parhaus | Cyf. Rheoli Tir Pen. TDd. |
| | Ch. 1- 2 | Mae swyddogion yn mynychu ac yn cyfrannu at strwythur reoli Llechi Cymru.<br>Cynhaliwyd dau ddigwyddiad yn llwyddiannus ar y cyd a Llechi Cymru ym Mhlas Tan y Bwlch, sef darlith "Pedoli'r Ponciau" a gweithdy blaenoriaethu marchnata. | | |
| | **Ch. 3 - 4** | **Mae swyddogion yn cydweithio gyda phartneriaid i ddiweddaru cynlluniau rheoli safleoedd Cyfadrannau 4 a 5.** | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen. Gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2025/26

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| AC 3.5 | Ch. 1 - 4 | **Cyfrannu'n weithredol at raglen waith barhaus y Grŵp Amgylchedd Hanesyddol (GAH) dan arweiniad Cadw a'i weithgorau cysylltiedig, gan gynnwys Llesiant, Lliniaru Newid Hinsawdd, mawndiroedd a Threftadaeth Leol**<br><br>**Mae'r gwaith hwn yn parhau yn llwyddiannus.** | Parhaus | Cyf. Rheoli Tir Pen. TDd. |
| AC 3.6 | Ch. 1-2<br>Ch. 3<br><br>**Ch. 4** | **Cynnal a datblygu Yr Ysgwrn fel amgueddfa a chanolfan ddiwylliannol o fri cenedlaethol a cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Aelodau**<br><br>Cyflwynwyd adroddiad blynyddol i'r Awdurdod, Haf 2025. Cwblhawyd rhaglen weithgareddau'r Ysgwrn yn llwyddiannus.<br>Mae swyddogion yn gweithio ar gais adnewyddu achrediad amgueddfa'r Ysgwrn, i'w gyflwyno ar ddechrau 2026.<br><br>**Mae arddangosfa dros dro o gadair yr Eglwys 1918 a gerfiwyd gan Eugene Vanfleteren wedi'i gosod ac wedi derbyn derbyniad da iawn, gan gynnwys sylw rhagorol yn y cyfryngau.** | Rhag. 2025 | Cyf. Rheoli Tir Pen. TDd. |
| AC 3.7 | Ch. 1-2<br><br>**Ch. 3 - 4** | **Yn dilyn cwblhau Gwerthusiadau Ardaloedd Cadwraeth a Chynllun Rheoli cyflwyno rhaglen barhaus o hyfforddiant sgiliau traddodiadol a fydd hefyd yn cyd-fynd â Chynllun Gweithredu Safle Treftadaeth y Byd**<br>Cwblhawyd gwerthusiad o'r gwaith sgiliau traddodiadol cychwynnol, a fydd yn hysbysu datblygiad y prosiectau nesaf.<br>Trafodaethau cychwynnol wedi'u cynnal gyda darparwyr lleol. Bydd cynllunio manwl yn digwydd yn ystod Gaeaf 2025/26.<br><br>**Mae rhaglen sgiliau ar waith ar gyfer 2026, gan weithio gyda chontractwyr lleol ac y benodol mewn gwaith calch a ffensio pileri llechi. Mae'r galw'n parhau i fod yn uchel. Mae dwy brentisiaeth yn cael eu cwblhau, gan weithio mewn cydweithrediad â Grŵp Llandrillo Menai.** | Parhaus | Cyf. Rheoli Tir Pen. TDd. |

Gwyrdd: Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen. Gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2025/26

Melyn: Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Coch: Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| AC 3.8 | | **Cynllunio buddsoddiad newydd yn ardal gadwraeth Dolgellau, gan ymhelaethu ar brosiectau blaenorol yn y dref.** | Hydref 2025 | Cyf. Rheoli Tir Pen. TDd. |
| | Ch. 1-2 | Mae'r cynllun gwreiddiol wedi'i ohirio, oherwydd prosiectau strategol eraill sy'n flaenoriaeth uwch. Derbyniwyd cyllid Llywodraeth Cymru i gynnal prosiect 18 mis Dadgarboneiddio Dolgellau Hanesyddol a gaiff ei gwblhau erbyn Mawrth 2027. Mae proses recriwtio rheolwr prosiect ar y gweill. | | |
| | Ch. 3 | Llwyddwyd i benodi rheolwr prosiect llawrydd ar gyfer y cynllun a chynhaliwyd cyfarfod cychwynnol gyda swyddogion. Mae Datganiadau o Ddiddordeb mewn grantiau wedi'u gwahodd, gyda dyddiad therfyn ganol Ionawr. Mae'r diddordeb yn y prosiect yn lleol yn argoeli'n dda. | | |
| | **Ch. 4** | **Mae adeiladau wedi'u cadarnhau, grantiau wedi'u cadarnhau ac mae prosiectau bellach yn symud ymlaen trwy'r broses gynllunio ac yn tendro am gontractwyr i gwblhau'r gwaith .** | | |

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | AC 4 | MYND I'R AFAEL Â HERIAU A CHYFLEOEDD SENARIOS RHEOLI TIR AR ÔL BREXIT |
|---|---|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| AC 4.1 | | **Cynorthwyo i ddatblygu a dylunio cynigion rheoli tir yn y dyfodol gyda Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru, i sicrhau bod Eryri yn elwa o gynigion yn y dyfodol a bod nodau strategol Cynllun Eryri yn cael eu hadlewyrchu yng nghynigion y dyfodol** | Parhaus | Cyf.Rheoli Tir Pennaeth Cadwraeth, Coed ac Amaeth (CCA) |
| | Ch. 1-2 | Mae swyddogion PC Eryri wedi chwarae rôl blaenllaw yn natblygiad cynllun Ffermio Bro (2025-28) ac yn parhau i gynorthwyo gyda datblygiad cynllun SFS. | | |
| | Ch. 3 | Y rhaglen waith ar fin symud i gwedd 2, sef datblygu y haen ddewisol ac cydweithredol. | | |
| | **Ch. 4** | **Mae Blwyddyn 1 wedi arwain at 50 o ffermydd (trwy 13 grŵp) wedi derbyn cyllid Ffermio Bro. Mae cynlluniau ar waith ar gyfer Blynyddoedd 2 a 3 ac mae cyllidebau uwch wedi'u cadarnhau.** | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen. Gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2025/26

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 4.2** | 🟢 | **Yn dilyn ymgynghoriad LIC, cynnal perthynas waith agos gyda'r sector tir i sicrhau bod gan yr Awdurdod ddealltwriaeth o oblygiadau parhaus effaith cynigion Cynllun Ffermio Cynaliadwy Cymru ar rinweddau arbennig Eryri** | Parhaus | Cyf. Rheoli Tir Pen. CCA |
| | Ch. 1- 2 | Gwaith parhaus a rheolaidd o drafod ac ymgysylltu gyda'r gymuned amaethyddol. | | |
| | **Ch. 3 - 4** | **Cyfarfod cyswllt Amaeth wedi ei gynnal mis Tachwedd gyda amaethwyr ac Undebau amaeth. Cyfarfodydd Undeb rheolaidd ar weithrediad y cynllun Ffermio Bro** | | |
| **AC 4.3** | 🟢 Adroddiad blynyddol | **Darparu Adroddiad Blynyddol ar gynllun Ffermio Bro** | Adroddiad Blynyddol | Cyf. Rheoli Tir Pen. CCA |
| | | **Mae rhaglen y cynllun yn edrych yn addawol iawn ar hyn o bryd, cyllideb llawn wedi ei neilltuo ac mae'r gwaith ar y ddaear ar fin dechrau, mae adroddiad ar allbwn blwyddyn 1 wedi ei chyflwyno i Llywodraeth Cymru.** | | |

🟢 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen. Gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2025/26

🟡 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

🔴 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | AC 5 | MYND I'R AFAEL Â'R DIRYWIAD MEWN NATUR |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 5.1** Adroddiad blynyddol | Gwyrdd | **Cyflawni cynllun gweithredu Cynllun Adfer Natur**<br>➢ **Cynhyrchu Adroddiad Blynyddol**<br><br>**Bydd drafft terfynol Cynllun Gweithredu Adfer Natur Eryri (NRAP) 2026-2031 yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau yn ystod cyfarfod yr Awdurdod ym mis Ebrill. Mae'r NRAP yn cynnwys trosolwg o fioamrywiaeth a chynefinoedd Eryri, pwysau allweddol sy'n effeithio ar y fioamrywiaeth a chynllun gweithredu cyffredinol gan gynnwys ffyrdd y gall grwpiau, sefydliadau, cymunedau ac unigolion helpu i adfer natur. Bwriedir i'r NRAP fod yn ddogfen ddeinamig i sicrhau y gellir gweithredu newidiadau yn ôl yr angen.** | Parhaus Mawrth 2026 | Cyf. Rheoli Tir Pen. CCA |
| **AC 5.2** Adroddiad blynyddol | Gwyrdd | **Parhau i ddarparu gwelliant bioamrywiaeth trwy'r broses rheoli datblygu a sicrhau cydymffurfiad ag unrhyw ganllawiau gan Lywodraeth Cymru**<br><br>**Parhau i ddisgwyl am ganllawiau pellach gan Llywodraeth Cymru.** | Adroddiad Blynyddol | Cyf. CaP Pen. RhDaCh |
| **AC 5.3** | Gwyrdd | **Unwaith bydd canllawiau LIC wedi'u cyhoeddi, sicrhau bod CCA ar fioamrywiaeth yn cael ei gynhyrchu i gefnogi'r broses Rheoli Datblygu**<br><br>**Parhau i ddisgwyl am ganllawiau pellach gan Llywodraeth Cymru.** | Mawrth 2026 | Cyf. CaP Pen. Polisi Cynllunio |

Gwyrdd: Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen. Gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2025/26

Oren: Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Coch: Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 5.4** | | **Parhau i ddarparu prosiectau cymeradwy sy'n mynd i'r afael â nodau a datblygu rhaglenni pellach** | Adroddiad diweddaru 2 waith y flwyddyn | Cyf. Rheoli Tir Rheolwyr Prosiectau |
| | Ch. 1-2 | Cyflwynwyd adroddiad diweddaru i Bwyllgor Perfformiad ac Adnoddau Gorffennaf yn nodi'r holl brosiectau ymlaen gan yr Awdurdod, ceisiadau am arian grant yn aros am ganlyniadau a phrosiectau newydd sydd ar fin dechrau. | | |
| | **Ch. 3 - 4** | **Adroddiad pellach gerbron Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau mis Mawrth.** | | |
| **AC 5.5** | | **Symud ymlaen ag arolwg ledled y Parc Cenedlaethol o safleoedd Coed a Choetiroedd Hynafol (PAWS)** | Mawrth 2026 | Cyf. Rheoli Tir Pen CCA |
| | Ch. 1-2 | Gwaith wedi cychwyn ar arolygon 2025 a rhaglen waith cyfalaf hefyd wrthi yn cael ei gosod ar gyfer y gaeaf. | | |
| | Ch. 3 | Rhaglen waith wrthi'n cael ei wireddu | | |
| | **Ch. 4** | **Mae adroddiadau Coetiroedd Hynafol wedi'i cwblhau ar gyfer 16 safle (tua 133Ha). 20 pecyn o waith cyfalaf wedi'u cwblhau mewn 15 safle, gan gynnwys gwell ffiniau, rheoli rhywogaethau ymledol a choedlannu.** | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen. Gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2025/26

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

## CANLYNIADAU:

**AMGYLCHEDDAU CYDNERTH: Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan llesiant pan:**

**AC1:** Fyddwn wedi datblygu a gweithredu egwyddorion a throthwyon arweiniol mewn perthynas ag effeithiau ymwelwyr ar yr amgylchedd a'r dirwedd ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.1)***

**AC1:** Rydym wedi sicrhau bod llwybrau'r ucheldir yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda i reoli effeithiau erydiad a blaenoriaethu gwaith yn seiliedig ar nifer y defnyddwyr llwybrau troed ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.2)***

**AC1, 2:** Rydym wedi lleihau effeithiau parcio a thrafnidiaeth ar yr amgylchedd a'r dirwedd ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.4)***

**AC1:** Rydym wedi lleihau unrhyw effeithiau negyddol gweithgareddau hamdden ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.5)***

**AC1:** Gan ddefnyddio'r strategaeth marchnata brand fel sylfaen, byddwn wedi datblygu cynllun a rennir gyda phartneriaid ar y wybodaeth a ddarparwn i ymwelwyr, gyda phwyslais ar y Rhinweddau Arbennig a newid ymddygiad ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B3.3)***

**AC2, 4:** Mae allyriadau carbon Parc Cenedlaethol Eryri yn cael eu lleihau ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A3.1)***

**AC2, 4:** Rydym wedi diogelu a chynyddu faint o garbon sy'n cael ei storio yn Eryri ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A3.2)***

**AC3, 4, 5:** Rydym wedi cydlynu a gweithredu cynllun nwyddau cyhoeddus uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar gynnal, adfer ac ehangu cynefinoedd, rhywogaethau, nodweddion amgylcheddol hanesyddol a nwyddau cyhoeddus ehangach ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.1)***

**AC5:** Mae dirywiad bioamrywiaeth yn cael sylw trwy weithgareddau cynnal a chadw, adfer, ehangu a chysylltedd ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.2)***

**AC2, 4, 5:** Rydym wedi parhau i ehangu gweithredoedd cyfredol y Bartneriaeth i reoli a lleihau maint y rhywogaethau goresgynnol **(yn unol â Chynllun Eryri A4.2)**

**AC3:** Rydym wedi cefnogi atgyweirio ac adfer adeiladau rhestredig, wedi cefnogi diogelu Henebion Rhestredig ac wedi datblygu a gweithredu prosiectau ar raddfa tirwedd sydd o fudd i'r amgylchedd hanesyddol. **(yn unol â Chynllun Eryri A6.1. A6.2. A6.3).**

# 2. CYMUNEDAU CYDNERTH

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CC 1 | CYNNAL A GWELLA ANSAWDD BYWYD PRESWYLWYR |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CC 1.1** | Gwyrdd | **Datblygu adnodd digidol sy'n ymwneud â gweithgareddau a lwybrau yn y Parc Cenedlaethol wedi'i dargedu a'i deilwra'n briodol** | Parhaus | Pen. Cyfathrebu<br>Pen. Gwas.<br>Wardeinio +<br>Swyddog Cynnwys Digidol |
| | Ch. 1-2 | Gwaith ar y cyd rhwng yr adrannau cyfathrebu a wardeinio yn parhau yn gyson. | | |
| | **Ch 3 - 4** | **Ffocws wedi ei roi ar y wefan yr Awdurdod a'r cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo llwybrau hygyrch. Mae'r gwaith yn parhau.** | | |

Gwyrdd: Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen. Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2025/26

Melyn: Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Coch: Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CC 1.2** | Ch. 1 - 2<br>Ch. 3<br>Ch. 4 | **Fel rhan o'r Strategaeth Gwirfoddolwyr APCE ac mewn cydweithrediad â phartneriaid, parhau i ehangu cyfleoedd gwirfoddoli o fewn y Parc Cenedlaethol sy'n cynnwys gweithgareddau corfforol a diwylliannol**<br>Adroddiad blynyddol wedi ei gynhyrchu gan y Swyddog Gwirfoddoli a Lles yn nodi'r holl gyfleoedd ac achlysuron gwirfoddoli.<br>Diwrnod gwirfoddoli staff wedi ei gynnal ym Mhlas Tan y Bwlch yn ystod Tachwedd gyda nifer dda o staff wedi troi fyny i gyflawni wahanol waith yn y gerddi.<br>➢ **Sesiynau garddio wythnosol wedi'u sefydlu yn Yr Ysgwrn a Phlas Tan y Bwlch**<br>➢ **Gwaith ad-dalu cymunedol parhaus yn yr Ysgwrn, mae'r grŵp yn ymweld ddwy neu dair gwaith y mis.**<br>➢ **Diwrnodau gwrifoddoli corfforaethol misol gyda chynllun Darpariath Effaith Weledol Eryri, Hotchief**<br>➢ **Mae timau warden gwirfoddol De Eryri ac Yr Wyddfa yn dychwelyd am y tymor yn ogystal â chynllun gwirfoddoli Caru Eryri** | Parhaus | Cyf. CaP Pen. Partner. Swyddog Gwirfoddoli a Lles |
| **CC 1.3** | Ch. 1-2<br>**Ch. 3 - 4.** | **Datblygu cyfleoedd gwirfoddoli i gymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol, rhai agored i niwed a grwpiau difreintiedig**<br>Adroddiad blynyddol wedi ei gynhyrchu gan y Swyddog Gwirfoddoli a Lles yn cydnabod cyfleoedd. Hefyd, mae paratoadau ar weill i gynnal simposiwm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn gynnar yn 2026 fel rhan o waith paratoadol adolygu Cynllun Eryri.<br>**Simposiwm wedi trefnu ym mis Ionawr 2026 i ddechrau adnabod a diffino'n well y grwpiau targed er mwyn creu polisiau newydd yn y fersiwn 2026 o Gynllun Eryri.** | Parhaus | Cyf. CaP Pen. Partner. Swyddog Gwirfoddoli a Lles |

Gwyrdd: Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen. Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2025/26

Melyn: Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Coch: Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CC 1.4** | Gwyrdd | **Sicrhau bod cynllunio yn cymryd rôl ragweithiol wrth annog tai fforddiadwy trwy weithio gydag asiantaethau eraill yn y sector hwn, er mwyn ceisio cyflawni'r targed blynyddol a nodir yn y CDLl** | Adroddiad blynyddol | Cyf. CaP<br>Pen. RhDaCh<br>Pen P |
| Adroddiad blynyddol | | **Mae'r Awdurdod yn cyfrannu at ariannu Partneriaeth Galluogi Tai Gwledig yn ardal y Parc Cenedlaethol ar y cyd â Chyngor Gwynedd a Chymdeithasau Tai lleol sy'n weithredol yn yr ardal. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd y Galluogwr arolygon o anghenion tai lleol yng Ngellilydan, Maentwrog a Llanfathreth, a bydd rhaglen o arolygon yn parhau.**<br><br>**Mae'r Awdurdod hefyd yn gweithio i sicrhau ei fod yn gwneud y defnydd gorau o unrhyw symiau cymudo tai fforddiadwy a dderbynnir i gynorthwyo gyda darparu tai fforddiadwy i ddiawllu anghenion lleol o fewn ardal y Parc Cenedlaethol. Yn dilyn gwaith cymunedol yn ardal Penmachno a thrafodaethau rhwng Menter Iaith Conwy, mae'r Awdurdod yn parhau i ariannu swyddog tai dan arweiniad y cymuned ym Mhenmachno.**<br>**Mae'r Awdurdod hefyd wedi defnyddio symiau cymudo i ariannu Cynllun Prynu i Osod Cyngor Gwynedd sydd wedi galluogi prynu tair annedd, ac adnewyddu dwy annedd, sydd wedi arwain at fynnydd yn y stoc o dai fforddiadwy.**<br>**Mae'r Awdurdod yn cyfrannu, pan fo angen, at waith peilot Llywodraeth Cymru sy'n cael ei gynnal yn ardal Dwyfor.**<br><br>**Fel rhan o ymdrechion i atal unrhyw ostyngiad pellach yn y stoc dai bresennol sydd ar gael i gymunedau lleol, mae'r Awdurdod wedi cyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 i reoli'r defnydd o dai fel ail gartrefi a llety gwyliau yn Ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Eryri. Daeth cyfarwyddyd Erthygl 4 i rym ar 1 Mehefin 2025.**<br><br>**Mae'r Awdurdod yn negodi'n rheolaidd â Landloriaid Cymdeithasol Cofrestredig i sichrau bod tai fforddiadwy yn cael eu darparu lle bo angen ac yn ddiweddar mae wedi syfydlu Partneriaeth Tai Eryri i gynnwys rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisiau fel rhan o Gynllun newydd Datblygu Lleol Eryri i ymateb i heriau tai o fewn y Parc Cenedlaethol.** | | |

Gwyrdd: Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen. Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2025/26

Oren: Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Coch: Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CC 1.5** | (gwyrdd) | **Yn dilyn penderfyniad gan yr Awdurdod i ohirio cynhyrchu Adolygiad CDLl Eryri tan 2025 er mwyn canolbwyntio ar gyflawni Cyfarwyddyd Erthygl 4: Symud ymlaen â bwriad yr Awdurdod i weithredu Cyfarwyddyd Erthygl 4 i ddileu hawliau datblygu a ganiateir i newid cartref preswyl parhaol i llety gwyliau neu ail gartref, gyda cherrig milltir allweddol yn cynnwys:**<br>➢ Cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar cynnwys CCA ac ystyried y sylwadau a dderbyniwyd<br>➢ Mabwysiadau CCA fel ystyriaeth cynllunio i reoli defnydd o dai fel ail gartrefi a llety gwyliau<br>➢ Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn dod i rym i Fehefin 2025: Gweithredu cyfarwyddyd Erthygl 4 yn effeithiol yn y broses rheoli datblygu | ➢ Gwanwyn 2025<br>➢ Haf 2025<br>➢ Mehefin 2025 ymlaen | Cyf. CaP<br>Pen. Polisi Cynllunio |
| | Ch. 1- 2 | ➢ Canllaw Cynllunio Atodol wedi ei ddrafftio. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar gynnwys y CCA drafft yn ystod Gwanwyn 2025. Cafodd y sylwadau eu hystyried a'u adrodd i aelodau yr Awdurdod.<br>➢ Daeth y cyfarwyddyd Erthygl 4 i rym 1af o Fehefin 2025<br>➢ Mabwysiadwyd y CCA fel ystyriaeth cynllunio i reoli defnydd o dai fel ail gartrefi a llety gwyliau ym Mhwyllgor Cynllunio a Mynediad yr Awdurdod ar 25ain o Fehefin 2025<br>➢ Mae'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 bellach yn cael ei weithredu drwy'r broses rheoli datblygu. | | |
| | **Ch. 3** | **Mae'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 bellach yn cael ei weithredu drwy'r broses rheoli datblygu** | | |

(gwyrdd) Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen. Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2025/26

(oren) Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

(coch) Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgriflad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| CC 1.6 | Green | **Yn amodol ar dderbyn arian grant cynllun Tirweddau Cynaliaday Llefydd Cynaliadwy LIC ar gyfer 2025-27, parhau i ddarparu arian a mesurau i gefnogi cymunedau ac economiau lleol drwy Cronfa Cymunedau Eryri (CCE) gan ffocysu ar ddatgarboneiddio.  Bydd ffenestr ariannu newydd ar gyfer 2025-27 yn agor ac yn cael ei hyrwyddo cyn gynted ag y bydd cadarnhad wedi'i dderbyn** | Parhaus Ebrill 2025 – Mawrth 2027 | Cyf. CaP<br>Pennaeth Partneriaethau<br>Swyddog Prosiect CCE |
| | Ch. 1-2 | Derbyniwyd arian grant LIC am ddwy mlynedd 2025-27 ac agorwyd ffenestr ceisiadau ar ddechrau'r haf.  Bu i'r Panel gwrdd a chytuno/cefnogi 9 prosiect i'w datblygu yn ystod 2025-26 gyda'r ffocysu ar ddad-garboneiddio. | | |
| | Ch. 3 | Fel yr uchod – pob prosiect cymunedol yn symud ymlaen gyda chefnogaeth Swyddog Ymgysylltu'n Cymunedol yr Awdurdod. | | |
| | **Ch. 4** | **Cwblhawyd pob prosiect o fewn yr amserlen ac o fewn y gyllideb a ddyrannwyd.  Darparwyd cyllid i gefnogi amrywiol fentrau cymunedol yn amrywio o:  cwblhau'r arolygon a'r cynlluniau angenrheidiol ar gyfer datblygu cynllun trydan dŵr cymunedol ar gyfer Cyngor Cymuned Dolwyddelan; gosod ffenestri panel gwydr eilaidd yn Llyfrgell/Sefydliad Harlech a Neuadd Goffa Ysbyty Ifan; beiciau trydan ac ategolion cysylltiedig i bobl leol yn Gwallgofiaid CellB a Phartneriaeth Ogwen; gosod paneli solar a batri wrth gefn ar gyfer Neuadd Gellilydan; pwynt gwefru ar gyfer car cymunedol ar gyfer Pum Plwy Penllyn a mesurau i wella effeithlonrwydd ynni Neuadd Pantperthog a Neuadd y Parc.  Bydd hysbysiad o geisiadau ar gyfer ffenestr ariannu 2026-27 yn dechrau ym mis Ebrill 2026.** | | |

Green: Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen. Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2025/26

Amber: Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Red: Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CC 2 | CEFNOGI POBL IFANC |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| CC 2.1 | | Gweithredu Maniffesto Ieuenctid | Parhaus Mawrth 2026 | Cyf. CaP Pen. Partn. Swyddog Pobl Ifanc |
| | Ch. 1-2 | Mae Swyddog Pobl Ifanc wedi bod yn y swydd ers mis Mai 2025 ac yn gweithredu ar y Maniffesto fel anghenion y swydd ddisgrifiad. | | |
| | Ch. 3 | Mae'r gwaith yn parhau, yn anffodus, bydd angen recriwtio am Swyddog Pobol Ifanc newydd yn fuan yn 2026 gyda'r swyddog presennol wedi derbyn swydd arall. | | |
| | **Ch. 4** | **Mae Swyddog Pobl Ifanc wedi'i benodi ac wedi dechrau yn ei swydd yn ddiweddar a bydd yn datblygu gwaith ar y Maniffesto Ieuenctid. Mae gwaith ar y cyd â PCyDU yn mynd rhagddo i geisio sicrhau cyllid tymor canolig er mwyn cynnal y cynllun.** | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen. Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2025/26

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| CC 2.2 | | Datblygu'r cynllun Ceidwad Ifanc er mwyn sicrhau gwaith partneriaeth effeithlon, darparu cyfleoedd eang a dod o hyd i gyllid i gynnal y cynllun | Parhaus Mawrth 2026 | Cyf. CaP Pen. Partn. Swyddog Pobl Ifanc |
| | Ch. 1-2 | Mae Cynllun Ceidwad Ifanc wedi ei ail lansio a chyfleodd eang yn cael eu cynnig drwy waith partneriaethol. Mae gwaith ar y cyd gyda Pharciau Cenedlaethol y DU yn symud ymlaen i geisio sicrhau cyllid tymor canolig er mwyn cynnal y cynllun. | | |
| | Ch. 3 | Mae'r gwaith yn parhau, yn anffodus bydd angen recriwtio am Swyddog Pobol Ifanc newydd yn fuan yn 2026 gyda'r swyddog presennol wedi derbyn swydd arall. | | |
| | **Ch. 4** | **Mae Swyddog Pobl Ifanc wedi'i phenodi ac wedi dechrau yn ei swydd yn ddiweddar a bydd yn datblygu'r cynllun Ceidwaid Ifanc. Mae gwaith ar y cyd â PhyDU yn mynd rhagddo i geisio sicrhau cyllid tymor canolig er mwyn cynnal y cynllun.** | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen. Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2025/26

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CC3 | HYRWYDDO TWRISTIAETH GYNALIADWY I YCHWANEGU GWERTH I GYMUNEDAU LLEOL |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| CC 3.1 | Ch. 1- 4 | **Gweithio gyda Chyngor Gwynedd a CBS Conwy i ddatblygu a gweithredu cynllun strategol Economi Ymwelwyr Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri. Unwaith y bydd y cynllun strategol wedi'i lansio, dechrau ar y gwaith o ddatblygu cynllun gweithredu a thargedau a dangosyddion cysylltiedig.**<br>**Mae'r Cynllun gweithredu yn ei ail flwyddyn – targedau a dangosyddion yn cael ei datblygu ar y cyd drwy'r Partneriaeth Economi Ymweld Gwynedd ac Eryri.** | Parhaus | Cyf. CaP<br>Pen. Partneriaethau<br>Swyddog Twristiaeth Gynaliadwy |
| CC 3.2 | Ch. 1- 4 | **Datblygu cyfleoedd i annog trafnidiaeth mwy gwyrdd trwy'r canlynol:**<br>➢ Gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru i ddatblygu cynllun trafnidiaeth a pharcio Gogledd Eryri<br>➢ Parhau i weithio gyda partneriaid i ymateb i'r broblem parcio a materion trafnidiaeth yn ardal Nantgwynant.<br>➢ Parhau i hwyluso trafodaethau rhwng partneriaid er mwyn ymateb materion parcio a thrafnidiaeth yn ardal Ogwen<br>**Gwaith parhaus. Mae'r Cynllun Trafnidiaeth bellach yn cael ei reoli gan is Bwyllgor Trafnidiaeth Rhanbarthol y Cyd Bwyllgor Corfforedig sydd wedi datblyu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru. Mae Pennaeth Partneriaethau yn cynrychhioli'r Awdurdod ar yr Is-Bwyllgor.** | Parhaus hyd at Ebrill 2026 | Cyf. CaP<br>Pen. Partneriaethau<br>Swyddog Twristiaeth Gynaliadwy |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen. Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2025/26

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| CC 3.3 | | **Gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru i ddatblygu Cynllun Cyflawni trwy Grŵp Cyflawni Gogledd Cymru a sefydlwyd y llynedd i alluogi gwell gwaith partneriaeth a blaenoriaethau a chyflawni prosiectau teithio a thrafnidiaeth cynaliadwy llwyddiannus.**<br>**Sicrhau bod adborth cymunedol wedi'i ystyried wrth ddatblygu'r cynllun.**<br>**Sicrhau ein bod yn cydweithio â thim y CDLl fel rhan o'r broses CDLl mewn perthynas a pholisiau sy'n ymwneud â pharcio a thrafnidiaeth.**<br>➢ Cynorthwyo'r Grŵp cyflawni i gwblhau a gweithredu Cynllun Cyflawni | Parhaus | Cyf. CaP<br>Pen. Partneriaethau |
| | **Ch. 1- 4** | **Mae'r Grŵp Cyflawni bellach wedi dod i ben wrth i Drafnidiaeth Cymru gamu'n ôl.**<br>**Bydd Is Bwyllgor Trafnidiaeth Rhanbarthol y Cyd Bwyllgor Corfforedig yn arwain ar y gwaith hyn.**<br>**Mae Pen. Partneriaethau APCEryri wedi ei henwebu i eistedd ar yr Is-Bwyllgor Trafnidiaeth.** | | |
| CC 3.4 | | **Parhau i ddatblygu cynllun Llysgenhadon Eryri.** | Parhaus | Cyf. CaP<br>Pen. Partneriaethau |
| | Ch. 1- 2 | Gwaith parhaus – mae'r Cynllun yn cael ei adolygu'n blynyddol, modiwlau newydd ar gael a modiwl ail gymhwyso yn cael ei ysgrifennu pob blwyddyn. Mae'r Cynllun yn parhau i ddenu Llysgenhadon newydd gyda bron 1500 wedi cymhwyso erbyn diwedd 2025. | | |
| | **Ch. 3 - 4** | **Mae Modiwlau ar y cyd wedi'i cynhyrchu gyda Cyngor Gwynedd ar ran Mentra'n Gall a Twristiaeth Gynaliadwy. Mae Modiwlau newydd ar Cynllun y Carneddau a Phrosiect LIFE Coedwigoedd Glaw ar gael yn 2026, gyda'r rhaglen yn mynd o nerth i nerth.** | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen. Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2025/26

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CC 3.5**<br><br>Adroddiad blynyddol | | **Sicrhau bod y CDLl presennol yn rhoi ei bolisïau ar waith yn gadarnhaol i gyfrannu at dwristiaeth gynaliadwy, sy'n ychwanegu gwerth at gymunedau lleol. Yn ogystal, sicrhau bod twristiaeth gynaliadwy gyda budd gymunedol yn cael ystyriaeth lawn wrth fynd ati i ddiwygio CDLl Eryri**<br><br>**Roedd sicrhau twristiaeth gynaliadwy yn ystyriaeth bwysig wrth baratoi polisiau presennol y CDLl. Cyflwynir Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) o gynnydd holl bolisiau'r CDLl i'r Aelodau ac i Lywodraeth Cymru bob mis Hydref, ac mae hyn wedi arwain at y casgliad bod y polisiau hyn wedi'u cydymffurfio.**<br><br>**Ers mabwysiadu'r CDLl mae'r Awdurdod wedi bod yn brysur yn gweithio'n agos gyda Chyngor Gwynedd a Chonwy i fabwysiadu Cynllun Economi Ymwelwyr Cynaliadwy sy'n hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy sy'n cefnogi cymunedau, diwylliant a'r amgylchedd wrth hyrwyddo twf economaidd. Bydd angen sicrhau bod y CDLl diwygiedig yn adlewyrchu gweledigaeth ac egwyddorion y Cynllun Economi Ymwelwyr Cynaliadwy.** | Adroddiad blynyddol | Cyf. CaP<br>Pen. RhDaCh<br>Pen. PC |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen. Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2025/26

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CC4 | **HYRWYDDO A CHEFNOGI'R GYMRAEG YN WEITHREDOL** |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CC 4.1** | | **Parhau i ddatblygu Yr Ysgwrn fel canolfan ddiwylliannol sy'n hyrwyddo diwylliant Cymraeg a mynd ati i ddarparu cyfleoedd i gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg**<br>➢ **Cyflwyno cais adnewyddu statws achrediad Yr Ysgwrn i LC**<br>➢ **Creu arddangosfa dros dro newydd, Cadeiriau Eugene Van Fleteren** | Parhaus<br><br>Hyd. 2025<br>Haf 2026 | Cyf. Rheoli Tir<br><br>Pen. Treftadaeth Ddiwylliannol |
| | Ch. 1-2 | Mae'r arddangosfa cadeiriau wedi'i chynllunio a bydd yn digwydd o fis Tachwedd 2025 ymlaen. Comisiynïwyd artistiaid a grwpiau ar gyfer y prosiect. Comisiyniwyd ymgynghorydd llawrydd i gynghori ar elfennau casgliad adnewyddiad achrediad amgueddfaol Yr Ysgwrn.<br>Mae'r gwaith yn parhau ar adnewyddiad achrediad amgueddfa'r Ysgwrn. Cynhaliwyd sesiynau arddangosfa cadeieirau yn Ysgol Bro Hedd Wyn. | | |
| | **Ch. 3 - 4** | **Cynllunio'r arddangosfa ar y gweill. Bwriedir iddi agor Haf 2026.**<br><br>**Byddwn yn cyflwyno cais achrediad amgueddfa'r Ysgwrn Chwefror 2026. (Mae oediad byr ar y gwaith ers y diweddariad blaenorol).** | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen. Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2025/26

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o’r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i’r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CC 4.2** | | **Diogelu a hyrwyddo'r defnydd o enwau lleoedd Cymraeg trwy gwblhau’r cam nesaf o safoni enwau lleoedd Eryri** | Parhaus | Cyf. Rheoli Tir<br>Pen. Treftadaeth Diwylliannol |
| | Ch. 1- 2 | Casglwyd dros 6,000 o enwau tirweddol hyd yma. Comisiynwyd arddangosfa gelf i ddehongli arwyddocâd yr enwau, a fydd yn teithio gogledd Cymru o Ionawr 2026 ymlaen. Cynhaliwyd sesiynau i gofnodi enwau tirweddol ardaloedd Yr Wyddfa, Abergynolwyn, Llanuwchllyn, Corris, Maentwrog. | | |
| | Ch. 3 | ➢ Paratoi ar gyfer arddangosfa carthenni enwau tirweddol Eryri. Cyfweliadau I'r wasg ar y gwaith gan gynnwys BBC Radio Cymru, rhaglen Today BBC Radio 4 a BBC Radio Wales. | | |
| | **Ch. 4** | ➢ **Agor arddangosfa carthenni enwau tirweddol Eryri yn Oriel Plas Glyn y Weddw, Ionawr 2026.**<br>➢ **Gwaith yn parhau gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Tirweddau Cymru i gwblhau adnodd addysg ar enwau tirweddol Eryri.** | | |
| **CC 4.3** | | **Darparu cyfleoedd ac ennyn diddordeb pobl yn yr iaith Gymraeg, diwylliant a threftadaeth gan gynnwys:**<br>➢ **Darparu cyfleoedd i wirfoddolwyr ddysgu a defnyddio'r Gymraeg drwy'r strategaeth wirfoddoli.**<br>➢ | Parhaus | Cyf. CaP<br>Pen. Part.<br>Swyddog Gwirfoddoli a Lles |
| | **Ch. 1- 4** | **Mae gwirfoddolwyr sy’n dysgu Cymraeg yn cael eu partneru gyda rhai syn rhugl ac mae holl wybodaeth a deunydd ar gyfer gwirfoddolwyr ar gael yn y ddwy iaith.** | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen. Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2025/26

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

| Rhif | Statws Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CC 4.4** | Gwyrdd | **Bydd prosiect Lleisiau ac Enwau Lleoedd y Carneddau a Chynllun Treftadaeth Ddiwylliannol Harlech ac Ardudwy yn cofnodi, diogelu a dathlu enwau lleoedd Cymru trwy ddigwyddiadau mapio cymunedol, cyfweliadau hanes llafar, prosiectau allgymorth a dehongli** | Parhaus hyd at Rhag. 2025 | Cyf. Rheoli tir<br><br>Pen. Treftadaeth Ddiwylliannol |
| | Ch. 1- 2 | Cynhaliwyd dwy sesiwn cofnodi enwau lleoedd yn ardal y Carneddau. | | |
| | Ch. 3 | Cwbhawyd gwaith pellach gan yr artist Anna Pritchard i ddehongli'r enwau, fel rhan o brosiect carthenni enwau tirweddol Eryri. Mae enwau'r Carneddau yn rhan o brosiect adnodd addysg enwau tirweddol Eryri yn ogystal. | | |
| | **Ch. 4** | **Mae comisiwn Anna Pritchard yn parhau i fynd o gwmpas gogledd Cymru. Bydd gwaith mapio a chasglu gyda cymunedau yn dychwelyd yn ystod Gaeaf 2026.** | | |
| **CC 4.5** | Gwyrdd | **Sicrhau bod Polisi Datblygu 18: yr Iaith Gymraeg a gwead Cymdeithasol a Diwylliannol Cymunedau yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol yn y broses rheoli datblygu** | Adroddiad blynyddol | Cyf. CaP<br>Pen. RhDaCh |
| Adroddiad blynyddol | | **Mae'r Adroddiad Monitro blynyddol a gyflwynir i'r Aelodau a Llywodraeth Cymru bob Hydref, wedi dod i'r casgliad bod y polisi uchod yn cael ei weithredu'n effeithiol.** | | |

Gwyrdd: Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen. Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2025/26

Melyn: Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Coch: Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CC5 | DATBLYGU ECONOMI LEOL SY'N CEFNOGI DYNODIAD A RHEOLAETH ERYRI FEL PARC CENEDLAETHOL |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CC 5.1** | Gwyrdd<br>Adroddiad Blynyddol | **Sicrhau gweithrediad cadarnhaol polisïau cyfredol y CDLI i ddatblygu economi leol sy'n cefnogi dynodiad y PC**<br>**Daeth Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) y CDLI a gyflwynir i Aelodau a Llywodraeth Cymru bob Hydref i'r casgliad bod y polisiau uchod yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Bydd y broses o baratoi CDLI Eryri 3 yn rhoi cyfle i adolygu'r wybodaeth a'r dystiolaeth bresennol i ganfod a oes angen newid unrhyw bolisi neu ddulliau a fabwysiadwyd ar hyn o bryd.** | Adroddiad blynyddol | Cyf. CaP<br>Pen. RhDaCh<br>Pen. PC |
| **CC 5.2** | Gwyrdd<br>Adroddiad Blynyddol | **Cyflwyno adroddiad monitro blynyddol i'r aelodau i'w drafod ac ystyried yr amserlen ar gyfer dechrau adolygiad o'r CDLI cyfredol**<br>**Adroddiad Monitro 2025 wedi ei gyflwyno i aelodau yr Awdurdod Medi 2025 i'w gyflwyno i llywodraeth Cymru cyn diwedd Hydref 2025.**<br>**Cytundeb Cyflawni wedi ei baratoi a bu ymgynghoriad ar y cynnwys rhwng yr 16eg o Fai 2025 a'r 27ain o Fehefin 2025.**<br>**Yn dilyn yr ymgynghoriad cafodd y Cytundeb Cyflawni ei addasu ai gyflwyno i Bwyllgor Cynllunio a Mynediad yr Awdurdod Medi 2025 a'i gyflwyno i Llywodraeth Cymru i gael ei gytuno.**<br>**Mae'r broses o baratoi CDLI 3 i ddechrau yn ffurfiol Tachwedd 2025. Mae'r tim yn bwriadu mynychu Gwyl Fach Eryri yn Dolgellau a Betws y Coed yn ystod yr Hydref i ddechrau ar y broses o dderbyn mewnbwn trigolion lleol yn ogystal a paratoi holiadur trigolion lleol i Gynhgorau Cymuned ac ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol.** | Adroddiad blynyddol | Cyf. CaP<br>Pen. RhDaCh<br>Pen. PC |

Gwyrdd: Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen. Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2025/26

Melyn: Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Coch: Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| **CC 5.3** | | **Hyrwyddo cyfleoedd i ddeall a mwynhau rhinweddau arbennig Eryri yn gynaliadwy** | Parhaus | Cyf. Gwas. Corff.<br>Pen. Cyfathrebu |
| | Ch. 1- 2 | Gwaith parhaus trawsadrannol. Bydd gwaith yn chwarter 3 a 4 yn ffocysu ar adrannau cadwraeth a threftadaeth er mwyn rhoi'r un sylw i bob adran. | | |
| | **Ch. 3 - 4** | **Fel tim rydym wedi bod yn manylu ar gynyddu cynnwys amrywiol a chomisiynu cwmniau ffilmio allanol i ychwanegu gwerth ein negeseuon er mwyn hyrwyddo holl rinweddau arbennig Eryri.** | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen. Y gwaith wedi ei gyflawni a/neu gwblhau ar gyfer 2025/26

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2025

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

## CANLYNIADAU:

**CYMUNEDAU CYDNERTH: Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan llesiant pan:**

**CC1, 2, 4:** Rydym wedi hyrwyddo a galluogi ystod amrywiol o weithgareddau sy'n gwella lles pobl ***(yn unol â Chynllun Eryri B1.2)***

**CC1, 3, 5:** Rydym wedi creu cynllun ac yn canolbwyntio adnoddau ar hyrwyddo, datblygu a chynnal a chadw llwybrau pellter hir wedi'u marcio'n dda, llwybrau hygyrch, llwybrau aml-ddefnyddiwr (yn enwedig llwybrau beicio a llwybrau beicio mynydd), hyrwyddo llwybrau a chysylltiadau a dolenni rhwng trefi a phentrefi. ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B2.1)***

**CC1, 2, 3, 5:** Rydym wedi annog ymwelwyr i ddod ar wahanol adegau o'r flwyddyn ac i wahanol ardaloedd er mwyn lleddfu pwysau yn ystod y tymor brig a helpu busnesau gyda materion tymhorol ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B3.2)***

**CC1,3,5:** Rydym wedi archwilio a gweithredu cyfleoedd i annog trafnidiaeth wyrddach ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B4.2)***

**CC2, 3, 4:** Rydym wedi creu cyfleoedd i bobl ifanc fod yn llysgenhadon dros iaith a diwylliant yr ardal (***yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.1***)

**CC4, 5:** Rydym yn arwain trwy esiampl wrth sicrhau bod yr iaith, diwylliant a threftadaeth Cymru yn cael ei hyrwyddo a'u defnyddio mewn digwyddiadau, gweithgareddau a gwybodaeth ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.1***)

**CC 4:** Rydym wedi gweithredu mesurau yn y Cynllun Datblygu Lleol a Chanllawiau Cynllunio Atodol cysylltiedig sy'n annog datblygiadau newydd i gynnal neu wella datblygiad y Gymraeg ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.1)***

**CC4:** Rydym wedi darparu cyfleoedd i ddysgwyr Cymru yn yr ardal (***yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.2***)

**CC4:** Mi fyddwn wedi amddiffyn enwau lleoedd Cymreig (***yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.3***)

**CC1, 2, 4:** Rydym wedi gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â materion sylfaenol a datblygu atebion arloesol i ddarparu tai fforddiadwy sy'n diwallu anghenion lleol (***yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C3.1***)

# 3. FFYRDD CYDNERTH O WEITHIO

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CW 1 | DATBLYGU GWEITHLU MEDRUS |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CW 1.1** | ● (gwyrdd) | **Ymgysylltu â'n staff ar bob lefel i gynorthwyo rheoli perfformiad:**<br>➢ **Bydd holl aelodau staff yr Awdurdod yn cael eu gwerthuso o fewn 12 mis**<br>➢ **Cynnal asesiadau anghenion hyfforddi yr holl staff o fewn 12 mis** | Parhaus Mawrth 2026 | Pen. Adnoddau Dynol (AD) |
| Parhaus | **Ch. 1- 4** | ➢ **Diwygio'r Broses Asesiad Perfformiad: Mae'r Awdurdod yn symud o'r model blynyddol traddodiadol i system adolygiadau chwarterol gyda dangosyddion statws RAG (Coch, Ambr, Gwyrdd). Bydd yr adolygiad chwarterol olaf yn gweithredu fel yr asesiad ffurfiol, gan roi mwy o bwyslais ar ddatblygiad gyrfa, lles a chyfleoedd hyfforddi. Lansiad arfaethedig: Hydref 2026.**<br>➢ **Newid Diwylliant Cefnogaeth Perfformiad: Cyflwyno 'Cynllun Llwyddo' i newid y drefn cynlluniau gwella ffurfiol, gan hyrwyddo dull cadarnhaol a rhagweithiol o gefnogi datblygiad staff.**<br>➢ **Adborth 360° – 'Myfyrio i Dyfu': Mae'r offeryn hwn bellach ar gael i annog hunanymwybyddiaeth a gwelliant parhaus, gan sicrhau bod adborth adeiladol yn rhan o'r broses rheoli perfformiad.**<br>➢ **Fframwaith Hyfforddiant Gorfodol: Mae pob aelod staff yn cael mynediad at fodiwlau e-ddysgu dwyieithog (e.e. Parch a Dyledswydd yn y Gwaith, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl, ac ati) i gefnogi trafodaethau asesiad a dadansoddi anghenion hyfforddi.** | | |

Tud. 31

● (gwyrdd) Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

● (ambr) Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

● (coch) Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CW 1.2** | (gwyrdd) | **Cefnogi staff i fynychu grwpiau cymheiriaid y Parc Cenedlaethol i'w hysbysu am ddatblygiadau ac i gynorthwyo rheoli perfformiad a dealltwriaeth o fewn eu priod ddisgyblaethau** | Parhaus Mawrth 2026 | Pen. AD<br>Pen. Gwasanaeth |
| Parhaus | **Ch. 1 - 4** | ➢ **Mae aelodau staff yn cael eu hannog a'u cefnogi i fynychu grwpiau cymheiriaid. Mae llawer mwy o gyrsiau wedi ei hychwanegu i ELMS, ein system hyfforddi ar-lein sy'n darparu nifer o gyrsiau hyfforddi dwyieithog i gynorthwyo staff a'u hysbrydoli i symud ymlaen a dysgu disgyblaethau newydd.**<br><br>➢ **Grwp Cydweithio: Mae'r Awdurdod yn parhau i hyrwyddo diwylliant o gydweithio drwy'r grwp Fforwm Lles a Ymgysylltiad Staff sy'n gyrru mentrau lles ac yn rhannu gwybodaeth am ddatblygiadau polisi.**<br><br>➢ **Adborth 360° – 'Myfyrio i Dyfu': Mae'r dull hwn yn annog trafodaeth agored a rhannu profiadau rhwng cymheiriaid, gan gryfhau cysylltiadau a dealltwriaeth o werthoedd craidd yr Awdurdod.**<br><br>➢ **Mentrau Lles a Chyfathrebu: Offer digidol fel PWLS yn galluogi staff i fyfyrio ar eu lles a chyfrannu at drafodaethau cymheiriaid mewn ffordd gadarnhaol.** | | |

(gwyrdd) Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

(melyn) Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

(coch) Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CW 1.3** | | **Datblygu ein gweithlu ymhellach a rhoi pob cyfle i staff ddatblygu i gwrdd â heriau'r dyfodol** | Parhaus Mawrth 2026 | Pen. AD<br>Pen. Gwas. |
| Parhaus | **Ch. 1 - 4** | ➢ **Mae cyfleoedd secondiad yn cael eu hystyried a'u cynnig lle bo hynny'n ymarferol.**<br>➢ **Mae staff yn cael eu hannog a'u cefnogi i ddatblygu eu cymwysterau o fewn eu meysydd arbenigedd priodol a/neu ennill profiad a gwybodaeth trwy ymgymryd â phrosiectau a/neu gyfrifoldebau ychwanegol.**<br>➢ **Rhwng y cyrsiau hyfforddi allanol sydd wedi ei trefnu a'r nifer sydd ar gael dros ELMS (portal dysgu arlein) mae llawer mwy o gyfleon hyfforddiant ar gael i staff. Mae polisi dysgu a datblygu wedi'i greu sy'n amlinellu cefnogaeth yr Awdurdod i staff i wella eu gallu ac yn darparu rhwydweithiau cymorth i'w cynorthwyo.**<br>➢ **Fframwaith Hyfforddiant Gorfodol: Mae modiwlau e-ddysgu dwyieithog bellach ar gael i bob aelod staff trwy ELMS, gan gynnwys Urddas yn y Gwaith, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl, ac ati.**<br>➢ **Hyfforddiant Arweinyddiaeth: Mae nifer o staff wedi cwblhau cyrsiau ILM Lefel 3, 4 a 5, gan gryfhau sgiliau rheoli a chynllunio strategol.**<br>➢ **Cyrsiau Allanol Arbenigol: Mynediad i hyfforddiant technegol ac arbenigol (e.e. Rheoli'n Ddiogel, Gofal Cyntaf, Rheoli Asbestos, NEBOSH).**<br>➢ **Polisi Sabbothol: Yn cynnig cyfle i staff gymryd cyfnod o absenoldeb estynedig ar gyfer datblygiad personol neu broffesiynol, gan gefnogi dysgu gydol oes.**<br>➢ **Polisi Addasiadau Gweithle a Phasbort: Yn galluogi staff i weithio'n effeithiol drwy ddarparu addasiadau rhesymol, gan hyrwyddo cynhwysiant a datblygiad.**<br>➢ **Diwygio'r Broses Asesiad Perfformiad: Bydd y model newydd yn cynnwys ffocws cryfach ar ddatblygiad gyrfa a chyfleoedd hyfforddi fel rhan o'r adolygiadau chwarterol.** | | |

Tud. 33

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CW 1.4** | | **Datblygu a mabwysiadu Strategaeth Systemau Gwybodaeth a Strategaeth Ddigidol i arwain yr Awdurdod i'r dyfodol gyda canllawiau a gweledigaeth o ran ein systemau technegol.** | Parhaus Mawrth 2026 | Cyf. Gwas. Corff.<br>Pen. SG<br>Pen. Cyfathrebu |
| | Ch. 1 - 2 | Sgyrsiau cychwynnol a pharatoi at y gwaith wedi cychwyn ar gyfer drafft erbyn Chwarter 4. | | |
| | **Ch. 3 - 4** | **Mae blaenoriaethau eraill o fewn adrannau Cyfathrebu a Technoleg Gwybodaeth wedi arwain at oedi datblygu a mabwysiadu'r Strategaethau.**<br>**O ganlyniad nid yw'r gwaith wedi symud ymlaen yn unol â'r amserlen wreiddiol. Fodd bynnag, mae'r gwaith yn parhau ac mae'n fwriad cyflwyno'r gwaith i'r Awdurdod ym mis Mehefin 2026.** | | |
| **CW 1.5** | | **Datblygu llawlyfr cyfathrebu mewnol newydd ar gyfer holl staff** | Rhag. 2025 | Cyf. Gwas. Corff.<br>Pen. Cyfathrebu<br>Pen. SG<br>Pen. GCaG |
| | Ch. 1 - 2 | Gwaith wedi ei raglennu at Chwarter 4. | | |
| | Ch. 3 | - | | |
| | **Ch. 4** | **Mae llithriant wedi bod ar y gwaith ond disgwylir bydd yr adroddiad a'r llawlyfr yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod mis Medi.** | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CW 2 | DATBLYGU A HYRWYDDO ARFER GORAU |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| CW 2.1 | Gwyrdd<br>Ch. 1- 4 | **Rhannu cyflawniadau prosiectau Datgarboneiddio trwy gyllid TCLIC gyda chyrff eraill o fewn tirweddau dynodedig a'r ystâd gyhoeddus ehangach**<br>**Mae'r gwaith yn mynd rhagddo. Mae Pennaeth Eiddo a Swyddog Carbon yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd Grŵp Swyddogion Datgarboneiddio Gogledd Cymru ac Ystadau Cymru ac yn adnabod cyfleoedd i rannu gwybodaeth a chydweithio gyda phartneriaid.** | Mawrth 2026 | Cyf. Gwas. Corff.<br>Pen. Eiddo |
| CW 2.2 | Gwyrdd<br>Ch. 1-2 | **Gwella Ymgysylltiad Staff a Mentrau Lles. Fel rhan o'n hymrwymiad i feithrin amgylchedd gweithle cefnogol a ffyniannus, rydym yn bwriadu rhoi sawl strategaeth ar waith i sicrhau llesiant ein gweithwyr a hyrwyddo diwylliant o gysylltedd a lles:**<br>➢ Ymchwilio a Gweithredu Arferion Gorau: byddwn yn ymchwilio ac yn mabwysiadu arferion gorau o barciau ac awdurdodau eraill mewn perthynas â chynnal gwiriadau gwyliadwriaeth iechyd i staff er mwyn blaenoriaethau eu hiechyd a diogelwch<br>➢ Dadansoddiad o Absenoldebau Salwch: Deall y ffactorau sy'n cyfrannu at absenoldeb salwch i nodi tueddiadau a gweithredu ymyriadau wedi'u targedu i hyrwyddo lles cyffredinol a lleihau absenoldeb<br>➢ Mwy o Rwydweithio ymhlith Staff: Meithrin ymdeimlad o gymuned a chyfeillgarwch ymhlith ein gweithwyr trwy drefnu diwrnodau cyfarfod staff amlach, gan gynnwys cinio a digwyddiadau awyr agored, i ddarparu cyfleoedd ar gyfer ymlacio, cymdeithasu ac adnewyddu<br>Fforwm Ymgysylltiad a Lles Staff: Yn parhau i yrru mentrau newydd i gefnogi lles, gan gynnwys:<br>➢ Pecynnau mislif am ddim mewn holl doiledau'r Awdurdod.<br>➢ Parcio am ddim i staff yn eu hamser hamdden, i annog defnydd o'r parc ar gyfer iechyd corfforol a meddyliol.<br>➢ Wal Diolchgarwch yn y swyddfeydd i rannu negeseuon cadarnhaol ac annog diwylliant cydnabyddiaeth. | Mawrth 2026 | Pen. AD |



Gwyrdd: Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen. Melyn: Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2026. Coch: Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

| | | |
|---|---|---|
| | | ➢ Siart Gwirio Lliw Wrin: Wedi'i osod mewn toiledau i hyrwyddo ymwybyddiaeth o hydradiad a lles corfforol.<br>➢ PWLS – Teclyn Lles Digidol: Yn galluogi staff i wirio eu lles emosiynol yn rheolaidd trwy sgrin eu cyfrifiadur. Mae data dienw yn helpu'r Awdurdod i fonitro tueddiadau ac addasu strategaethau lles.<br>➢ Polisi Cam-drin Domestig: Yn darparu cefnogaeth a chanllawiau clir i staff sy'n profi cam-drin, gan gryfhau diwylliant diogelwch a chydraddoldeb.<br>➢ Gwerthoedd Craidd APCE: Lansiwyd i feithrin diwylliant parch, cydweithio a chymreictod, gan gryfhau cysylltedd a lles yn y gweithle. |
| | Ch. 3 | Fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i feithrin gweithle cefnogol, iach a chysylltiedig, mae amrywiaeth o fentrau wedi'u datblygu yn ystod Ch. 3 i gryfhau lles ac ymgysylliad staff ar draws yr Awdurdod.<br><br><u>Gwyliadwriaeth Iechyd:</u><br>Cynigwyd clinig gwyliadwyriaeth iechyd cyffredinol i holl staff yr Awdurdod ym mis Rhagfyr a darparwyd dros gyfnod o dri diwrnod gan nyrsys iechyd galwedigaethol hyfforddedig. Roedd y clinig yn cynnwys<br>• Gwiriadau pwysau gwaed a phwls<br>• Profi BMI a cholesterol<br>• Sesiwn sgrinio ac arwyddo Iechyd Meddwl<br>Dangosodd adborth werthfawrogiad staff am hygyrchedd a natur ataliol y gefnogaeth hon.<br><br><u>Dadansoddiad Absenoldeb Salwch:</u><br>Mae adolygiad parhaus o ddata absenoldeb salwch ar y gweill i nodi tueddiadau sylfaehol, themâu cylchol a meysydd pryder sy'n dod i'r amlwg. Bydd y dadansoddiad hwn yn llwyio ymyriad wedi'u targedau sydd â'r nod o fynd i'r afael â gwraidd achosion absenoldeb.<br><br><u>Cynyddu Cysylltedd a Llesiant Staff Gweithgareddau:</u><br>Mae sawl gweithgaredd wedi'u cyflwyno neu wedi'u parhau i annog ymdeimlad o gymuned gweithle a chefnogi iechyd meddwl cadarnhaol. Mae'r rhain yn cynnwys:<br>• Sesiynau ioga rheolaidd a gynhelir yn y swyddfa ar gyfer ymlacio, ymwybyddiaeth ofalgar a lleihau straen<br>• Teithiau cerdded amser cinio i hyrwyddo awyr iach amser mewn natur a sgyrsiau anffurfiol ymhlith cydweithwyr |



Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

| | | |
|---|---|---|
| | | • Clwb Llyfrau, sy'n cynnig cyfle gwerthfawr ar gyfer cysylltu, myfyrio a dysgu ar y cyd, gan helpu i gryfhau perthnasoedd, sbarduno trafodaeth, a chefnogi lles cyffredinol staff.<br>Mae'r gweithgareddau hyn yn parhau i atgyfnerthu ymrwymiad yr Awdurdod i adeiladu gweithle lle mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu cefnogi, a'u cysylltu. |
| | **Ch. 4** | **Yn ystod Chwarter 4, y ffocws oedd cryfhau dulliau ataliol o ran cynaliadwyedd y gweithlu, lles ac ymgysylltiad staff. Mae rhaglen strwythuredig o gyfarfodydd cynllunio gweithlu chwarterol gyda Phenaethiaid Gwasanaeth wedi'i rhoi ar waith. Mae hyn yn galluogi adnabod unrhyw lwyth gwaith, heriau capasiti, bylchau sgiliau a risgiau olyniaeth yn gynharach, gan gefnogi rheoli galw mwy rhagweithiol a helpu i leihau'r pwysau ar staff a gwasanaethau. Gwnaed cynnydd hefyd o ran adolygu'r broses gwerthuso staff, gyda'r cynllun cychwynnol, diwygedig wedi'i gwmpasu gan yr adran TG. Bydd y dull newydd yn canolbwyntio ar sgyrsiau chwarterol (yn hytrach na blynyddol) rhwng rheolwyr a gweithwyr. Bwriad hyn yw galluogi adnabod unrhyw bryderon lles a llwyth gwaith yn hytrach, gwella ymgysylltiad staff, a chryfhau datblygiad, cynllunio olyniaeth a chadw staff yn y tymor hir.** |



Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CW 3 | GWEITHIO'N EFFEITHIOL MEWN PARTNERIAETH |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| CW 3.1 | Ch. 1 - 4 | **Adolygu Cynllun Eryri i adlewyrchu blaenoriaethau Adroddiad Cyflwr y Parc**<br>**Cyhoeddwyd Adroddiad Cyflwr y Parc ym mis Ebrill 2025 ac mae'r broses ar gyfer adolygu Cynllun Eryri wedi dechrau a bydd yn parhau drwy 2026.** | Mehefin 2026 | Cyf. CaPh<br>Pen. Partner. |
| CW 3.2 | Ch. 1- 4 | **Cefnogi gwaith y Bartneriaeth Tirweddau Dynodedig Cenedlaethol (NDLP) yng Nghymru**<br>**Mae ymarfer da a gwybodaeth am gyrchu grantiau yn cael eu rhannu rhwng aelodau'r Bartneriaeth. Rhoddir ystyriaeth i anghenion sgiliau ar draws yr 8 tirwedd.** | Parhaus | Prif Weithredwr |
| CW 3.3 | Ch. 1- 4 | **Parhau i gefnogi gwaith Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ledled y DU, y Bartneriaeth Parciau Cenedlaethol (PPC), Sefydliad Parciau Cenedlaethol a mentrau cydweithredol cysylltiedig eraill**<br>**Bydd y PW yn mynychu'r holl gyfarfodydd yn ôl yr angen. Mae cyfleoedd cydweithredol yn cael eu datblygu gan wahanol wasanaethau'r Awdurdod wrth i gyfleoedd godi.** | Parhaus | PW |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CW 3.4** | Ch. 1- 4 | **Cyfrannu at ffurfio a datblygu swyddogaeth cynllunio Cyd Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru**<br><br>**Mae'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwer yn parhau i fynychu cyfarfodydd yr CBC. Mae'r Cadeirydd wedi ei gyf-ethol i eistedd ar Is-bwyllgor Economi a Lles a swyddogion APCEryri wedi eu cyf-hethol ar Is-Bwyllgor Strategol Trafnidiaeth Gogledd Cymru, a'r Is-bwyllgor Cynllunio.** | Parhaus | PW<br>Cyf. CaPh<br>Pen. Partn. |
| **CW 3.5** | Ch. 1- 4 | **Cyhoeddi a chyfathrebu'r data wedi'i gasglu o dan Adroddiad Cyflwr y Parc**<br><br>**Lansiwyd meicrowefan ar gyfer rhannau data Adroddiad Cyflwr y Parc. Bydd trafodaethau yn seiliedig ar ganfyddiadau'r Adroddiad wrth adolygu Cynllun Rheolaeth y Parc Cenedlaethol, Cynllun Eryri, trwy gydol 2025 ac i mewn i 2026.** | Gwanwyn 2025 | Cyf. CaPh<br>Pen. Partneriaethau |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CW 4 | MODERNEIDDIO TREFNIADAU LLYWODRAETHU |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CW 4.1** | | **Monitro presenoldeb Aelodau yng nghyfarfodydd yr Awdurdod** | Mawrth 2026 | Cyf. Gwas, Corff. Swyddog Gwas. Democrataidd |
| | Ch. 1- 2 | 3 x cyfarfod Awdurdod Llawn – Ebrill, Mehefin a Medi – Presenoldeb: 81.7%<br>4 x cyfarfod Pwyllgor Cynllunio – Ebrill, Mai, Mehefin, medi – Presenoldeb: 78%<br>1 x cyfarfod Pwyllgor Perfformiad ac Adnodau – Gorffennaf – Presenoldeb: 100% | | |
| | Ch. 3 | 1 x cyfarfod Awdurdod Llawn – Rhagfyr – Presenoldeb: 100%<br>2 x cyfarfod Pwyllgor Cynllunio – Hydref, Tachwedd – Presenoldeb: 89%<br>1 x cyfarfod Pwyllgor Perfformiad ac Adnodau – Tachwedd – Presenoldeb: 72% | | |
| | **Ch. 4** | **1 x cyfarfod Awdurdod Llawn – Rhagfyr – Presenoldeb: 94%**<br>**3 x cyfarfod Pwyllgor Cynllunio – Ionawr, Chwefror, Mawrth – Presenoldeb: 81%**<br>**1 x cyfarfod Pwyllgor Perfformiad ac Adnodau – Mawrth – Presenoldeb: 89%** | | |



Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CW 4.2** | | **Cefnogi a datblygu Aelodau'r Awdurdod drwy hyfforddiant a datblygu**<br>➢ **Parhau i gefnogi LlC i fireinio a darparu rhaglen hyfforddiant ar egwyddorion arfer llywodraethu da ac atebolrwydd i Aelodau'r Awdurdod** | Parhaus | Cyf. Gwas. Corfforaethol |
| | Ch. 1- 2 | ➢ Cynhaliwyd sesiwn anwytho aelodau newydd wedi'i hethol gan Lywodraeth Cymru yn ystod mis Gorffennaf ynghyd a sesiynau hyfforddiant megis Cynllunio a Llywodraethu.<br>➢ Trefnwyd diwrnod datblygu aelodau ym mis Mehefin i Ddolgellau ar gyfer Cynllun Treftadaeth Treflun Dolgellau.<br>➢ Mae trefniadau ar weill i gynnal Seminar Aelodau Parciau Cenedlaethol Cymru yn Eryri yn gynnar yn yr Hydref. | | |
| | Ch. 3 | ➢ Mynychoedd dwy aelod cwrs anwytho aelodau newydd Parciau Cenedlaethol y DU yn Northumberland mis Tachwedd.<br>➢ Cynhaliwyd Seminar Aelodau Parciau Cenedlaethol Cymru yn Eryri yn ystod yr Hydref pryd daeth Aelodau'r tri PC yng Nghymru ynghyd i dderbyn cyflwyniadau gan siaradwyr allanol ar y testun "Adfer Natur : Hau Hadau Newid". Cafwyd cyfle iddynt fynd ar wahanol ymweliadau safle a chyfle i rwydweithio. | | |
| | **Ch. 4** | **Cynhaliwyd Diwrnod Datblygu Aelodau ddydd Gwener 13eg o Fawrth ym Mhlas Tan y Bwlch lle cafodd yr Aelodau amryw o gyflwyniadau ar opsiynau ar gyfer y safle gan swyddogion a Phensaer Arweiniol y Tim Dylunio a cyfle i thrafod y cynlluniau a'r opsiynau. Cynhelir y Diwrnod Datblygu Aelodau nesaf ym mis Mehefin.** | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CW 5 | CYNNAL A GWELLA DEALLTWRIAETH A CHEFNOGAETTH CYMUNEDAU LLEOL I WAITH Y PARC CENEDLAETHOL |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| CW 5.1 | | **Datblygu cyfleoedd gwirfoddoli pellach yn Yr Ysgwrn i wella'r garfan bresennol o wirfoddolwyr, gan geisio recriwtio pobl ifanc sy'n awyddus i ddatblygu sgiliau newydd ac ennill profiad, gan ganolbwyntio ar ddarparu gweithgareddau gan wirfoddolwyr yn ogystal â rolau mwy traddodiadol fel tywyswyr ymwelwyr.** | Parhaus | Cyf. Rheoli Tir<br>Pen. Treftadaeth Ddiwylliannol + |
| | Ch. 1- 4 | **Mae gwirfoddolwyr yn parhau i fod yn greiddiol i fodel busnes Yr Ysgwrn ac yn allweddol i gynnal sawl agwedd o weithgaredd, e.e. ymweliadau grwp a gan ysgolion ac mae nifer o wirfoddolwyr yn gwirfoddoli yn rheolaidd.**<br>**Mae denu rhagor o wirfoddolwyr cyson yn parhau yn her. Llwyddwyd i ddenu 3 gwirfoddolwr newydd i wirfoddoli yng ngerddi'r Ysgwrn eleni. Cynhaliwyd apel i ddenu gwirfoddolwyr newydd ar gyfer 2026 dros y gaeaf a llwyddwyd i ddenu 3 gwirfoddolwr pellach.** | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CW 5.2** | | **Adolygu a monitro'r mesurau yn y Strategaeth Ymgysylltu drwy'r adroddiad blynyddol ar y Dangosyddion Perfformiad Allweddol i sicrhau bod cymunedau lleol a rhanddeiliaid yn deall ac yn ymwybodol o waith yr Awdurdod** | Parhaus | Cyf. Gwas. Corff.<br>Pen. Cyfathrebu |
| | Ch. 1- 2 | Dim cynnydd hyd yn hyn ond cyfarfodydd wedi eu pennu er mwyn ei gyflawni erbyn chwarter 4. | | |
| | Ch. 3 | Bydd Pennaeth Cyfathrebu'n cyflwyno adroddiad i Bwyllgor Perfformiad ac Adnoddau mis Mawrth | | |
| | Ch. 4 | **Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau yn ystod Chwarter 4, roedd ystadegau digidol yn uwch ar y cyfan nag yn 2024/25.** | | |
| **CW 5.3** | | **Ymgysylltu â chymunedau a'u hysbysu trwy gyfarfodydd â Chynghorau Cymuned** | Parhaus | Cyf. CaP<br>Pen. Part.<br>Pen. Polisi |
| | Ch. 1- 2 | Mae Fforwm Cymunedau Eryri wedi'i sefydlu i ddiweddaru a chynnwys Cynghorau Tref a Chymuned yn y broses adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol. Bydd materion cyffredinol eraill hefyd yn cael eu codi a'u trafod yn ôl yr angen. Mae fformat ymgysylltu tebyg yn cael ei ystyried drwy gydol adolygiad o'r CDLl. Mae swyddogion wedi rhoi cyflwyniad i aelodau Fforwm Cymunedau Eryri mis Mai ar Gytundeb Cyflawni y CDLl, Adolygiad o Gynllun Eryri a Ffermio Bro. | | |
| | **Ch. 3 - 4** | **Mae Gwŷl Fach Eryri wedi bod yn fodel newydd a llwyddiannus o ymgysylltu gyda chymunedau'r Parc yn ystod 2025.**<br>**Holiadur Trigolion lleol wedi ei baratoi i dderbyn mewnbwn cymunedau ar y prif faterioni fwydo i mewn i'r brses o baratoi y Cynllun Datblygu Lleol newydd. Wedi ei rannu gyda Cynghorau Cymuned a wedi gwneud mwy  o ddefnydd o'r cyfryngau cymdeithasol.** | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CW 5.4** | Ch. 1- 4 | **Adfer cyswllt â pherchnogion tir a phartïon â diddordeb trwy gyfarfodydd Fforymau Mynediad Parc Cenedlaethol Eryri**<br><br>**Cynhelir cyswllt parhaus trwy gyfarfodydd Fforymau Mynediad y De a'r Gogledd a gynhelir dair gwaith y flwyddyn mewn lleoliadau yng ngogledd a de'r PC. Cynhelir y cyfarfodydd yn y gwanwyn yr haf a'r gaeaf.** | Parhaus | Cyf. CaP<br>Pen. Part.<br>Rheolwr<br>Mynediad |
| **CW 5.5**<br><br>Cyfarfod Blynyddol | | **Parhau i gysylltu â'r gymuned ffermio ac undebau ffermio trwy gyfarfodydd y Grŵp Cyswllt Amaethyddol**<br><br>**Cynhaliwyd cyfarfod o'r Grŵp Cyswlt Amaethyddol ym mis Tachwedd 2025. Mae hwn yn gyfarfod blynyddol o'r Undebau Ffermio sy'n gwasanaethu Eryri ac mae'n cynnwys yr Undebau a rhai o'u haelodau lleol (10). Datblygir yr agenda gan swyddogion ac Undebau i adlewyrchu materion a diweddariadau cyfredol ac mae'n caniatau i'r Awdurdod a'r Undebau gyfleu gwaith, pwysau a materion cyfredol yn lleol ac yn Genedlaethol gan sicrhau dealltwriaeth a gallu i chwilio am atebion mewn partneriaeth.** | Cyfarfod Blynyddol | Cyf. Rheoli Tir<br>Pennaeth CCA |



Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CW 5.6** | Ch. 1- 2 | **Cynnwys ein cymunedau lleol ym mhob agwedd bwysig o waith yr Awdurdod e.e. cyflwyno Cynllun Eryri, llunio Canllawiau Cynllunio Atodol, Strategaethau Ymgysylltu wrth ddatblygu prosiectau newydd ayb.**<br>➢ **Datblygu Strategaeth Ymgysylltu Cymunedol ar gyfer yr Awdurdod**<br>➢ Bydd Strategaeth Ymgysylltu Cymunedol yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod cyn ddiwedd 2025.<br>➢ Mae trefniadau ar weill i gynnal Gwyl Fach Eryri fydd yn dechrau'r broses o gynnwys y cymunedau yn adolygiad y Cynllun Rheoli.<br>➢ Mae Fforwm Cymunedau Eryri wedi'i sefydlu i ddiweddaru a chynnwys Cynghorau Tref a Chymuned yn y broses adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae fformat ymgysylltu tebyg yn cael ei ystyried drwy gydol adolygiad o'r CDLl. Bydd materion cyffredinol eraill yn cael eu codi a'u trafod yn ôl yr angen.<br>➢ Mae Swyddogion wedi rhoi cyflwyniad i aelodau Fforwm Cymunedau Eryri ynglyn a Cytundeb Cyflawni y CDLl, Adolygiad o Gynllun Eryri a Ffermio Bro yn ystod Mai 2025.<br>➢ Paratowyd Cynllun Cynnwys Cymunedau fel rhan o Gytundeb Cyflawni ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol yn gosod allan sut a pryd gall cymunedau lleol gyfrannu yn ystod y broses o baratoi'r Cynllun.<br>➢ Bu ymgynghoriad ar gynnwys y Cynllun Cynnwys Cymunedau rhwng yr 16eg o Fai 2025 a'r 27ain o Fehefin 2025. Yn dilyn yr ymgynghoriad cafodd ei addasu ai gyflwyno i Bwyllgor Cynllunio a Mynediad yr Awdurdod Medi 2025 a'i gyflwyno i Llywodraeth Cymru i gael ei gytuno.<br>Mae'r Tim Polisi Cynllunio yn bwriadu mynychu Gwyl Fach Eryri yn Dolgellau a Betws y Coed yn ystod yr Hydref i ddechrau ar y broses o dderbyn mewnbwn trigolion lleol yn ogystal a paratoi holiadur trigolion lleol i Gynhgorau Cymuned ac ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol.<br>➢ | Parhaus<br><br>Gwanwyn 2025 | Cyf. CaP<br>Pen. Partn.<br>Pen.PC<br>Swyddog Ymg. Cymunedol |
| | **Ch. 3 - 4** | **Mae Strategaeth Ymgysylltu Cymunedol wedi'i datblygu gan y Swyddog Ymgysylltu'n Cymunedol a fydd yn mynd gerbron yr Awdurdod ym mis Ebrill 2026.** | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CW 6 | CYDBWYSO ADNODDAU AC YMDRECHION YR AWDURDOD |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CW 6.1** | | **Adolygu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig er mwyn ymateb i'r sefyllfa ariannol**<br>**Adrodd i Weithgor:**<br>**Mabwysiadau gan:** | 06.25.<br>APCE Medi | PW<br>Pen. Cyllid |
| | **Ch. 1- 2** | **Adroddwyd i Weithgor Aelodau a mabwysiadwyd yn ystod cyfarfod Awdurdod Medi.** | | |
| **CW 6.2** | | **Yn amodol ar benderfyniad(au) terfynol yr Awdurdod 30.04.25. ar ddyfodol Plas Tan y Bwlch, adrodd ar gynnydd unrhyw benderfyniad(au)** | Mawrth 2026 | PW<br>Cyf. Rheoli Tir |
| | Ch. 1- 2 | Yn unol â phenderfyniad yr Awdurdod, mae Ymgynghorwyr allanol wedi'u comisiynu i baratoi cais yr Awdurdod i'r Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol – byddwn yn anelu i gyflwyno'r cais erbyn Chwefror 2026. | | |
| | Ch. 3 | Bydd Aelodau yn derbyn diweddariad llafar ar y prosiect datblygu yng nghyfarfod Chwefror y Gweithgor Aelodau. | | |
| | **Ch. 4** | **Mae gwaith ymgynghorwyr allanol yn parhau, a rhoddir diweddariadau rheolaidd i Aelodau a staff.** | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CW 6.3** | | **Casglu data yn ystod tymor 2025 ar gyfer hysbysu adolygiad ffioedd meysydd parcio yr Awdurdod ac, os yn berthnasol, symud ymlaen â'r gwaith paratoi ar gyfer addasu tariff ac adolygu ffioedd yn unol â darparwyr meysydd parcio eraill yn yr ardal** | Mawrth 2026 | Cyf. Gwas. Corff. Pen. Eiddo |
| | Ch. 1- 2 | Gwaith casglu data wedi ei gwblhau ac adroddiad wedi ei chyflwyno i Weithgor Aelodau. Bydd penderfyniad yn cael ei wneud gan yr Awdurdod mis Rhagfyr. | | |
| | **Ch. 3** | **Yn ystod cyfarfod o'r Awdurdod yn Rhagfyr, penderfynodd yr Awdurdod i adolygu'r ffioedd yn unol â darparwyr meysydd parcio eraill yn yr ardal.** | | |
| **CW 6.4** | | **Symud ymlaen i adolygu potensial masnachol Canolfannau Gwybodaeth yr Awdurdod, gan gynnyws:**<br>➢ Mabwysiadu cynllun ar gyfer ail ddatlygiad Canolfan Betws y Coed<br>➢ Cyflwyno cais am gefnogaeth ariannol i Croeso Cymru<br>➢ Trwy fuddsoddi yn y siop, casglu data yn ystod tymor 2025 ar gyfer adolygu defnydd Canofan Pen y Pass | Mawrth 2026 | Cyf. Gwas. Corff. Pen. Cyfathrebu Rheolwr Twristiaeth Gynaliadwy |
| | Ch. 1- 2 | ➢ Mae Donald Insall Associates yn llunio cynlluniau ar gyfer safle'r Ganolfan ym Metws y Coed.<br>➢ Derbyniwyd cefnogaeth ariannol ar gyfer gwaith allanol gan Croeso Cymru.<br>➢ Mae cynlluniau ar y gweill i uwchraddio darpariaeth Pen y Pass yn ystod Gaeaf 2025 er mwyn uchafu elw. | | |
| | Ch. 3 | Mae cynlluniau Betws y Coed wedi cyrraedd cyfnod RIBA 2. Bydd saib yn y prosiect tan y gwanwyn pan fyddwn yn ymgysylltu a'r gymuned leol ac yn symud drwy'r broses gynllunio. Mae gwaith datblygu Pen y Pass yn cael ei wireddu yn ystod chwarter 4. | | |
| | **Ch. 4** | **Mae Donald Insall Associates wedi cwblhau eu gwaith ar dirlunio allanol canolfan Betws y Coed ac mae'r gwaith wedi mynd rhagddo i ddatblygu ardal fanwerthu canolfan Pen y Pass mewn pryd ar gyfer tymor ymwelwyr 2026. Mae swyddogion mewn cysylltiad â Croeso Cymru ynghylch cyflwyno cais am gymorth ariannol ar gyfer cam cychwynnol yr ailddatblygiad yng nghanolfan Betws y Coed. Bydd y gwaith yn parhau yn 2026.** | | |



Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

## CANLYNIADAU:

**FFYRDD CYDNERTH O WEITHIO: Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan llesiant pan:**

**CW1, 2:** Rydym wedi buddsoddi yn ein staff i sicrhau bod ganddynt yr arbenigedd a'r sgiliau sydd eu hangen i gwrdd â heriau presennol ac yn y dyfodol.

**CW2, 3:** Mae Cynllun Eryri yn cael ei weithredu'n llwyddiannus.

**CW2, 4:** Rydym wedi cynnal adolygiad o'r trefniadau llywodraethu presennol i sicrhau bod yr Awdurdod yn parhau i weithredu'n effeithiol ac y bydd yn ddigon addasadwy i gwrdd â heriau yn y dyfodol. Monitro unrhyw newidiadau i sicrhau eu bod yn gweithio yn ôl y bwriad.

**CW5:** Mae cyfleoedd i gymunedau lleol, ysgolion, grwpiau anodd eu cyrraedd a difreintiedig i ymgysylltu ag amgylchedd a threftadaeth ddiwylliannol Eryri, a dysgu amdano, a sut y gallant helpu i ofalu amdano wedi cael eu nodi. ***(yn unol â Chynllun Eryri Allbwn A5.1)***

**CW5:** Rydym wedi cefnogi, hyrwyddo a darparu cyfleoedd gwirfoddoli sy'n helpu i amddiffyn a gwella'r amgylchedd a threftadaeth ddiwylliannol (***yn unol â Chynllun Eryri Allbwn A5.2***)

**CW5:** Byddwn yn cynyddu cyfleoedd ar gyfer deialog rhwng Awdurdod y Parc Cenedlaethol a sefydliadau cymunedol (***yn unol â Chynllun Eryri Allbwn C4.1)***

***CW6:** Byddwn yn cyflawni o dewn y gyllideb a neilltuwyd a defnyddir cronfeydd wrth gefn yr Awdurdod mewn modd cynaliadwy.

*Amcan newydd Mawrth 2024.

Tud. 48

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2026

# LLYTHYR CYLCH GWAITH, LLYWODRAETH CYMRU: YR AMGYLCHEDD

| **Amcanion blaenoriaeth a chamau gweithredu LlC ar gyfer APCE** | **Prosiect/ Gwaith APCE** |
|---|---|
| Cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i greu economi ddi-garbon drwy weithio i fod yn garbon niwtral erbyn 2030 drwy'ch gwaith bob dydd ac amrywiaeth o ymyriadau datgarboneiddio | **AC 2.1. AC 2.2 AC 2.3 AC 2.4** |
| Caefnogi'r symudiad oddi wrth geir preifat i drafnidiaeth fwy cynaliadwy ar gyfer y rhan fwyaf o deithiau staff, ymwelwyr a defnyddwyr y gwasanaeth er mwyn cyrraedd y targed o 45% o deithiau'n defnyddio dulliau cynaliadwy erbyn 2040 | **CC 3.3**<br>**CW 2.3** |
| Rhoi help rhagweithiol i ddal a storio carbon gan gynnwys drwy helpu i greu coetiroedd lle bo hynny'n briodol a chefnogi'n not o gryfhau'r mesurau i ddiogelu coetiroedd hynafol, a chynyddu'r cysylltiad â rhaglen y Goedwig Genedlaethol | **AC 5.5 (PAWS)** |
| Cymryd camau i wella cysylltedd, cyflwr, maint ac amrywiaeth ecosystemau, a chynnal a gwella rhwydweithiau ecolegol cydnerth, gan ymgorffori'r gwaith sydd ei angen i daro'r targedau cenedlaethol sy'n deillio o'r ymrwymiad 30x30 | **AC 5.1 - AC 5.5** |
| Cefnogi'r rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawnogydd (NPAP) i adfer, gwella a chynnal rhwydweithiau ecolegol cydnerth, myned i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a rheoli dŵr. Dylech weithio gyda CNC i daclo themâu'r NPAP, gan gynnwys y camau blaenoriaeth a'r themâu trawsbynciol | **AC 2.4 AC 5.1 AC 5.4** |
| Cefnogi ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i sefydlu cynllun â thargedau i helpu i adfer cynefinoedd morwellt a morfeydd heli ar hyd ein harfordir, helpu i wireddu uchelgeisiau Fframwaith Rheoli'r Rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig a chyfrannu at ddatblygu polisi ar garbon glas | **AC 5.1** |
| Cronfa gyfalaf tirweddau cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy, a chynlluniau eraill Llywodraeth Cymru i gyflawni nodau natur a datgarboneiddio | **CW 3.2** |
| Cymryd rhan weithredol mewn Cynlluniau Ynni Lleol i helpu i drawsnewid y system ynni sydd ei hangen i gyrraedd Sero Net, gan sicrhau mwy o fanteisio i'ch cymunedau | |
| Cymryd rhan gadarnhaol mewn mentrau i hyrwyddo ailddefnyddio a thrwsio, i gynyddu'r economi gylchol, a lleihau'r niwed a achosir i'r amgylchedd gan blastig untro drwy annog pobl i beidio â'i ddefnyddio lle gellir | **AC 1.10** |

## LLYTHYR CYLCH GWAITH LLYWODRAETH CYMRU: POBL A LLEOEDD

| **Amcanion blaenoriaeth a chamau gweithredu LlC ar gyfer APCE** | **Prosiect/ Gwaith APCE** |
|---|---|
| Cyfrannu at gyd-lunio'r Cynllun Ffermio cynaliadwy ac at ei roi ar waith | **AC 4.1** |
| Cyfrannu, lle bo'n briodol, at ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i sefydlu Strategaeth Bwyd Cymunedol i annog cynhyrchu a chyflenwi bwyd lleol | **-** |
| Gweithio gydag Awdurdodau Tai, Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol a datblygwyr preifat, i ddatblygu atebion arloesol i broblemau tai difrifol, a chyfrannu at Gynllun Tai Cymunedau Cymraeg | **CC 1.4** |
| Gweithio gyda phartneriaid fel Awdurdodau Lleol a Thrafnidiaeth Cymru i gael hyd i ffyrdd i leihau pwysau ymwelwyr ar y seilwaith lleol, gan gynnwys systemau trafnidiaeth mwy cynaliadwy, ac ymgyrchoedd cyfathrebu i sicrhau hamddena cyfrifol. Rhaid cofio yr un pryd am bwysigrwydd twristiaeth i'n heconomi, a'ch rôl allweddol o ran diwallu anghenion ymwelwyr. Dylech gael eich arwain gan argymhellion a chanfyddiadau'r gwaith diweddar gan Archwilio Cymru ar dwristiaeth gynaliadwy | **AC 1.2 1.4 1.5 1.6 1.9**<br>**CC 3.1 – 3.5**<br>**CW 5.3** |
| Helpu i ddynodi dyfroedd ymdrochi ar y tir a defnyddio systemau Draenio Cynaliadwy | **-** |
| Bod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r fframwaith Cymru gyfan arfaethedig ar gyfer rhagnodi cymdeithasol | **-** |
| Cydweithio â phartneriaid allweddol i gyflawni yn unol â *Blaenoriaethau ar gyfer Amgylchedd Hanesyddol Cymru* i ddiogelu a dehongli'r amgylchedd hanesyddol a threftadaeth ddiwylliannol | **AC 3.1 – AC 3.9** |
| Datblygu polisïau sy'n sicrhau bod y Gymraeg yn cael ffynnu, gan gyflawni *Cymraeg 2050: Ein cynllun ar gyfer 2021 i 2026* | **CC 4.1 – CC 4.7** |
| Cynyddu cyfleoedd i grwpiau agored i niwed, grwpiau difreintiedig a chymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol i elwa ar y tirweddau rydych chi'n eu rheoli | **CC 1.2 1.3** |
| Cynyddu'r hyfforddiant sgiliau, prentisiaethau a chyfleoedd gwirfoddoli. | **CC 1.2 1.3 CC 2.1 2.2**<br>**CW 5.1** |

## LLYTHYR CYLCH GWAITH LLYWODRAETH CYMRU: LLYWODRAETHU A CHYNLLUNIO

| **Amcanion blaenoriaeth a chamau gweithredu LlC ar gyfer APCE** | **Prosiect/ Gwaith APCE** |
|---|---|
| Cymryd rhan weithredol mewn rhaglen wella chefnogi gan TLlLC o dan arweiniad y sector | - |
| Cyfrannu at lunio pecyn hyfforddi newydd ar gyfer aelodau APCau a datblygu dull cyd gysylltiedig o hyfforddi APCau i rannu arfer gorau | **CW 4** |
| Hyrwyddo protocol newydd awdurdodau Lleol ar gyfer penodi aelodau APCau, cyn, yn ystod ac ar ôl etholiadau lleol, gan bwysleisio profiad a diddordeb uwchlaw ystyriaeth gwleidyddol cyn belled ag y bo modd o fewn y ddeddfwriaeth bresennol | **CW 4** |
| Croesawu'n llawn system flynyddol gryfach ar gyfer adrodd ar berfformiad yr aelodau a benodir gan Lywodraeth Cymru, ac ymchwilio sut i'w hestyn i benodiadau'r Awdurdodau Lleol | **CW 4** |
| Ymdrechu i sicrhau rhagoriaeth mewn llywodraethu gan gynnwys rhannu arfer gorau rhwng APCau, gwneud y gorau o'r arweinydd Strategol Cynhwysiant, Amrywiaeth a Llywodraethu newydd | **CW 4** |
| Cyfrannu at lunio polisi cynllunio lleol a rhanbarthol, gan gynnwys drwy strwythur y Cyd Bwyllgor Corfforedig (CJC) a thrwy gydweithio ar lefel rhanbarthol a chenedlaethol i roi polisïau Cymru'r Dyfodol ar waith (gan gyfeirio'n benodol at Bolisi 9 a'r gofyn i gynnal rhwydweithiau ecolegol cydnerth a seilwaith gwyrdd) | **CW 3.4** |

## LLYTHYR CYLCH GWAITH LLYWODRAETH CYMRU: CYDWEITHIO

| **Amcanion blaenoriaeth a chamau gweithredu LlC ar gyfer APCE (a Tirweddau Dynodedig Cymru (TDC))** | **Prosiect/ Gwaith APCE** |
|---|---|
| Cefnogi Tirweddau Cymru (y Bartneriaeth Tirweddau Dynodedig Cenedlaethol) i ddatblygu ei huchelgais, sicrhau bod cydweithio'n digwydd ar bob lefel o fewn APCau ac AHNE a helpu i greu gweledigaeth strategol ar gyfer gweithredu ar gyfer 2022-24 | **CW 3.2 CW 3.3** |
| Rhoi cytundeb teiran trawsnewidiol rhwng yr APCau ar waith i gynnal tîm o Gydgysylltwyr Tirweddau Strategol a ariennir gan Lywodraeth Cymru i weithio ar draws ein Parciau a'n AHNE, a sicrhau bod amcanion ac allbynnau'r swyddi hyn yn cael eu cynnwys o fewn trefniadau monitro ehangach yr APCau a TDC:<br>i. **Arweinydd Strategol Adfer Natur a Dal a Storio Carbon,** i ymdrin â'r holl goetiroedd a chynefinoedd heb eu gwella a'u bioamrywiaeth, gan gynnwys rhywogaethau goresgynnol, a chyfleoedd i leihau allyriadau carbon<br>ii. **Arweinydd Strategol Adfer, Natur a Rheoli Maetholion**, i ymdrin â rheoli pridd cynhyrchu, problemau i afonydd a'r môr oherwydd gwaith ar y tir, ewtroffigedd yn llynnoedd yr ucheldir, bioddiogelu dŵr rhag dŵr ffo amaethyddol, a chefnogi datblygiad byrddau Rheoli Maetholion.<br>Bydd y ddwy swydd yn helpu i:<br>• Ddatblygu cynllun strategol i ymateb i'r argyfyngau natur a hinsawdd;<br>• Cefnogi datblygu ffyrdd i Dirweddau Dynodedig allu addasu i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd;<br>• Nodi sut y gall Tirweddau Dynodedig ddatblygu partneriaethau newydd a chefnogi blaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru, a nodi ffrydiau ariannu arloesol.<br>iii. **Arweinydd Strategol Rhagoriaeth Cynhwysiant, Amrywiaeth a Llywodraethu** i weithio ar draws yr holl APCau, gyda'i, swyddfa yn un ohonynt. Agwedd allweddol ar ei waith fydd cymryd camau beiddgar i wella amrywiaeth a chydraddoldeb – ar Fyrddau, yn eich proffil staffio a'ch ymwelwyr a chefnogi APCau i fodloni'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol a chynyddu'u cyfraniad at daclo tlodi plant a gwledig. | **AC 2.5** |
| Rhannu profiad ac arfer gorau wrth i'r broses o greu Parc Cenedlaethol newydd fynd rhagddo | - |

Eitem Rhif 10

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau |
| **DYDDIAD** | 15 Gorffennaf 2026 |
| **TEITL** | **Cofrestr Risg yr Awdurdod** |
| **ADRODDIAD GAN** | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol |
| **PWRPAS** | I ddiweddaru Cofrestr Risg yr Awdurdod |

## 1. CEFNDIR / CYFLWYNIAD

1.1 Mae gan yr Awdurdod Gofrestr Risg ac ynddo mae'r risgiau sy'n wynebu'r Awdurdod wedi'u rhannu yn dri chategori, sef Blaenoriaethau Uchel, Blaenoriaethau Canolig a Blaenoriaethau Isel.

1.2 Mae'r risgiau yn cael eu hadnabod yn bennaf trwy'r Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol a'r Tîm Arweinyddiaeth. Caiff y Gofrestr Risg ei fonitro'n rheolaidd yng nghyfarfodydd y Tîm Arweinyddiaeth ac mae gan bob risg bellach gyda naill ai Gyfarwyddwr neu'r Prif Weithredwr fel y swyddog cyfrifol.

1.3 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf mewn perthynas â'r Proffil Risg a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar y 11eg o Fawrth 2026.

1.4 Ar hyn o bryd, mae 18 o risgiau wedi'u nodi ar y Gofrestr. O'r rhain mae 1 wedi'i dosbarthu fel risg Uchel, 14 wedi'u dosbarthu fel risgiau Canolig a 3 wedi'u dosbarthu fel risg Isel.

1.5 Yn dilyn adolygiad o'r sgôr risg gynhenid ar gyfer effaith ar risg 5 - targed cynhyrchu incwm ar gyfer Canolfannau Gwybodaeth, mae wedi'i ostwng o 4 i 3, gan ei fod yn adlewyrchu realiti'r sefyllfa'n well. Mae'r newid hwn yn galluogi gwahaniaethu rhwng risg 4 a 5, sy'n adlewyrchu'r gwahaniaeth sylweddol rhwng targed incwm y Canolfannau Gwybodaeth a'r targed incwm ar gyfer meysydd parcio, sydd hefyd efo risg effaith gynhenid sy'n 4.

1.6 Mae'r ddau risg hyn hefyd wedi cynyddu eu sgôr ers yr adolygiad diwethaf. Gan eu bod ill dau yn ymwneud â chynhyrchu incwm, mae amrywiol ffactorau y tu hwnt i reolaeth yr Awdurdod a allai effeithio ar yr incwm dros y prif dymor ymwelwyr rydym yn mynd iddo, ac mae'r newid yn adlewyrchu hyn.

1.7 Mae'r risg sy'n ymwneud ag Etholiad y Senedd bellach wedi mynd heibio, ac ni ellir cymryd unrhyw fesurau lliniaru pellach ynghylch Sefydlu 4ydd Parc Cenedlaethol yng Nghymru. Bydd swyddogion yn parhau i fonitro'r sefyllfa. Gellir dileu'r ddau risg hyn o'r Gofrestr nawr.

1.8 Dyma grynodeb o'r risgiau:

| Rhif y Risg | Risg Uchel | Newid |
|---|---|---|
| 4 | Targed Cynhyrchu Incwm (Meysydd Parcio). | **CYNYDDU** |

| Rhif y Risg | Risg Canolig | Newid |
|---|---|---|
| 1 | Diffyg arian cyllido digonol. | Dim |
| 2 | Plas Tan y Bwlch – risg enw da ac ariannol. | Dim |
| 3 | Plas Tan y Bwlch – pwysau ariannol tymor byr ar yr Awdurdod a sicrhau ei ddyfodol tymor hir. | Dim |
| 5 | Targed Cynhyrchu Incwm (Canolfannau Croeso). | **CYNYDDU** |
| 8 | Agweddau o risg ariannol sy'n gysylltiedig â phrosiect Coedwigoedd Glaw Celtaidd LIFE gan gynnwys diffyg cydymffurfio â rheolau caffael neu wariant ar gostau anghymwys sy'n arwain at beidio â dyfarnu'r grant, neu amrywiad yn y gyfradd gyfnewid Ewro / punt. | Dim |
| 9 | Risg i enw da'r Awdurdod sy'n gysylltiedig â chyflawni'r prosiect LIFE - Coedwigoedd Glaw yn anfoddhaol. | Dim |
| 10 | Yr Awdurdod yn rheoli prosiectau yn wael ac aneffeithiol. | Dim |
| 11 | Yr Ysgwrn methu cynhyrchu incwm digonol. | Dim |
| 13 | Methu cydymffurfio gyda Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol 2018. | Dim |
| 14 | Risg o ymosodiad Seibr. | Dim |
| 15 | Risg (cyhoeddusrwydd) o ganlyniad i faterion trafnidiaeth o fewn Eryri. | Dim |
| 16 | Methu a chyflawni gofynion y ddeddf “Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol”. | Dim |
| 17 | Methu cydymffurfio gyda gofynion statudol strwythurau ac isadeiledd. | Dim |
| 19 | Sefydlu Pedwerydd Parc Cenedlaethol yng Nghymru | **DILEU** |

| Rhif y Risg | Risg Isel | Newid |
|---|---|---|
| 6 | Cadernid staff yr Awdurdod yn lleihau (oherwydd mwy o ofynion) o ganlyniad i gyllidebau fflat ac effaith chwyddiant. | Dim |
| 12 | Risg i enw da par. Rheolaeth yr Awdurdod o'r Ysgwrn. | Dim |
| 18 | Etholiadau'r Senedd Mai 2026 | **DILEU** |

**2. GOBLYGIADAU ADNODDAU**

Dim yn codi o'r Adroddiad hwn.

**3. ARGYMHELLIAD:**

**I nodi cynnwys yr adroddiad.**

**4. PAPURAU CEFNDIR**

Cofrestr Risg: Diweddariad Gorffennaf 2026.

## COFRESTR RISG APC ERYRI
## GORFFENNAF 2026

| Cyf | Disgrifiad Risg | Canlyniad | Risg Cynhenid | | | Mesurau Rheoli / Gweithredoedd | Gweddill Risg | | | Cyfeiriad Risg | Perchennog | Adolygwyd diwethaf |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Effaith | Tebyg | Canlyniad | | Effaith | Tebyg | Canlyniad | | | |
| 1 | Diffyg arian cyllido craidd digonol. | Torri Gwasanaethau. | 5 | 5 | **25**<br><br>**Coch** | Cafodd y Gyllideb ar gyfer 2026/27 ei chymeradwyo gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar y 4ydd o Chwefror 2026.<br><br>Derbyniwyd cynnydd o oddeutu 4% yn y cyllid craidd. Mewn termau ariannol, mae hyn yn gynnydd o £173,000 yn y cyllid craidd, a fydd hefyd yn arwain at gynnydd o £58,000 yn yr ardollau a godir ar yr awdurdodau cyfansoddol. Mae hyn yn newyddion cadarnhaol ac yn rhoi'r Awdurdod mewn sefyllfa gryfach ar ddechrau'r flwyddyn ariannol nag a ragwelwyd, ond serch hynny bydd diffyg sylfaenol o £139,000 yn parhau i'w ariannu o'r Gronfa Caledi. Roedd hyn yn cymharu â diffyg o £635,850 oedd yn cael ei ragweld wrth osod cyllideb 2025/26, sy'n ostyngiad arwyddocaol.<br><br>Mae swyddogion yn bwriadu cysylltu â'r Aelodau Seneddol a'r Aelodau Cabinet perthnasol yn Llywodraeth newydd Cymru er mwyn cael cyfle i drafod rhaglenni gwaith a'n blaenoriaethau. Bydd hwn yn gyfle i hyrwyddo'r budd sylweddol sydd gan y dynodiad Parc Cenedlaethol i'r amgylchedd, yr economi a'n cymunedau. | 4 | 3 | **12**<br><br>**Ambr** | | Prif Swyddog Cyllid | P&A 11.03.26<br><br>Tîm Arweinyddiaeth 22.06.26 |
| 2 | Risg ariannol ac i enw da ynglŷn â dyfodol Plas Tan y Bwlch. | Gallai dyfodol Plas Tan y Bwlch (boed hynny ar gyfer gwerthu neu gadw) greu risg ariannol sylweddol uwch a niwed i enw da. | 5 | 4 | **20**<br><br>**Coch** | Mae'r sefyllfa gymhleth a deinamig hon yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd gan y Prif Weithredwr. Cymerir gofal mawr i sicrhau y caiff yr effeithiau ariannol eu lliniaru cyn belled ag y bo modd, er na ellir dileu'r risgiau hyn. Mae'r Awdurdod yn:<br>- Ceisio lleihau costau gwresogi yn y Plas<br>- Asesu a ellir lleihau trethi busnes<br>- Ceisio dod ag incwm ychwanegol i'r Plas trwy rentu ystafelloedd<br><br>Mae amryw o risgiau i enw da yn deillio o gadw a gwerthu'r Plas. Mae swyddogion yn ystyried bod cadw'r Plas ac archwilio i mewn i brosiect a'i hariennir gan y Loteri i adleoli swyddfeydd yr APC yn cario llai o risg i enw da na gwerthu'r Plas heb archwilio'r opsiwn hwn. | 4 | 3 | **12**<br><br>**Ambr** | | Prif Weithredwr | P&A 11.03.26<br><br>Tîm Arweinyddiaeth 22.06.26 |

| Cyf | Disgrifiad Risg | Canlyniad | Risg Cynhenid | | | Mesurau Rheoli / Gweithredoedd | Gweddill Risg | | | Cyfeiriad Risg | Perchennog | Adolygwyd diwethaf |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **Effaith** | **Tebyg** | **Canlyniad** | | **Effaith** | **Tebyg** | **Canlyniad** | | | |
| 3 | Plas Tan y Bwlch - pwysau ariannol tymor byr ar yr Awdurdod a sicrhau ei ddyfodol hirdymor. | Methiant i gadw o fewn cyllideb yr Awdurdod.<br><br>Niwed sylweddol i enw da'r Awdurdod.<br><br>Effaith andwyol ar yr economi leol.<br><br>Colli bywoliaeth i staff a gyflogir ym Mhlas Tan y Bwlch.<br><br>Methiant i gynnal adeilad rhestredig Gradd II*. | 4 | 5 | **20**<br><br>**Coch** | Mae Plas yn parhau i weithredu busnes llawer llai ar adeg ysgrifennu. Daeth cytundeb busnes tymor byr diweddar a ddaeth i ben ym mis Mai â ffynhonnell incwm iach. Fodd bynnag, cododd nifer o broblemau yn ystod y cyfnod hwn a oedd angen adnoddau sylweddol o ran amser staff i'w datrys. Ar hyn o bryd, mae llogi dyddiol ad hoc ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau yn parhau ochr yn ochr â thrafodaethau ar y potensial i adnewyddu cytundeb rhentu tymor canolig blaenorol.<br><br>Mae gwaith yn parhau ar gynlluniau datblygu hirdymor Plas Tan y Bwlch yn unol â phenderfyniad yr Awdurdod a basiwyd ar 30.04.25, sef:<br><br>a) Swyddogion i ddilyn y trywydd o gadw Plas Tan y Bwlch yn amodol ar sicrhau grant Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, gyda'r bwriad o adleoli swyddfeydd o Benrhyndeudraeth i Plas, gan gynnwys cymysgedd ehangach o ddefnyddiau ar gyfer yr eiddo;<br>b) Swyddogion i ddilyn hyn gyda chais am Grant y Loteri Genedlaethol yr Haf hwn;<br>c) Swyddogion i bwysleisio pwysigrwydd rheoli disgwyliadau drwy gydol y broses hon, gan nodi y byddai Plas yn dychwelyd i'r farchnad werthu pe bai'r cais am grant yn methu;<br>d) Pe bai'r dull ariannu grant yn aflwyddiannus, y dylai'r Awdurdod gadw rheolaeth dros y coetiroedd a Llyn Mair, beth bynnag yw'r penderfyniad a wneir ar Blas Tan y Bwlch; a<br>e) Swyddogion i barhau i fonitro sefyllfa ariannol yr Awdurdod yn agos drwy gydol y broses hon, gan gynnwys cyflwyno mesurau i leihau'r diffyg cyllidebol presennol yn ystod y flwyddyn ariannol hon.<br><br>Mae swyddogion a'r Tîm Dylunio wrthi'n gweithio ar y cais Cyfnod Datblygu (Cam 1). Bydd y cais yn cael ei gyflwyno erbyn dyddiad cau Cronfa Dreftadaeth sef 6 Awst 2026. Disgwylir ymateb erbyn 31 Rhagfyr 2026. | 4 | 3 | **12**<br><br>**Ambr** | | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol | P&A 11.03.26<br><br>Tîm Arweinyddiaeth 22.06.26 |


| Cyf | Disgrifiad Risg | Canlyniad | Risg Cynhenid | | | Mesurau Rheoli / Gweithredoedd | Gweddill Risg | | | Cyfeiriad Risg | Perchennog | Adolygwyd diwethaf |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Effaith | Tebyg | Canlyniad | | Effaith | Tebyg | Canlyniad | | | |
| 4 | Targed Cynhyrchu Incwm (Meysydd Parcio). | Methu â chadw o fewn cyllideb yr Awdurdod. | 4 | 5 | **20**<br><br>**Coch** | Er gwaethaf y cynnydd mewn ffioedd, ni chynyddodd yr incwm ar ddechrau'r flwyddyn ariannol yn sylweddol. Fodd bynnag, mae arwyddion o welliant wrth i ni fynd ymhellach i mewn i'r tymor. Yn unol â hynny, mae'r lefel risg ar gyfer cyrraedd y targedau incwm wedi'i chynyddu am y tro. Bydd data dros fisoedd yr haf yn rhoi gwell gwybodaeth am y sefyllfa erbyn i ni gyrraedd hanner ffordd yn y flwyddyn gyda dadansoddiad a thracio manwl i fonitro cynnydd yn fisol. | 4 | 4 | **16**<br><br>**Coch** | | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol | P&A 11.03.26<br><br>Tîm Arweinyddiaeth 22.06.26 |
| 5 | Targed Cynhyrchu Incwm (Canolfannau Gwybodaeth). | Y Canolfannau Gwybodaeth yn methu cynhyrchu incwm digonol i gyflawni'r gyllideb.<br><br>Y Canolfannau Gwybodaeth yn methu â chyrraedd nodau cynhyrchu incwm oherwydd prinder staff sy'n arwain at gau. | 3 | 4 | **12**<br><br>**Ambr** | Mae cyfuniad o'r oedi cyn agor Canolfan Hwb estynedig Pen y Pass ac anawsterau recriwtio wedi effeithio dechrau'r tymor.<br><br>Rhwng y 3 Chanolfan, mae'r duedd gyffredinol yn dangos bod nifer yr ymwelwyr yn gymharol debyg i'r llynedd, ond mae lefelau incwm i lawr, sy'n adlewyrchu'r sefyllfa economaidd gyffredinol. Yn unol â hynny, mae'r lefel risg ar gyfer cyrraedd y targedau incwm wedi cynyddu am y tro. Bydd data dros fisoedd yr haf yn rhoi gwell gwybodaeth am y sefyllfa erbyn i ni gyrraedd hanner ffordd yn y flwyddyn. | 3 | 4 | **12**<br><br>**Ambr** | | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol | P&A 11.03.26<br><br>Tîm Arweinyddiaeth 22.06.26 |


| Cyf | Disgrifiad Risg | Canlyniad | Risg Cynhenid | | | Mesurau Rheoli / Gweithredoedd | Gweddill Risg | | | Cyfeiriad Risg | Perchennog | Adolygwyd diwethaf |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **Effaith** | **Tebyg** | **Canlyniad** | | **Effaith** | **Tebyg** | **Canlyniad** | | | |
| 6 | Gwytnwch staff yr Awdurdod yn lleihau (oherwydd mwy o ofynion) o ganlyniad i gyllidebau fflat ac effaith chwyddiant. | Effaith ar gadw staff a recriwtio a hefyd perfformiad yr Awdurdod. | 3 | 3 | **9**<br><br>**Ambr** | Er mwyn lliniaru'r risg o ostyngiad mewn cydnerthedd staff, mae'r camau canlynol wedi'u rhoi ar waith:<br><br>• Polisi Fflecsi Hynod Hyblyg.<br>• Diweddariad Polisi Gweithio Hyblyg.<br>• Mentrau Lles:<br>Wal Diolchgarwch, ymwybyddiaeth o hydradu, parcio am ddim i staff ar gyfer amser hamdden i annog gweithgaredd awyr agored, ac offeryn Lles Digidol PWLS.<br>• Polisi a Phasbort Addasiadau i'r Gweithle.<br>• Polisi Sabothol.<br>• Hyfforddiant Lles Gorfodol: Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl, Ymwybyddiaeth Straen, a chyrsiau cysylltiedig i adeiladu strategaethau ymdopi.<br><br>Nod y mesurau hyn yw cynnal a gwella lles, morâl a chynhyrchiant staff yn wyneb pwysau allanol parhaus.<br><br>Yn ogystal:<br>**Cynllunio'r Gweithlu'n Chwarterol gyda Phenaethiaid Gwasanaeth:**<br>Mae trefn strwythuredig o gynllunio'r gweithlu bellach wedi'i sefydlu, gyda chyfarfodydd chwarterol gyda'r holl Benaethiaid Gwasanaeth. Bydd hyn yn galluogi adnabod yn rhagweithiol pwysau ar y gweithlu a'r gwasanaethau, bylchau mewn sgiliau, risgiau o ran olyniaeth, a materion capasiti. Bydd hefyd yn cefnogi gwell dyraniad adnoddau a chynllunio mwy effeithiol, gan helpu i reoli galw a lleihau'r effaith ar lesiant staff a darpariaeth gwasanaethau.<br><br>**Adolygu'r Broses Gwerthuso Staff:**<br>Mae'r rhaglen gwerthuso staff yr Awdurdod ar hyn o bryd yn cael ei hadolygu i sicrhau ei bod yn fwy ystyrlon ac yn addas at y diben. Bydd y dull newydd yn rhoi pwyslais cryfach ar sgyrsiau rheolaidd o ansawdd uchel rhwng rheolwyr a gweithwyr, gan alluogi adnabod yn gynharach unrhyw bryderon ynghylch llesiant, anghenion cymorth, a phwysau gwaith. Bydd hefyd yn darparu fframwaith cliriach ar gyfer cofnodi anghenion hyfforddi a datblygu, cefnogi cynnydd gyrfa, cryfhau cynllunio olyniaeth a gwella gallu perfformiad, a chefnogi cadw staff yn yr hirdymor. | 2 | 2 | **4**<br><br>**Gwyrdd** | | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol | P&A 11.03.26<br><br>Tîm Arweinyddiaeth 22.06.26 |

| Cyf | Disgrifiad Risg | Canlyniad | Risg Cynhenid | | | Mesurau Rheoli / Gweithredoedd | Gweddill Risg | | | Cyfeiriad Risg | Perchennog | Adolygwyd diwethaf |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Effaith | Tebyg | Canlyniad | | Effaith | Tebyg | Canlyniad | | | |
| 7 | Agweddau o risg ariannol sy'n gysylltiedig â phrosiect LIFE Coedwigoedd Glaw Celtaidd gan gynnwys methu â chydymffurfio â rheolau caffael neu wariant ar gostau anghymwys gan arwain at beidio â dyfarnu'r grant, neu amrywiad yn y gyfradd gyfnewid Ewro / bunt. | Mae angen i APCE a phartneriaid eraill hunan ariannu gwariant ar agweddau o'r prosiect hyd yn hyn. | 5 | 4 | **20**<br>**Coch** | Derbyniwyd a chymeradwywyd ail adroddiad canol tymor i'r CE (a hawliad grant cysylltiedig), gan arwain at dynnu i lawr y 3ydd taliad LIFE gan y CE ym mis Rhagfyr 2022. Mae cais am estyniad prosiect 2 flynedd wedi'i gymeradwyo'n swyddogol gan y Comisiwn Ewropeaidd, gan roi dyddiad gorffen prosiect newydd o 31ain o Orffennaf 2027. Ni fydd hyn yn effeithio ar gost gyffredinol y prosiect.<br><br>Mae adborth swyddogol gan y Comisiwn hyd yn hyn yn gadarnhaol, gyda dim ond mân bryderon a diwygiadau sydd angen sylw. Ymgymerwyd â'r Genhadaeth Fonitro ddiweddaraf ym mis Tachwedd 2024, gydag adroddiad cynnydd i'w gyflwyno ddiwedd mis Mawrth 2025.<br><br>Pob taliad cyd-ariannwr arall yn gyfredol, gan gynnwys y cyfraniad o £2m gan Lywodraeth Cymru. Mae'r arian dros ben disgwyliedig (amcangyfrif o £200k - £250k ym mis Rhagfyr 2025) yn y prosiect hyd yn hyn oherwydd cyfradd gyfnewid ffafriol (o'i gymharu â'r hyn a ddefnyddiwyd yn y cais), yn golygu bod yn rhaid i'r prosiect wario mwy mewn £ i gyrraedd targed €. Mae hefyd yn golygu bod cyfraniadau partneriaid yn werth llai na'r disgwyl, sy'n gofyn am fwy o arian cyfatebol i hawlio'r €9.5m llawn. Gyda thua £450k mewn gwariant ymrwymedig heb ei hawlio, mae posibilrwydd rhesymol na fydd y prosiect yn cyrraedd ei gyllideb gyfan erbyn mis Gorffennaf 2027, ac mae estyniad yn cael ei drafod ar hyn o bryd o'r herwydd. | 4 | 3 | **12**<br>**Ambr** | | Cyfarwyddwr Rheoli Tir | P&A 11.03.26<br><br>Tîm Arweinyddiaeth 22.06.26 |


| Cyf | Disgrifiad Risg | Canlyniad | Risg Cynhenid | | | Mesurau Rheoli / Gweithredoedd | Gweddill Risg | | | Cyfeiriad Risg | Perchennog | Adolygwyd diwethaf |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Effaith | Tebyg | Canlyniad | | Effaith | Tebyg | Canlyniad | | | |
| 8 | Risg i enw da'r Awdurdod yn gysylltiedig â chyflawni'r prosiect LIFE Coedwigoedd Glaw Celtaidd yn anfoddhaol. | Bod yr Awdurdod yn dioddef niwed difrifol i'w enw da ymhlith y sefydliadau hynny sy'n bartneriaid a enwir yn y prosiect, partneriaid prosiect eraill gan gynnwys perchnogion tir preifat, contractwyr a sefydliadau eraill, a'r cyhoedd ehangach. | 4 | 3 | **12**<br>**Ambr** | Mae'r cynllun wedi profi rhai problemau cadw staff, nad yw'n anghyffredin ar unrhyw brosiect sy'n cael ei ariannu gan grant ac sydd â chyfyngiad amser. Mae'r tebygolrwydd o golledion staff pellach yn cynyddu' dros y 2 flynedd nesaf wrth i gontractau ddod i ben, gan greu risg i'r prosiect ar adeg dyngedfennol wrth i'r prosiect ddod i ben (a'r holl adrodd ac archwilio cysylltiedig yn digwydd).<br><br>Y tarfu a achoswyd gan drosiant staff (colli momentwm, peidio â gweithredu hyd eithaf ei allu am gyfnodau sylweddol), ochr yn ochr ag effeithiau pandemig Covid-19, oedd y prif yrrwr y tu ôl i ofyn am estyniad o 2 flynedd. | 4 | 3 | **12**<br>**Ambr** | | Cyfarwyddwr Rheoli Tir | P&A 11.03.26<br><br>Tîm Arweinyddiaeth 22.06.26 |
| 9 | Rheoli gwael ac aneffeithiol o brosiectau gan yr Awdurdod. | Risg o beidio â chyflawni prosiectau ac amcanion yr Awdurdod.<br><br>Risg i enw da'r Awdurdod.<br><br>Cyfleoedd ariannol yn cael eu colli. | 3 | 3 | **9**<br>**Ambr** | Mae swyddogion yn dilyn canllawiau safonol a fabwysiadwyd ar gyfer rheoli prosiectau - gan gynnwys creu "Dogfen Ysgogi Prosiect" a chael cymeradwyaeth y tîm rheoli ar gyfer y ddogfen hon. Mae hyn yn creu sail ar gyfer rheoli ac ar gyfer cyfathrebu (mewnol ac allanol) ar brosiectau yn gyson ar draws yr Awdurdod.<br><br>Cychwynnwyd y broses o adolygu'r canllawiau. | 2 | 3 | **6**<br>**Ambr** | | Prif Weithredwr | P&A 11.03.26<br><br>Tîm Arweinyddiaeth 22.06.26 |
| 10 | Yr Ysgwrn yn methu cynhyrchu incwm digonol i gyflawni'r gyllideb. | Yr Ysgwrn yn dibynnu ar fudd-dal uwch gan yr Awdurdod a/neu yn defnyddio arian wrth gefn sydd wedi'i gynilo yn dilyn blynyddoedd blaenorol llewyrchus. Yn y pendraw, bydd hyn yn golygu nad ydi'r Ysgwrn yn gynaliadwy. | 4 | 4 | **16**<br>**Coch** | Mae cynnal Yr Ysgwrn o fewn y gyllideb yn her barhaus yng ngoleuni'r argyfwng costau byw sy'n amharu ar wariant ymwelwyr a chostau rhedeg cynyddol.<br><br>Mae costau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r rhan fwyaf o gostau, megis gwres, ffôn a thrydan yn sefydlog ac yn angenrheidiol ar gyfer safonau achredu.<br><br>Mae'r Ysgwrn yn llwyddo yn rheolaidd i sicrhau cyllid ar gyfer costau gweithgaredd a dehongli. Mae grantiau wedi'u derbyn i ymgysylltu gydag Ysgol Bro Hedd Wyn yn 2025 ac i gynnal arddangosfa dros dro newydd ar gyfer 2026. | 3 | 3 | **9**<br>**Ambr** | | Cyfarwyddwr Rheoli Tir | P&A 11.03.26<br><br>Tîm Arweinyddiaeth 22.06.26 |

| Cyf | Disgrifiad Risg | Canlyniad | Risg Cynhenid | | | Mesurau Rheoli / Gweithredoedd | Gweddill Risg | | | Cyfeiriad Risg | Perchennog | Adolygwyd diwethaf |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Effaith | Tebyg | Canlyniad | | Effaith | Tebyg | Canlyniad | | | |
| 11 | Risg i enw da parthed rheolaeth yr Awdurdod o'r Ysgwrn. | Camreoli yn arwain at ddiffyg hygrededd yng ngallu'r Awdurdod i gyflawni ei ddyletswyddau. | 5 | 2 | **10**<br><br>**Ambr** | Mae'r Ysgwrn wedi ennill enw da iawn fel amgueddfa achrededig a chanolfan ddiwylliannol gyda rhaglen o weithgareddau treftadaeth ddiwylliannol o ansawdd rhagorol. Mae'r statws achrededig yn dangos bod trefniant llywodraethu cadarn ac effeithiol mewn lle. Mae swyddogion wedi cyflwyno cais i adnewyddu'r statws yma yn Chwefror 2026. Disgwylir canlyniad yn ddiweddarach eleni.<br><br>Mae'r Yr Ysgwrn yn dangos patrwm llwyddiannus o ymgeisio am gyllid allanol i ariannu gweithgareddau a phrosiectau, ac mae swyddogion yn gweithio'n rhagweithiol ar geisiadau hyn, gan chwilio am gyfleoedd nawdd yn rheolaidd.<br><br>Lansiwyd adnodd addysg ffilm Hedd Wyn (prosiect ar y cyd gyda Phrifysgol Bangor) yn Rhagfyr 2025. Derbyniwyd grant allanol i greu arddangosfa dros dro newydd ar gyfer 2026, yn seiliedig ar gadeiriau barddol Eugene Vanfleteren, ac mae'r ymateb hyn yma yn gadarnhaol iawn. | 4 | 1 | **4**<br><br>**Gwyrdd** |  | Cyfarwyddwr Rheoli Tir | P&A 11.03.26<br><br>Tîm Arweinyddiaeth 22.06.26 |

| Cyf | Disgrifiad Risg | Canlyniad | Risg Cynhenid | | | Mesurau Rheoli / Gweithredoedd | Gweddill Risg | | | Cyfeiriad Risg | Perchennog | Adolygwyd diwethaf |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Effaith | Tebyg | Canlyniad | | Effaith | Tebyg | Canlyniad | | | |
| 12 | Diffyg cydymffurfio â "Rheoliad Cyffredinol Diogelu Data 2018" (GDPR). | Diffyg rheoli data a chyhoeddi data na ddylem ei gyhoeddi. | 4 | 3 | **12**<br><br>**Ambr** | Hyfforddiant<br>Mae cyrsiau gorfodol wedi'u hychwanegu ar ELMS. Disgwylir nawr i bawb eistedd y rhain mewn modd amserol neu bydd mynediad i'r rhwydwaith a / neu e-bost yn cael ei ddileu.<br><br>Mae'r rhan fwyaf o'r staff bellach yn cwblhau cyrsiau untro a chyrsiau blynyddol yn gyson heb unrhyw drafferthion, ond mae'r nifer sy'n cael eu cwblhau gan yr Aelodau yn parhau i fod yn isel. Mae'r sefyllfa'n cael ei fonitro'n barhaus.<br><br>Fel rhan o'r gwaith monitro parhaus, rydym wedi penodi cwmni allanol i archwilio ein prosesau a'n cydymffurfiaeth â GDPR. Bydd yr archwiliad hwn yn rhoi eglurhad ar sut y gallwn gryfhau ein prosesau ymhellach i leihau risg yn y dyfodol.<br><br>Mae'r adroddiad drafft wedi'i dderbyn gan yr ymgynghorydd ac mae Swyddogion TG wedi anfon adborth ar yr adroddiad. Rydym yn disgwyl ymateb nawr. Byddwn yn bwrw ymlaen â'r argymhellion unwaith y byddant wedi'u cwblhau a'u derbyn. | 3 | 2 | **6**<br><br>**Ambr** |  | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol | P&A 11.03.26<br><br>Tîm Arweinyddiaeth 22.06.26 |

| Cyf | Disgrifiad Risg | Canlyniad | Risg Cynhenid | | | Mesurau Rheoli / Gweithredoedd | Gweddill Risg | | | Cyfeiriad Risg | Perchennog | Adolygwyd diwethaf |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **Effaith** | **Tebyg** | **Canlyniad** | | **Effaith** | **Tebyg** | **Canlyniad** | | | |
| 13 | Risg o gael ymosodiad Seibr. | Colli data a mynediad i'r rhwydwaith. | 4 | 3 | **12**<br><br>**Ambr**<br><br> | Mae risgiau Seibrddiogelwch yn cael eu monitro'n gyson gyda mesurau lliniaru risg cyfatebol yn cael eu gweithredu yn ôl yr angen gan y gwasanaeth TG. Mae hyn yn cynnwys monitro gosodiadau diogelwch yr Awdurdod yn barhaus, gan sicrhau bod mesurau cryfhau amserol yn cael eu gweithredu yn ôl yr angen.<br><br>Mae Seibrddiogelwch yn risg sy'n cynyddu'n genedlaethol, gydag adroddiadau eang am ganlyniadau difrifol yn deillio o ymosodiadau seiber. Mae'r risg hon yn cael ei chyfeirio ato yn y strategaeth TG newydd a fabwysiadwyd yn ddiweddar. Bydd cynllun gweithredu cyfatebol yn cael ei ddatblygu nawr a fydd yn amlinellu mesurau i'w cymryd i sicrhau lliniaru risg parhaus. Gall hyn gynnwys gofyn am arbenigedd allanol er mwyn asesu sefyllfa'r Awdurdod.<br><br>Yn y dyfodol, rhan o'r mesurau lliniaru risg fydd parhau â'r cyrsiau hyfforddi ymwybyddiaeth a gwydnwch seibr pan fydd cyfleoedd yn codi, ochr yn ochr â'r modiwlau ELMS gorfodol. | 3 | 2 | **6**<br><br>**Ambr**<br><br> |  | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol | P&A 11.03.26<br><br>Tîm Arweinyddiaeth 22.06.26 |

| Cyf | Disgrifiad Risg | Canlyniad | Risg Cynhenid | | | Mesurau Rheoli / Gweithredoedd | Gweddill Risg | | | Cyfeiriad Risg | Perchennog | Adolygwyd diwethaf |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Effaith | Tebyg | Canlyniad | | Effaith | Tebyg | Canlyniad | | | |
| 14 | Risg (cyhoeddusrwydd) o ganlyniad i faterion Trafnidiaeth o fewn Eryri. | Camreoli yn arwain at ddiffyg hygrededd yn yr Awdurdod a'i bartneriaid. | 4 | 2 | **8**<br><br>**Ambr** | Mae datblygu Cynllun Yr Wyddfa wedi sefydlu perthynas well rhwng yr elfennau unigol sy'n ymwneud â rheolaeth ar Yr Wyddfa, gan gynnwys y gwasanaeth Sherpa.<br><br>Nid yw Grŵp Trafnidiaeth Eryri yn cyfarfod mwyach ers i Drafnidiaeth Cymru dynnu allan. Mae'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig (CBC) wedi'i ffurfio ers hynny, sy'n strategol yn bennaf. Mae swyddogion yr Awdurdod yn mynychu'r CBC i roi cyd-destun ac ymwybyddiaeth o faterion o fewn Eryri, gan ymdrechu i lywio a dylanwadu a'r polisïau a chyllid.<br><br>Cynhelir cyfarfod mewnol yr Awdurdod ar gyfer parcio a thrafnidiaeth bob mis, ac mae'r Heddlu hefyd yn bresennol. Mae hyn yn sicrhau bod yr Awdurdod yn parhau i fod yn ymatebol a rhagweithiol lle bo angen.<br><br>Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi cwblhau ymgynghoriad ar hawliau datblygu a ganiateir cynllunio. Yn berthnasol i hyn mae newidiadau posibl i'r hawliau ar gyfer newid defnydd tir dros dro. Edrychodd yr ymgynghoriad ar ymestyn yr amserlen o 28 diwrnod i 60. Ar hyn o bryd nid yw'n hysbys beth fydd y canlyniad, ond gallai gael effaith ar barcio a thrafnidiaeth.<br><br>Mae angen i adolygiad Cynllun Eryri a CDLl Eryri sicrhau bod materion a pholisïau trafnidiaeth yn cael eu hadolygu'n drylwyr, ac yn caniatáu i'r Awdurdod ymateb i faterion trafnidiaeth wrth barhau i gyflawni ein dibenion statudol. | 3 | 2 | **6**<br><br>**Ambr** | | Cyfarwyddwr Cynllunio & Phartneriaethau | P&A 11.03.26<br><br>Tîm Arweinyddiaeth 22.06.26 |

| Cyf | Disgrifiad Risg | Canlyniad | Risg Cynhenid | | | Mesurau Rheoli / Gweithredoedd | Gweddill Risg | | | Cyfeiriad Risg | Perchennog | Adolygwyd diwethaf |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Effaith | Tebyg | Canlyniad | | Effaith | Tebyg | Canlyniad | | | |
| 15 | Methiant o ran cyflawni gofynion Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol. | Adroddiad archwilio beirniadol / cyhoeddusrwydd negyddol. | 3 | 3 | **9**<br><br>**Ambr** | Mae'r Awdurdod yn parhau i gydweithio ag Archwilio Cymru i weithredu gofynion y Ddeddf Llesiant.<br><br>Mae astudiaeth Archwilio Cymru ar gyfer 2022/23 (incwm masnachol ac arallgyfeirio incwm) wedi'i chyhoeddi ac mae adroddiad atodol ar y 3 Awdurdod Parc Cenedlaethol wedi'i gynhyrchu. Mae'r Awdurdod yn aros am arweiniad gan LIC cyn gallu symud ymlaen gyda'r argymhellion.<br><br>Mae gwaith wedi dechrau ar weithredu'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt mewn ymateb i'r argymhellion yn adroddiad Hyrwyddo Mynediad Archwilio Cymru.<br><br>Yn dilyn yr archwiliad ar osod Amcanion Llesiant, bydd yr argymhellion yn rhan o'r adolygiad sy'n digwydd ar hyn o bryd.<br><br>Nododd adroddiad Sicrwydd a Risg yr Awdurdod 2 risg, sef diffyg Polisi Diogelu'r Awdurdod a'r angen i sefydlu mecanwaith adolygu rheolaidd o bolisïau corfforaethol yr Awdurdod. Mae'r ddau bellach wedi'u gweithredu.<br><br>Derbyniwyd yr adroddiad ar yr adolygiad o Gynaliadwyedd Ariannol yr Awdurdod, ac mae'r Awdurdod wedi ymateb i'r 2 argymhelliad. Rhoddir diweddariad i Strategaeth Ariannol yr Awdurdod i'r Awdurdod ar ddiwedd y flwyddyn. | 3 | 2 | **6**<br><br>**Ambr** |  | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol | P&A 11.03.26<br><br>Tîm Arweinyddiaeth 22.06.26 |

| Cyf | Disgrifiad Risg | Canlyniad | Risg Cynhenid | | | Mesurau Rheoli / Gweithredoedd | Gweddill Risg | | | Cyfeiriad Risg | Perchennog | Adolygwyd diwethaf |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Effaith | Tebyg | Canlyniad | | Effaith | Tebyg | Canlyniad | | | |
| 16 | Methu cydymffurfio gyda gofynion statudol strwythurau ac isadeiledd. | Mae hyn yn risg sylweddol i'r amgylchedd ac i enw da'r Awdurdod.<br>Yn y pen draw, gallai peidio â chydymffurfio â rheoliadau yn barhaus arwain at ddirwyon sylweddol. | 4 | 5 | **20**<br>**Coch** | Mae tri Rhybudd ffurfiol wedi’u derbyn, ac mae cwmni peirianwyr newydd wedi cael ei benodi.<br><br>Yn dilyn cymeradwyaeth gynllunio a'r broses dendro ffurfiol, mae contractwr cymwys addas wedi'i benodi. Disgwylir i'r gwaith gael ei gwblhau erbyn diwedd yr haf i fodloni un hysbysiad yn llawn.<br><br>Mae cynllun cynhwysfawr wedi'i roi ar waith ar gyfer cwblhau'r ail hysbysiad erbyn diwedd haf 2027. Bydd angen caniatâd cynllunio, cynnal y broses dendro lawn a sicrhau cyllid ar gyfer y prosiect cymhleth hwn.<br><br>Mae'r trydydd hysbysiad yn gofyn am atebion amgen i oresgyn pryder ymgynghorai statudol ynghylch yr effaith ar orlifdiroedd, ac mae'r rhain yn cael eu harchwilio ar hyn o bryd i gael ateb cynaliadwy.<br><br>Felly mae'r risg yn cael ei rheoli'n weithredol ar hyn o bryd. | 4 | 3 | **12**<br>**Ambr** | | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol | P&A 11.03.26<br><br>Tîm Arweinyddiaeth 22.06.26 |
| 17 | Etholiadau’r Senedd Mai 2026. | Gall newid arweinyddiaeth wleidyddol arwain at newid agwedd / dull o weithredu tuag at Barciau Cenedlaethol. | 4 | 5 | **20**<br>**Coch** | Cyn yr etholiad paratowyd maniffesto ar y cyd rhwng Parciau Cenedlaethol Cymru a'i rannu â'r prif bleidiau.<br><br>Ymdrinnir â materion ariannu craidd o dan Risg 1.<br><br>Gellir cael gwared ar y risg hon nawr. | 2 | 1 | **2**<br>**Gwyrdd** | **DILEU** | Prif Weithredwr | P&A 11.03.26<br><br>Tîm Arweinyddiaeth 22.06.26 |

| Cyf | Disgrifiad Risg | Canlyniad | Risg Cynhenid | | | Mesurau Rheoli / Gweithredoedd | Gweddill Risg | | | Cyfeiriad Risg | Perchennog | Adolygwyd diwethaf |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Effaith | Tebyg | Canlyniad | | Effaith | Tebyg | Canlyniad | | | |
| 18 | Sefydlu Pedwerydd Parc Cenedlaethol yng Nghymru. | Er gall y buddion o greu Parc Cenedlaethol newydd fod yn sylweddol (yn amgylcheddol, yn economaidd ac yn gymdeithasol) - mae'r potensial i ddynodiad newydd godi risgiau I Eryri hefyd e.e.<br>• Cystadlu am adnoddau prin - o ran cyllideb graidd a chyllidebau cystadleuol fel Ffermio Bro a Chronfa'r Loteri<br>• Cynnydd mewn niferoedd ymwelwyr. | 3 | 3 | **9**<br>**Ambr** | Mae'r Awdurdod wedi codi'r prif risgiau i'r Awdurdod drwy'r ymgynghoriad cyhoeddus. Mae'n anodd mesur a fydd hyn yn cael effaith. Ar wahân i hyn, mae dulliau lliniaru pellach yn gyfyngedig iawn.<br><br>Ar hyn o bryd, nid yw'n hysbys a fydd Llywodraeth newydd Cymru yn parhau â chynlluniau i ddatblygu pedwerydd parc.<br><br>Bydd swyddogion yn parhau i fonitro'r sefyllfa. Fodd bynnag, am y rhesymau a nodwyd uchod, argymhellir tynnu hwn oddi ar y gofrestr. | 3 | 3 | **9**<br>**Ambr** | **DILEU** | Prif Weithredwr | P&A 11.03.26<br><br>Tîm Arweinyddiaeth 22.06.26 |

| **Sgorio'r Risg** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Tebygolrwydd** | **Isel Iawn = 1** | **Isel = 2** | **Canolig = 3** | **Uchel = 4** | **Uchel Iawn = 5** |
| **Effaith** | **Isel Iawn = 1** | **Isel = 2** | **Canolig = 3** | **Uchel = 4** | **Uchel Iawn = 5** |

| **Sgôr Cyfunol** | **Risg Cyffredinol** | |
|---|---|---|
| **1 – 4** | **Isel** | **Gwyrdd** |
| **6 – 14** | **Canolig** | **Ambr** |
| **15 – 25** | **Uchel** | **Coch** |

**Eitem Rhif 11**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau |
| **DYDDIAD** | 15 Gorffennaf 2026 |
| **TEITL** | **Adroddiad Monitro Cwynion** |
| **ADRODDIAD GAN** | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol |
| **PWRPAS** | I adrodd ar y cwynion ysgrifenedig a dderbyniwyd gan yr Awdurdod |

## 1. CEFNDIR / CYFLWYNIAD

1.1. Mae pob cwyn ffurfiol yn cael ei chofrestru a'i monitro'n ganolog, fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i sicrhau gofal cwsmeriaid rhagorol yn ein darpariaeth gwasanaeth. Derbyniodd yr Awdurdod 13 o gwynion ffurfiol yn ymwneud yn uniongyrchol â'r Awdurdod yn ystod blwyddyn ariannol 2025/26.

1.2. O'r 13 cwyn a dderbyniwyd, roedd 7 yn ymwneud â'r gwasanaeth cynllunio, 2 yn ymwneud â'r Gwasanaeth Cadwraeth, Coed ac Amaethyddiaeth, 1 yn ymwneud â phryderon GDPR, 1 yn ymwneud â'r Gwasanaeth Wardeinio 1 yn ymwneud â'r Gwasanaeth Eiddo ac 1 yn ymwneud â sbwriel ar ymylon ffyrdd.

1.3. Ymchwiliwyd yn drylwyr i bob cwyn , a derbyniwyd ymateb i bob un o fewn y targed o 15 diwrnod gwaith. O'r cwynion a ymchwiliwyd iddynt, cadarnhawyd neu cadarnhawyd 5 yn rhannol. Cyfeiriwyd un gŵyn wedi hynny at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i'w hymchwilio. Fodd bynnag, gwrthododd yr Ombwdsmon ymchwilio i'r mater ymhellach.

1.5. Lle mae safon gwasanaeth yr Awdurdod wedi methu, rydym wedi ymddiheuro'n briodol ac wedi cymryd camau i fynd i'r afael â'r problemau ar unwaith.

1.6. Mae crynodeb o'r cwynion a gadarnhawyd neu a gadarnhawyd yn rhannol wedi'i nodi yn yr atodiad.

## 2.0. ARGYMHELLIAD

**2.1. Bod y Pwyllgor yn nodi cynnwys yr adroddiad**

**ATODIAD 1**

**Crynodeb o Gwynion a Gadarnhawyd neu a Gadarnhawyd yn Rhannol**

Gwasanaeth Cynllunio

**Cyngor anghywir a diffyg ymateb gan Staff (Ebrill 2025)**

Yn ystod ymweliad â'r swyddfa i edrych ar gais cynllunio, cynghorwyd yr achwynydd i gyflwyno gwrthwynebiad ar-lein. Fodd bynnag, nid oedd gan yr achwynydd y sgiliau na'r hyder angenrheidiol i gyflwyno gwrthwynebiad ar-lein. Dylai'r aelod o'r staff cynllunio fod wedi dweud wrthynt fod ganddynt yr opsiwn o gyflwyno gwrthwynebiad drwy e-bost, danfon y gŵyn â llaw neu drwy'r post yn ogystal ag ar-lein.

Yn ogystal, roedd yr achwynydd wedi gofyn i'r Swyddog Cynllunio eu hysbysu o ganlyniad y cais cynllunio. Pan na dderbyniwyd ymateb, aethpwyd ar drywydd y mater drwy alwadau ffôn ac e-byst, ond ni dderbyniwyd unrhyw ymateb.

Ymddiheurwyd i'r achwynydd am y ddau fater, a oedd yn is na'r safonau gwasanaeth disgwyliedig.

**Cwyn am Aelod o Staff (Gorffennaf 2025)**

Derbyniwyd cwyn ynghylch ymddygiad aelod o staff a oedd yn cael ei ystyried yn swta ac yn anghymwynasgar gan yr achwynydd yn ystod dwy sgwrs ffôn lle gofynnwyd am eglurhad ynghylch ffi cais cynllunio.

Ymchwiliwyd i'r mater ac ymddiheurwyd i'r achwynydd. Trafodwyd y mater gyda'r aelod staff dan sylw, a oedd yn cynnwys trafodaeth ar y lefel briodol o wasanaeth a gofal cwsmer sy'n ofynnol wrth ddelio ag aelodau'r cyhoedd.

**Cwyn am y Broses Cais Cynllunio (Chwefror 2026)**

Derbyniwyd cwyn gan yr ymgeisydd cynllunio a'r asiant ynghylch sut y proseswyd cais cynllunio a lefel gyffredinol y cyfathrebu gan y Swyddog Cynllunio.

Nid oedd yr ymgeiswyr yn fodlon ymrwymo i gytundeb Adran 106 a oedd yn ofynnol i gyd-fynd â'u cais am annedd newydd, ac roeddent yn ymwybodol bod hyn yn golygu y byddai'r cais yn cael ei wrthod gan nad oedd yn cydymffurfio â pholisi. Hysbysodd yr asiant y Swyddog Cynllunio fod Aelod o'r Awdurdod wedi cytuno i 'alw' y cais i mewn i'r Pwyllgor Cynllunio a Mynediad. Ni hysbysodd y Swyddog Cynllunio'r asiant nad oedd wedi derbyn cais ysgrifenedig gan yr Aelod i 'alw'r cais i mewn' o fewn yr amserlen ofynnol. Dylai hefyd fod wedi egluro, heb y cais hwn, y byddai'r cais yn cael ei benderfynu o dan Bwerau Dirprwyedig. Gwrthodwyd y cais wedi hynny o dan Bwerau Dirprwyedig.

Methodd y diffyg cyfathrebu mewn perthynas â’r cais hwn â chyrraedd y safonau gwasanaeth disgwyliedig, ac am hynny, fe ymddiheurwyd yn briodol a darparwyd cyngor ynghylch y ffordd orau ymlaen o ran ailgyflwyno'r cais cynllunio.

Gwasanaeth Cadwraeth, Coed ac Amaethyddiaeth

**Pryder ynghylch Cemegau Ffo wrth waredu Rhododendron**

**(Tachwedd 2025)**

Derbyniwyd pryder gan dirfeddiannwr ynghylch y posibilrwydd o ffo cemegol o ganlyniad i waith a wnaed i waredu rhododendron trwy chwistrellu coesynnau - roedd gan y tirfeddiannwr bryder penodol oherwydd sensitifrwydd y tir cyfagos. Ataliwyd y gwaith tra bod y pryder yn cael ei adolygu a tra ceisiwyd barn broffesiynol.

Mae'r mater yn parhau tra yr ymchwilir i hyfywedd defnyddio dulliau gwaredu amgen heb gemegau, gan fanteisio ar gynnal yr ymchwil hwnnw tra bod rhaid atal y gwaith dros dymor nythu adar.

Gwasanaeth Eiddo

**Cŵyn ynghylch Aelod o Staff (Chwefror 2026)**

Derbyniwyd cwyn gan denant yr Awdurdod ynghylch sut yr oedd aelod o staff wedi delio â'i denantiaeth dros y blynyddoedd.

Cynhaliwyd ymchwiliad trylwyr i'r hanes hir a pharhaus, ac ni chadarnhawyd rhai agweddau o'r gŵyn. Fodd bynnag, canfuwyd bod materion eraill yn ddilys a chadarnhawyd hwy. I gloi, canfuwyd bod lefel y gwasanaeth a dderbyniwyd gan yr Awdurdod wrth reoli eu tenantiaeth yn gyffredinol wedi syrthio ymhell o dan y safonau disgwyliedig, ac fe ymddiheurwyd am hynny.

Wedi hynny, cyfeiriodd yr achwynydd y mater at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a wrthododd ymchwilio i'r mater ymhellach. Nododd yr Ombwdsmon yn ei hymateb ei bod yn fodlon bod yr Awdurdod wedi nodi a chymryd camau priodol i fynd i'r afael â'r methiannau cydnabyddedig er mwyn atal hyn rhag digwydd eto yn y dyfodol.

**Eitem Rhif 12**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau |
| **DYDDIAD** | 15 Gorffennaf 2026 |
| **TEITL** | **Adroddiad Blynyddol ar y Gwir Weithgarwch Rheolaeth Trysorlys yn 2025/26** |
| **ADRODDIAD GAN** | Prif Swyddog Cyllid |
| **PWRPAS** | Adroddir yn unol â gofynion statudol. Gofynnir i aelodau'r Awdurdod nodi'r cynnwys er gwybodaeth yn unig. |

## 1. CRYNODEB

1.1 Mae'n ofynnol dan God Ymarfer CIPFA i adrodd ar ganlyniadau gwir weithgarwch Rheolaeth Trysorlys yr Awdurdod. Yn ystod 2025/26 arhosodd gweithgarwch yr Awdurdod o fewn y cyfyngiadau a osodwyd yn wreiddiol. Ni fu unrhyw fenthyca. Nid oedd unrhyw fanciau yr oedd yr Awdurdod wedi'u defnyddio ar gyfer buddsoddi wedi methu â thalu.

1.2 Yn 2025/26, £326,988 oedd y cyfanswm llog a dderbyniwyd ar fuddsoddiadau, yn erbyn cyllideb o £100,000. Mae £1,799 o log a dderbyniwyd o fenthyciadau ceir yn cynyddu'r cyfanswm i £328,787.

1.3 Mae'r swm llog banciau a chymdeithas adeiladu o £326,988 am 2025/26 yn ostyngiad o'i gymharu â'r swm o £386,792 a dderbyniwyd yn 2024/25. Mae'r gostyngiad hwn yn adlewyrchu'r gostyngiad mewn cyfraddau llog yn ystod 2025/26 yn dilyn y cyfnod o gyfraddau llog uwch a brofwyd dros y ddwy flynedd flaenorol. Wrth i gyfraddau ostwng, mae'r llog a gafwyd ar falansau arian parod wedi gostwng yn unol â hynny.

## 2. CEFNDIR

2.1 Mae buddsoddiadau rheolaeth trysorlys yn deillio o lif arian yr Awdurdod, incwm a dderbyniwyd o flaen llaw gwariant, yn ogystal â balansau a reserfau sydd angen eu buddsoddi hyd nes bydd angen yr arian ar gyfer dibenion yr Awdurdod. Drwy fuddsoddi symiau sylweddol, mae'r Awdurdod yn agored i risgiau ariannol gan gynnwys colled o gyllid sydd wedi ei fuddsoddi. Mae swyddogion cyllid yr Awdurdod yn adnabod, arolygu a rheoli'r risgiau yma fel eu bod yn gyson â strategaeth rheolaeth trysorlys yr Awdurdod. Gan gydymffurfio hefo gofynion CIPFA (*Chartered Institute of Public Finance and Accountancy*) cymeradwyodd yr Awdurdod ei Strategaeth ar gyfer Rheolaeth Trysorlys 2025/26 yng nghyfarfod 5 Chwefror 2025.

2.2. Mae'n ofynnol yn ôl fframwaith CIPFA 'Rheolaeth Trysorlys yn y Sector Gyhoeddus: Cod Ymarfer' i'r Awdurdod gymeradwyo strategaeth rheolaeth trysorlys cyn cychwyn pob blwyddyn ariannol, ac i dderbyn adroddiad alldro trysorlys ar ddiwedd blwyddyn ariannol a phob hanner blwyddyn . Adroddir yma ar wir weithgaredd Rheolaeth Trysorlys (benthyca a buddsoddi) yr Awdurdod yn ystod 2025/26.

## 3. BENTHYCIADAU

3.1 Mae canllawiau buddsoddi CIPFA a Llywodraeth Cymru yn gofyn i'r Awdurdod fuddsoddi yn bwyllog, gan ystyried diogelwch a hylifedd ein balansau/buddsoddiadau, yn hytrach nac anelu i sicrhau'r enillion gorau posibl.

### A. Terfynau Benthyca 2025/26

Ar 5 Chwefror 2025 cymeradwyodd yr Awdurdod Derfynau Benthyca fel a ganlyn ar gyfer 2025/26 :-

(i) Uchafswm Benthyca Cyffredinol o £500,000 ar gyfer 2025/26, gan gynnwys Terfyn benthyca Tymor Byr o £100,000.

(ii) Peidio â gosod uchafswm ar gyfran llog taladwy sydd â chyfradd llog newidiol.

Nodwyd pryd gosodwyd y terfynau yma eu bod 'rhag ofn', a nad oedd disgwyliad i'r Awdurdod fenthyg.

### B. Benthyca Gwirioneddol 2025/26

Dechreuodd yr Awdurdod y flwyddyn ariannol heb ddyled, a thalwyd am wariant refeniw a chyfalaf yn ystod 2025/26 gydag arian grantiau a chronfeydd refeniw. Felly, o safbwynt Rheolaeth Trysorlys, mae'r Awdurdod yn parhau i fod yn ddiddyled.

## 4. BUDDSODDI

4.1 Bu'n bosibl i'r Awdurdod fuddsoddi ac ennill llog oherwydd swm y balansau a'r llif-arian positif. Cafodd yr arian hwnnw ei fuddsoddi fel a ganlyn, yn unol â'r Strategaeth Rheolaeth Trysorlys:

- Rhoddwyd balansau y rhagwelwyd y byddwn yn eu dal yn y tymor byr – tymor canolig yng nghyfrifon "dim rhybudd" BOS (Bank of Scotland), HSBC (cyfrif cadw), Nationwide a Santander UK, cyfrifon rhybudd 32/35 diwrnod (Bank of Scotland, HSBC a Santander UK) a chyfrifon rhybudd 95 diwrnod (Nationwide a Santander UK).

4.2 Roedd y gyfradd banc yn 4.5% ar gychwyn y cyfnod adrodd (blwyddyn ariannol 2025/26). Cafodd y raddfa ei ostwng i 3.75% erbyn diwedd y flwddyn ariannol.

| Cyfrif | Balans Cyfartalog dros y Cyfnod Buddsoddi | Cyfradd llog | Llog a enillir |
|---|---|---|---|
| **Cyfrif Barclays "Business Premium" (365 diwrnod mewn credyd):** | | | |
| 37 diwrnod(1 Ebrill - 7 Mai) | £497,897 | 1.63% | £823 |
| 91 diwrnod (8 Mai - 6 Awst) | £585,864 | 1.50% | £2,191 |
| 133 diwrnod (7 Awst - 17 Rhagfyr) | £514,705 | 1.38% | £2,588 |
| 104 diwrnod (18 Rhagfyr - 31 Mawrth) | £1,061,437 | 1.25% | £3,780 |
| **Cyfrif Barclays Tymor 32 diwrnod - Heb Rybudd (365 diwrnod mewn credyd):** | | | |
| 37 diwrnod (1 Ebrill - 07 Mai) | £2,120,642 | 4.45% | £9,566 |
| 39 diwrnod (08 Mai - 15 Mehefin) | £1,740,734 | 4.20% | £7,812 |
| 52 diwrnod (16 Mehefin - 6 Awst) | £2,009,304 | 4.05% | £11,593 |
| 133 diwrnod (7 Awst - 17 Rhagfyr) | £2,098,444 | 3.80% | £29,056 |
| 104 diwrnod (18 Rhagfyr - 31 Mawrth) | £2,103,920 | 3.55% | £21,281 |
| **Cyfrif Barclays Tymor 32 diwrnod - Ar Rybudd (93 diwrnod mewn credyd):** | | | |
| 27 diwrnod (17 Ebrill - 13 Mai) | £400,000 | 4.30% | £1,272 |
| 5 diwrnod (14 Mai - 18 Mai) | £605,996 | 4.18% | £347 |
| 28 diwrnod (19 Mai - 15 Mehefin) | £200,000 | 4.05% | £621 |
| 33 diwrnod (20 Awst - 21 Medi) | £200,000 | 3.65% | £660 |
| **Cyfrif Busnes Banc yr Alban (365 diwrnod mewn credyd):** | | | |
| 39 diwrnod (1 Ebrill - 9 Mai) | £429,614 | 1.00% | £459 |
| 26 diwrnod (10 Mai - 4 Mehefin) | £474,172 | 0.90% | £304 |
| 5 diwrnod (5 Mehefin - 9 Mehefin) | £450,045 | 0.80% | £49 |
| 30 diwrnod (10 Mehefin - 9 Gorffenef) | £510,405 | 0.90% | £378 |
| 40 diwrnod (10 Gorffenef - 18 Awst) | £461,474 | 0.80% | £405 |
| 7 diwrnod (19 Awst - 25 Awst) | £547,848 | 0.90% | £95 |
| 14 diwrnod (26 Awst - 8 Medi) | £480,008 | 0.80% | £147 |
| 10 diwrnod (9 Medi - 18 Medi) | £480,340 | 0.70% | £92 |
| 123 diwrnod (19 Medi - 19 Ionawr) | £754,812 | 0.80% | £2,035 |
| 71 diwrnod (20 Ionawr - 31 Mawrth) | £549,343 | 0.70% | £748 |
| **Cyfrif Banc yr Alban Tymor 32 diwrnod - Heb Rybudd (365 diwrnod mewn credyd):** | | | |
| 65 diwrnod (1 Ebrill - 4 Mehefin) | £1,635,106 | 2.15% | £6,260 |
| 97 diwrnod (5 Mehefin - 9 Medi) | £1,792,092 | 2.05% | £9,763 |
| 132 diwrnod (10 Medi- 19 Ionawr) | £1,813,367 | 1.95% | £12,788 |
| 71 diwrnod (20 Ionawr - 31 Mawrth) | £1,556,925 | 2.15% | £6,511 |
| **Cyfrif Banc yr Alban Tymor 32 diwrnod - Ar Rybudd (365 diwrnod mewn credyd):** | | | |
| 76 diwrnod (1 Ebrill - 15 Mehefin) | £226,316 | 2.15% | £1,013 |
| 94 diwrnod (17 Mehefin - 18 Medi) | £207,675 | 2.05% | £1,096 |
| **Cyfrif Cadw HSBC (365 diwrnod mewn credyd):** | | | |
| 19 diwrnod (1 Ebrill - 19 Ebrill) | £2,475,958 | 1.79% | £2,307 |
| 91 diwrnod (20 Ebrill - 19 Gorffenef) | £2,343,496 | 1.67% | £9,757 |
| 92 diwrnod (20 Gorffenef - 19 Hydref) | £2,466,942 | 1.55% | £9,638 |
| 31 diwrnod (20 Hydref - 19 Tachwedd) | £2,413,469 | 1.47% | £3,013 |
| 92 diwrnod (20 Tachwedd - 19 Cwefror) | £2,419,502 | 1.53% | £9,331 |
| 28 diwrnod (20 Cwefror - 19 Mawrth) | £2,422,785 | 1.41% | £2,621 |
| 12 diwrnod (20 Mawrth- 31 Mawrth) | £2,431,569 | 1.31% | £1,047 |
| **Cyfrif Nationwide "Instant Saver" (365 diwrnod mewn credyd):** | | | |
| 15 diwrnod (1 Ebrill - 15 Ebrill) | £511,852 | 2.00% | £421 |
| 69 diwrnod (16 Ebrill - 23 Mehefin) | £459,891 | 1.80% | £1,565 |
| 86 diwrnod (24 Mehefin - 17 Medi) | £468,328 | 1.70% | £1,876 |
| 127 diwrnod (18 Medi - 22 Ionawr) | £266,321 | 1.55% | £1,436 |
| 68 diwrnod (23 Ionawr - 31 Mawrth) | £117,584 | 1.50% | £329 |
| **Cyfrif Nationwide Tymor 95 diwrnod (365 diwrnod mewn credyd):** | | | |
| 15 diwrnod (1 Ebrill - 15 Ebrill) | £1,881,170 | 3.95% | £3,054 |
| 69 diwrnod (16 Ebrill - 23 Mehefin) | £1,871,882 | 3.75% | £13,270 |
| 86 diwrnod (24 Mehefin - 17 Medi) | £2,061,527 | 3.60% | £17,486 |
| 127 diwrnod (18 Medi - 22 Ionawr) | £1,813,615 | 3.40% | £21,455 |
| 68 diwrnod (23 Ionawr - 31 Mawrth) | £1,786,099 | 3.25% | £10,814 |
| **Cyfrif Santander "Busnes Savings" (365 diwrnod mewn credyd):** | | | |
| 123 diwrnod (1 Ebrill - 1 Awst) | £513,933 | 2.48% | £4,295 |
| 92 diwrnod (2 Awst - 1 Tachwedd) | £451,050 | 2.23% | £2,535 |
| 120 diwrnod (2 Tachwedd - 1 Mawrth) | £479,330 | 1.98% | £3,120 |
| 30 diwrnod (2 Mawrth - 31 Mawrth) | £359,866 | 1.73% | £512 |
| **Cyfrif Santander Tymor 35 diwrnod (365 diwrnod mewn credyd):** | | | |
| 37 diwrnod (1 Ebrill - 7 Mai) | £604,452 | 4.03% | £2,469 |
| 91 diwrnod (8 Mai - 6 Awst) | £552,463 | 3.78% | £5,206 |
| 133 diwrnod (7 Awst - 17 Rhagfyr) | £617,707 | 3.53% | £7,945 |
| 104 diwrnod (18 Rhagfyr - 31 Mawrth) | £677,317 | 3.28% | £6,330 |
| **Cyfrif Santander Tymor 95 diwrnod - Heb Rybudd (365 diwrnod mewn credyd):** | | | |
| 37 diwrnod (1 Ebrill - 7 Mai) | £1,106,153 | 4.18% | £4,687 |
| 91 diwrnod (8 Mai - 6 Awst) | £1,417,269 | 3.93% | £13,887 |
| 133 diwrnod (7 Awst - 25 Awst) | £1,409,046 | 3.68% | £18,894 |
| 104 diwrnod (18 Rhagfyr - 31 Mawrth) | £1,427,509 | 3.43% | £13,951 |
| **Cyfanswm llog a enillir** | | | **£326,988** |

4.3 Yn bwysicach, **cadwyd holl falansau'r Awdurdod yn ddiogel, gan nad oedd unrhyw fanciau**, o'r rheiny defnyddiwyd ar gyfer buddsoddi (adnau arian) yn ystod blwyddyn ariannol 2025/26, **wedi methu ad-dalu.**

Roedd yr holl weithgareddau rheolaeth trysorlys yn ystod y flwyddyn yn cydymffurfio a 'CIPFA Code of Practice' a strategaeth Rheolaeth Trysorlys yr Awdurdod.

**5. ARGYMHELLIAD**

Gofynnir i aelodau'r Awdurdod nodi cynnwys yr adroddiad er gwybodaeth.

**Eitem Rhif 13**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau |
| **DYDDIAD** | 15 Gorffennaf 2026 |
| **TEITL** | **Adroddiad Blynyddol Enwau Tirweddol Eryri** |
| **ADRODDIAD GAN** | Cyfarwyddwr Rheoli Tir |
| **PWRPAS** | Diweddaru Aelodau ar gynnydd y gwaith |

## 1. CEFNDIR / CYFLWYNIAD

1.1. Sefydlwyd rhaglen waith i gryfhau gwaith APCE ym maes enwau tirweddol Eryri yn 2020.

1.2. Yn 2022, penderfynodd yr Awdurdod arddel yr enwau Cymraeg, Yr Wyddfa ac Eryri, ym mhob iaith a dilynwyd hynny gyda phenderfyniad pellach gan yr Awdurdod yn 2024 i arddel enwau tirweddol Cymraeg yn unig.

1.3. Penderfyniadau am ddefnydd yr Awdurdod yn unig yw'r rhain ond mae'r Awdurdod yn cydnabod bod gweithredoedd yr Awdurdod yn y maes hwn yn debygol o ddylanwadu ar ddefnydd cyrff, cyfryngau ac unigolion o enwau tirweddol Cymraeg.

## 2. Y CYD-DESTUN STRATEGOL

2.1. Mae'r maes gwaith enwau lleoedd yn cyflawni pwrpasau'r Parc Cenedlaethol drwy:

2.1.1. Warchod a gwella treftadaeth ddiwylliannol.

2.1.2. Darparu cyfleoedd ar gyfer mwynhau a dysgu am rinweddau arbennig yr ardal.

2.2. Mae enwau lleoedd yn rhan o Rinweddau Arbennig 3 (Bywiogrwydd yr Iaith Gymraeg) a 7 (Tirweddau Hanesyddol) Cynllun Eryri.

2.3. Yn ogystal, mae enwau lleoedd yn gyfrwng ar gyfer cysylltu gydag amgylchedd naturiol Eryri. Wrth wynebu'r argyfwng hinsawdd ac argyfwng natur, mae enwau lleoedd yn dod â ni'n agosach at ddeall ein cysylltiad â'r dirwedd a bywyd gwyllt. Mae'r elfennau hyn yn ystyriaethau pwysig wrth lunio Cynllun Eryri newydd.

## 3. DADANSODDIAD O WEITHGAREDD ENWAU LLEOEDD 2024-25

### 3.1. Llwyddiannau

- Mae dros 900 o enwau tirweddol Eryri sydd wedi'u safoni drwy broses ar y cyd rhwng Comisiynydd y Gymraeg ac APCE, bellach wedi'u cyflwyno i Arolwg Ordnans. Mae'r data yn cael ei ychwanegu i gronfeydd gwybodaeth Arolwg Ordnans er mwyn diweddaru asedau mapio.
- Bu Wardeiniaid APCE yn creu recordiadau llais o enwau tirweddol Eryri, i'w cyflwyno i gronfeydd data Wici. Bydd hynny'n sicrhau bod cannoedd o enwau tirweddol Cymraeg i'w clywed ar dudalennau Wicipedia mewn nifer o ieithoedd, led-led y byd.
- Mae'r model ar gyfer casglu enwau tirweddol mewn cymunedau wedi'i fabwysiadu gan Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Arfordir Penfro a Bannau Brycheiniog ac mae gwaith mapio a chofnodi ar y gweill yn y ddau Barc.
- Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cynhaliwyd sesiwn rhannu gwybodaeth am y gwaith casglu a safoni enwau tirweddol yn Eryri gyda staff Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cyngor Dinbych a Thirwedd Cenedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.
- Mae cymunedau yn parhau i ymateb yn gadarnhaol iawn i'r gwaith a'r diddordeb yn cynyddu.
- Mae gwasanaethau ar draws yr Awdurdod yn parhau i gyfrannu at y gwaith, e.e. Wardeiniaid a'r gwasanaethau Cadwraeth, Coed ac Amaeth a Threftadaeth Ddiwylliannol.
- Mae cydweithio cadarnhaol yn parhau gyda phartneriaid allweddol fel Comisiynydd y Gymraeg, Llywodraeth Cymru, Arolwg Ordnans a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru.
- Mae partneriaethau newydd ar y gweill gyda'r BMC a Phlas y Brenin. Nod y gwaith hwn fydd Ymgysylltu â'r sector awyr agored a rhannu cynnwys digidol am sut i ynganu enwau tirweddol Cymraeg a hanes yr enwau.
- Defnyddiwyd canolfannau cymunedol i gynnal y digwyddiadau cofnodi, er mwyn tynnu pobl ynghyd i sgwrsio a rhannu gwybodaeth.
- Cwblhawyd comisiwn celf Anna Pritchard, i ddehongli enwau tirweddol Eryri drwy decstilau. Cynhaliwyd arddangosfeydd llwyddiannus yn Oriel Plas Glyn y Weddw ac Amgueddfa Penmaenmawr. Mae'r gwaith yn cael ei arddangos yng Nghanolfan Grefft Rhuthun ar hyn o bryd a bydd yr arddangosfa ym MOMA Machynlleth o fis Medi ymlaen.

### 3.2. Cyfleoedd:

- Mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn awyddus i gydweithio ar ddehongli enwau tirweddol mewn arddangosfa yn Eisteddfod Genedlaethol Maldwyn Meirionnydd 2027.
- Ffermio Bro – cyfle i ymestyn y prosiect a dwysau'r cydweithio o fewn yr Awdurdod a thu hwnt.

### 3.3. Materion i gnoi cil arnynt:

- Mae nifer o gwestiynau anodd sydd heb eu hateb, yn benodol o amgylch bathiadau Saesneg ar ddrinfgeydd a nodweddion tirweddol. Mewn gwirionedd, mae'r dasg o gofnodi a gwarchod enwau tirweddol yn barhaus.

## 4. DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL – Targedau 2025/26

| Targed | Mesur | Canlyniad 2024/25 |
|---|---|---|
| Byddwn yn cynnal sesiynau cofnodi enwau tirweddol mewn cymunedau ledled y Parc Cenedlaethol. | Byddwn yn targedu cynnal 10 sesiwn y flwyddyn. | 7 (cynhaliwyd llai o sesiynau na'r disgwyl oherwydd newid staff ac ehangu'r gwaith i Arfordir Penfro a Bannau Brycheiniog. |
| | Byddwn yn targedu cofnodi 100 o enwau ym mhob sesiwn. | 1202 o enwau wedi'u cofnodi, mewn 7 sesiwn |
| Byddwn yn parhau i safoni enwau tirweddol Eryri drwy gywaith gyda Chomisiynydd y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd ac Arolwg Ordnans. | Byddwn yn targedu safoni o leiaf un grŵp o enwau tirweddol yn flynyddol. | Safonwyd enwau cadwyni mynyddoedd, llynnoedd llai a rhestr o enwau amrywiol arall. |
| Ymgysylltu ag Arolwg Ordnans er mwyn gwella dealltwriaeth o arwyddocád enwau tirweddol Cymraeg a dylanwadu ar bolisi mapio. | Cyfarfod 2 waith y flwyddyn. | Cyfarfod Mai a Tachwedd 2025. Gwaith yn symud ymlaen yn gadarnhaol. |
| Ymgysylltu gyda rhanddeiliaid a'r gymuned ynglŷn â'r hyn sydd wedi'i gyflawni. | Cwblhau o leiaf 2 weithgaredd ymgysylltu yn flynyddol. | Cyfarfodydd misol gyda swyddogion Cymraeg 2050 yn parhau. Cefnogaeth barod ar gael i'r gwaith ar lefel ymarferol a strategol.<br>Cynhaliwyd sesiynau ymwybyddiaeth gyda Pharciau Arfordir Penfro a Bannau Brycheiniog a Chyngor Sir Ddinbych, arddangosfa comisiwn Anna Pritchard. |
| Byddwn yn diweddaru Aelodau ar gynnydd y gwaith | Cynnal cyfarfodydd y Grŵp Llywio Enwau Lleoedd o leiaf un waith y flwyddyn.<br>Adrodd i Aelodau yn flynyddol. | Cyfarfu'r Grŵp Llywio yn Ionawr 2026 i gymeradwyo'r rhestrau diweddaraf o enwau wedi'u safoni. |
| Byddwn yn lansio adnodd addysg Enwau Eryri. | Yn wreiddiol, bwriadwyd cydweithio â Chyngor Conwy ond yn sgil newidiadau staff, mae Tirlun, sef menter addysg Tirweddau Cymru yn gweithio ar yr adnodd fel rhan o waith cenedlaethol ehangach. | Ar y gweill. |

| | | |
|---|---|---|
| Byddwn yn cyflwyno'r gwaith i Fforymau Mynediad Gogledd a De Parc Cenedlaethol Eryri. | Darparu cyflwyniad i Fforymau Mynediad Eryri (Gogledd a De). | Cwblhawyd Mehefin 2025. |
| Cwblhau cywaith gyda Wicipedia Cymraeg a Chomisiynydd y Gymraeg i recordio'r enwau tirweddol sydd wedi'u safoni ar ffurf clip sain, i'w hychwanegu at adnoddau Wicipedia Cymraeg (drwy drwydded 'creative commons'. | Cynnal gweithdy ar y cyd â Chomisiynydd y Gymraeg, Wicipedia ym Mhlas Tan y Bwlch. | Cwblhawyd Haf 2025. |
| Byddwn yn cwblhau prosiect dehongli enwau tirweddol yng nghymuned Llanuwchllyn. | Mae Cyngor Cymuned Llanuwchllyn yn arwain y prosiect gyda cefnogaeth ariannol gan APCE. Mae'r prosiect yn cynnwys dehongli ar safle, gosodiad dehongli yn Neuadd Llanuwchllyn a rhaglen teithiau cerdded, oll i ddehongli a chodi ymwybyddiaeth o gyfoeth enwau tirweddol yr ardal. | Ar y gweill. |
| Byddwn yn mesur data ansoddol er mwyn deall effaith y gwaith hwn ar ddealltwriaeth trigolion ac ymwelwyr o arwyddocâd enwau tirweddol y Parc Cenedlaethol. Byddwn yn gwneud hyn yn benodol drwy holiadur defnyddwyr Yr Wyddfa yn y lle cyntaf ac yn chwilio am gyfleoedd i atgyfnerthu'r gwaith hwn drwy gynghorau cymuned, ysgolion a'r cyfryngau cymdeithasol. | | Heb ei gyflawni. |

## 5. TARGEDAU 2025/26

- Cynnal 5 sesiwn cofnodi enwau lleoedd.
- Cydweithio â'r Eisteddfod Genedlaethol a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu cynllun prosiect ar gyfer Eisteddfod Maldwyn Meirionnydd 2027.
- Cwblhau taith gychwynnol comisiwn celf Anna Pritchard ac asesu cyfleoedd ar gyfer ymestyn y daith yn 2027.
- Comisiynu prosiect safoni enwau ardal Ogwen.

## 6. ADNODDAU

- Amser y Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol
- Cyllideb prosiectau Treftadaeth Ddiwylliannol
- Cyfleoedd posib i ymgeisio am gyllid ychwanegol ar gyfer prosiectau ymgysylltu a dehongli, e.e. Eisteddfod Genedlaethol 2027.

## 7. AMSERLEN

- Mae’r gwaith hwn yn rhan o raglen waith barhaus y gwasanaeth Treftadaeth Ddiwylliannol.
- Bydd blaenoriaeth y gwaith hwn yn amrywio yn ôl pwysau arall o fewn y gwasanaeth, e.e. prosiectau strategol ac argaeledd adnoddau.

## ARGYMHELLIAD

1. **I Aelodau dderbyn yr adroddiad er gwybodaeth.**
2. **I Aelodau gyfrannu unrhyw syniadau ar gyfer datblygu maes gwaith enwau lleoedd.**